ECO'R WYDDFA

RHIF 349 TACHWEDD 2007 PRIS 40c

YN Y RHIFYN HWN:

- Cyngerdd Iwan
- Hanes Llanberis 'Ddoe'
- Dathlu Canmlwyddiant a Hanner Eglwys Crist, Llandinorwig

R. GWYNN DAVIES
BRYN EITHIN, Y WAUNFAWR

Crynodeb o anerchiad coffa Dafydd Iwan yn yr angladd Hydref 19, 2007.

MAE rhai ohonom yn cael ambell i weledigaeth, ac yna'n symud ymlaen i'r nesa. Ond y mae yna rai pobl brin sy'n cael gweledigaeth i bwrpas – er mwyn ei gwireddu, ac er mwyn i hynny wneud gwahaniaeth i fywydau pobl eraill. Un o'r rhai prin hynny oedd Gwynn Davies.

Wedi edrych ar y byd am flynyddoedd trwy lygaid ei fab, Gwion, gwelodd Gwynn mai'r hyn oedd ei angen oedd trin pobl gydag anfanteision fel pobl gyflawn, rhoi swyddi iddyn nhw a phwrpas i'w bywydau, a lle i weithio y gallan nhw deimlo perchnogaeth ohono.

I'r rhai ffodus ohonom a glywodd Gwynn yn esbonio'i weledigaeth yn niwedd y 70au, fe wyddem o'r cychwyn y byddai Antur Waunfawr yn digwydd. Fedrai neb anwybyddu brwdfrydedd fel un Gwynn. Sefydlodd y strategaeth i rai â nam meddwl dros Gymru gyfan, a sbardunodd y gweision sifil a'r gwleidyddion i roi adnoddau digonol yn eu lle i wireddu'r freuddwyd.

Tyfodd Antur Waunfawr i fod yn fodel nid yn unig i Gymru, ond i wledydd led-led y byd, ac y mae'n parhau i fod yn sbardun i weithgaredd tebyg mewn sawl gwlad, er gwella ansawdd bywyd rhai sydd ag anfanteision. Dim ond gŵr cyflawn ac amryddawn fel Gwynn Davies a allai gyflawni hyn.

Y cof cyntaf sydd gen i ohono oedd mewn nosweithiau cymdeithasol hwyrol yn y Waun yn adrodd helyntion digri rhyw Defi John (os iawn y cofiaf ei enw), a'i lygaid wedi cau, gwên lydan ar ei wyneb, a'i 'r' yn rowlio rownd yr ystafell, a phawb yn glana chwerthin. Yr

un Gwynn yn cynnal y capel, mwy difrifol, ond yr un mor ffracth, er yn llawn amheuon ynglŷn â'i gredo ei hun.

Y tro diwethaf imi ei weld ym Mryn Eithin, roedd newydd ddarllen llyfr Dylan Iorwerth, sydd wedi'i gyflwyno i Gwynn fel teyrnged am ei waith fel athro Ysgol Sul. Roedd yn fwy balch o deyrnged Dylan nag ydoedd o'r sawl teyrnged arall a dderbyniodd yn ystod ei oes.

Roedd Gwynn Davies yn genedlaetholwr wrth reddf, a'r cenedlaetholdeb hwnnw wedi ei wreiddio yn ei gariad dwfn tuag at ei fro enedigol. Roedd yn Waungarwr i'r carn, a'i ofn mwyaf oedd y byddai'n gorfod gadael ei bentre hoff oherwydd henaint. Yn ffodus, cafodd fyw yn ei gynefin i'r diwedd, yn medru gweld ei freuddwyd fawr wedi ei gwireddu drwy ffenest Bryn Eithin, ac yn ŵr ifanc i'r diwedd, gan na allai Gwynn fynd yn hen.

Roedd hefyd yn heddychwr digymrodedd, ac wedi dal y safbwynt honno drwy gyfnodau anodd. Wrth rannu'r profiad o fod yn aelod o dîm Talwrn y Waunfawr gydag o, roedd yn amhosib i osgoi ei argyhoeddiadau dwfn yn yr holl bethau hyn, gan eu bod yn brigo i'r wyneb dro ar ôl tro. Roedd yn englynwr tan gamp, ond ei hoff gyfrwng oedd y gân, a ddatblygodd fel rhyw fath o sgwrs estynedig rhyngddo ef a Gerallt y Meuryn, gan sôn yn barhaus am ei nain, ac am John Evans, a'r Waun, wrth gwrs. Roedd yn ddyn teulu llwyr, a'i ofal o Mary, a Mary ohono yntau, yn ddiarhebol, a'u cariad tuag at Gwion a Sioned yn clymu'r teulu yn gwlwm clos.

Cyfoethogodd Gwynn Davies fywydau pob un ohonom a gafodd y fraint o rannu ein hamser ag o; cyfoethogodd fywyd y Waunfawr, ac enynnodd deyrngarwch llawer o bobol y Waun, a gweithwyr yr Antur a'i galluogodd i wireddu ei weledigaeth. Cyfoethogodd hefyd fywyd ei genedl, a diolchwn i Dduw amdano.

DAFYDD IWAN

Cyfarfod Blynyddol Yr ECO

Y Sefydliad Coffa, Llanrug
Nos Fercher, 7pm 14 Tachwedd

Gobeithir gweld pawb a ddaeth i'r cyfarfod flwyddyn yn ôl, ac a addawodd helpu, a hefyd holl gyfeillion eraill yr Eco yn yr ardal. Mae gwir angen eich cymorth ar y papur bro.

ECO'R WYDDFA

RHIF 349
TACHWEDD 2007
Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Tîm Golygyddol
Erthyglau a newyddion at ohebwyr pentref neu i
Penarth
Ffordd yr Orsaf
LLANRUG LL55 4BA
Straeon ac erthyglau ar e-bost
storiau@ecorwyddfa.co.uk

CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Llanberis (870740)
eifion@eifionroberts9.wanadoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)
BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran (01248) 670726
BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
DINORWIG: Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt (870740)
LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon (871820)
PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

Y RHIFYN NESAF
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
NOS LUN, 19 TACHWEDD
Os gwelwch yn dda
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, 29 TACHWEDD

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
RHAGFYR	19 Tachwedd	29 Tachwedd	Caeathro	Clive James	677 438

RHODDION

£20: Annie Pritchard, 1 Padarn Road, Llanberis; Alwena a John Jones, Corlan y Rhos, Llanrug.
£15.00: Fred Owen, Carreg Wen, Tŷ Du Road, Llanberis
£10: Hefin a Pam Hughes, Llys Myfyr, Ffordd Deiniol, Deiniolen; Goronwy Jones, Tan y Cae, Bethel; Teulu y diweddar Mr Ieuan Griffith (Penisarwaun); Dwynwen Roberts, Rhianfa, Frondeg, Llanberis; Mrs Heulwen Jones, Stryd Warden, Llanberis; Catherine Griffiths a'r teulu, Tan y Fron, Llanrug; Ellen Jones, 4 Hafan Elan, Llanrug; Gordon a Dorothy Carter, 1 Didfa, Llanrug; Eirian a Huw Tegid, Penisarwaun; Jane ac Emrys, Rhydychen; Mr a Mrs Derek Williams, Bron Eilian, Dinorwig.
£6.00: Rhodd o'r Waunfawr.
£5.00: Mrs Barbara Griffith a'r plant, Stad Bro Waun, Waunfawr; Ian a Helen Parry, Llangefni.
£3.00: Mrs Betty Jones, Y Berllan, Ffordd Capel Coch, Llanberis.
£1.00: Gomer Roberts, Bwthyn Penygroes, Penisarwaun.

LLYTHYRAU

Syr/Madam
Carwn ddwyn sylw i'r ffaith mai ar 7 Gorffennaf 1958, am 7.00 o'r gloch y cynhaliwyd gwasanaeth dad-gorffori Capel Hebron yng Ngwaun Cwm Brwynog, hynny yw, hanner can mlynedd i fis Gorffennaf nesaf.

Fe drysorir y llun o'r amgylchiad trist a ymddangosodd yn *Y Cymro* gan amryw o ddisgynyddion yr hen deuluoedd fu'n mynychu'r capel, mae'n siŵr, gyda'r Parchedigion J. P. Davies a J. Alwyn Parry yn gwasanaethu.

Gan y bydd union hanner can mlynedd ers hynny, tybed a oes awydd gan garedigion Capel Hebron a disgynyddion hen deuluoedd Cwm Brwynog i gofio'r achlysur mewn rhyw fodd fis Gorffennaf nesaf?

Yn gywir

ROL WILLIAMS,
WUANFAWR

DIOLCHIADAU

Dymuna Margaret Parry a Gwenno Owen, Llanrug, ddiolch i bawb a'u cefnogodd i gymryd rhan yn yr Abseil Noddedig o ben Tŵr Marcwis, Llanfairpwll, i godi arian i Gymdeithas y Deillion Gogledd Cymru.

Trosglwyddwyd y swm o £1,200 i Gronfa'r Gymdeithas.

Annwyl Olygydd,
Diddorol iawn oedd darllen hanes Eifion Hughes a'r teulu yn olrain hanes eu perthynas, Ellis Williams, o gwmpas y byd yn ddiweddar, ac fel bu i ffilm-ddogfen o'i fywyd gael ei ddarlledu dros y Nadolig y llynedd.

Fodd bynnag, ac fel gŵyr darllenwyr yr *Eco* eisoes, rhaid nodi mai cyd-ymgynghorydd ar y ffilm oedd Eifion. Gwir yw mai ym meddiant Eifion mae llythyrau gwreiddiol Ellis a hyn yw sail y stori. Ond nid hyn yw diwedd yr hanes.

Mae fy nhad, John Ellis Williams, sy'n adnabyddus ym mro'r *Eco* fel 'Y Gwalch' ac awdur dros gant o erthyglau a hanesion i'r papur dros y blynyddoedd, ymysg pethau eraill, hefyd wedi cyd-weithio gyda Sianco cyf. ar y prosiect hwn. Yn wir, mae hanes Ellis wedi ymddangos yn yr *Eco* o dan ei enw ef eisoes; yn ogystal â sut y bu i'w lyfrau ar ddirwestiaeth ddychwelyd o Awstralia i Gymru trwy law yr Archdderwydd, Selwyn Iolen.

Ysgrifennodd eisoes erthyglau yn y Saesneg hefyd am ei ewythr Ellis, yn e.e. *The Countryman*, *County Quest*, *Caernarfon and Denbigh Herald* ac ati.

Fe'u darllenir hwy ar hyd a lled y byd yn y ddwy iaith. Bu'n gaffaeliant mawr i gwmni Sianco cyf. cael benthyg medalau Ellis o'r Rhyfel Mawr, ei *'dog tag'* a'r plac copr teuluol er cof amdano, i gyd yn ein meddiant ni yng Ngwynedd.

Ni welaf ychwaith gofnod yn erthygl Eifion bod llyfr ardderchog Dr Michele Langfield, *Welsh Patagonians - The Australian Connection*, gyda mân wall lle cyfeiria at ein cyd-berthynas, Ellis Williams. Bûm innau yn gohebu â hi am hyn, a diolchodd yn garedig i mi trwy ebost am ei hysbysu nad oedd y cysylltiad teuluol a honwyd am ach Ellis yn ei llyfr yn gywir.

Fodd bynnag, dymunaf pob llwyddiant i Eifion ar gefn ein perthynas, Ellis Williams. Gwn ei fod yn ddyn anrhydeddus, a bydd yn medru cydnabod cyfraniad sylweddol fy nhad i, a'i gyfyrder yntau, John Ellis Williams, i'r ffilm y tro nesaf y bydd yn cyfranu pwt i'r Wasg am Ellis Williams.

Cofion cynnes o Wlad Pwyl,
SION REES WILLIAMS
Darlithydd yn y Gymraeg a'r Saesneg
Prifysgol Babyddol Ioan Pawl II
LUBLIN
Gwlad Pwyl

DIOLCH

Hoffai Dylan a Meirion, ar ran y Band, ac hefyd ar ran Iwan a'i deulu, ddiolch i bawb a gefnogodd y cyngerdd yn Theatr Seilo, Caernarfon, nos Sadwrn, 6 Hydref.

Diolch i'r noddwyr, yr artistiad, y gynulleidfa a'r nifer helaeth o bobl a anfonodd rodd tuag at yr Apêl. Pleser yw cael gweld cymuned agos fel hyn yn dod at ei gilydd i gynorthwyo'r rhai hynny sy'n mynd trwy amser caled.

Diolch o galon.

S.A.N.D.S. GWYNEDD
Gwasanaeth Diolch a Chofio Ein Plant
Sadwrn, 10 Tachwedd 2007
am 2.00 o'r gloch
CAPEL NEWYDD, YSBYTY GWYNEDD
Croeso cynnes i bawb
Luniaeth ar gael ar ôl y gwasanaeth.

BWRDD YR IAITH GYMRAEG · WELSH LANGUAGE BOARD

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

Perchnogion Newydd!
yn parhau'r traddodiad gwych
WAVELL'S
Bryn ac Angela Williams
London House, LLANRUG
Ffôn:
(01286) 673574
PEN CIGYDDION Y FRO
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus,
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

Cofiwch ddefnyddio
SWYDDFA POST BETHEL
(01248) 670261
Cewch groeso cynnes gan **CLED A SUSAN**
ORIAU AGOR
6 a.m.–7.30 p.m. (Llun–Sadwrn)
6 a.m.–3 p.m. (Sul)
Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.
A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

John Gwynedd wedi arwain plant Ysgol Waunfawr i gopa Moel Eilio.

YSGOL WAUNFAWR

Taith Gerdded Noddedig Adran Iau i Foel Eilio. Ddiwedd mis Medi cynhaliwyd y daith noddedig i Foel Eilio a hoffem ddiolch o waelod calon i John Gwynedd am ein tywys ar y daith. Diolch hefyd i bawb o'r pentref a roddodd arian, hyd yma casglwyd £550.00. Bydd yr arian yma yn mynd tuag at ddatblygu iard yr ysgol.

Dyma adroddiad Llywelyn Law o'r daith.

Trip i fyny Moel Eilio

Mis diwethaf aeth Blwyddyn 6, 5 a 4 o Ysgol Gynradd Waunfawr ar daith i fyny Moel Eilio. Bwriad y daith ddiddorol oedd i godi arian i'r Ysgol.

Arweinydd y diwrnod oedd John Gwynedd o'n pentref ni, sef Waunfawr, hefyd athrawon ac antis yr ysgol. Rhan gyntaf y siwrne oedd bws yn ein pigo ni i fyny i Cefn Du. Roedd y tywydd yn braf a'r olygfa yn glir.

Uchder Moel Eilio yw tua 720 medr. Rwyf wedi cerdded i'r copa oer 4 gwaith, felly roedd y daith yn hawdd. Fi a Peter oedd ar y blaen yr holl ffordd, ond roedd y siwrne yn eithaf caled i rai o'r plant bach. Roeddwn yn cerdded yn ofalus oherwydd roedd nifer o byllau gwlyb mwdlyd. Doeddwn i ddim eisio traed mwdlyd gwlyb!

Roedd John Gwynedd yn egluro am y chwareli oedd yn gweithio flynyddoedd yn ôl ar y mynydd, heddiw mae darnau o beiriannau yn dal i'w gweld o gwmpas. Ar y ffordd gwelais dair cigfran a Boncath yn hedfan uwchben ac yn sgrechian. Ffendiodd fy ffrind, Dafydd Lloyd, glip clust dafad ei daid a cadwodd o fel '*souvenier*' o'r diwrnod.

Fi a Peter oedd y cyntaf i'r copa, eisteddom yn y cylch cerrig i ddisgwyl am weddill y criw. Roedd y copa yn oer ofnadwy a phan dynnais fy menyg poeth roedd fy nwy law wedi fferru. Doeddwn i ddim yn gallu tynnu papur oddi ar fy misged ac roedd yn rhaid i mi ei rwygo fo efo fy nannedd. I gadw'n gynnes roeddwn yn rhedeg o gwmpas y cylch cerrig.

Ar ôl y picnic, roedd John Gwynedd yn enwi'r mynyddoedd o gwmpas, Mynydd Mawr, Wyddfa, Carneddau, Glyder Fach, Glyder Fawr a llawer mwy. Roeddwn yn edrych i lawr ar Llanberis, a'r holl lechi yn edrych yn hyfryd. Hefyd roedd ffarm Ty'n yr Onnen i'w gweld.

Roedd yn amser i ddod lawr y mynydd. Ar y llawr gwelais hen getrisen fflam, efallai ei bod wedi cael ei thanio gan bobl oedd wedi colli eu ffordd ar y mynydd. Hefyd cefais gipolwg o fy nhŷ. Mewn ychydig o amser cyrhaeddon ni at Cefn Du. Chwaraeais i a Gwyndaf oxo ar y llechi. Cafodd llawer o blant draed mwdlyd gwlyb wrth lanio mewn pyllau mwdlyd. Aethom drwy'r goedwig a neidio ar draws afonydd bach, a weithiau baglu dros wreiddiau coed. O'r diwedd cyrhaeddom yr Ysgol.

Y noson honno roeddwn wedi blino yn lân ac roedd fy nghoesau yn brifo. Cefais fath cynnes a gwely cynnar. Roedd hi wedi bod yn daith i'w chofio.

Glanllyn. Treuliodd 33 o blant blwyddyn 5 a 6 dridiau pleserus iawn yng Nglanllyn ddechrau mis Hydref gyda disgyblion Ysgol Bethel. Hoffai Mrs Dafydd a Mr Willliams ddiolch i'r plant am eu hymddygiad rhagorol.

Dyma adroddiad Dafydd Lloyd Williams o flwyddyn 6.

Glanllyn

Deffrais yn fuan fore Llun yn edrych ymlaen i fynd i Glanllyn. Roeddwn wedi bod o'r blaen ac yn ysu i gael canŵio a dringo.

Roedd fy nghes yn drwm a braf oedd cael ei adael ar y bws ac eistedd hefo Dafydd Meredydd Rowlands i fwynhau y siwrna.

Wedi setlo yn fy stafell wely hefo Peter, Gruffydd a Llywelyn, roedd hi'n amser cinio ac yna mynd i gael hwyl. Yn y pnawn es i Llafn Rolio a chefais hwyl yn dysgu gwneud hyn a gweld fy ffrindiau yn syrthio ar lawr.

Roedd hi'n llawer o hwyl chwarae gemau gwahanol yn y nos, gwell na mynd i gysgu!

Daeth y darn gorau pan es i ganŵio ar Llyn Tegid. Roedd yna gemau a fy nhîm i enillodd nhw i gyd.

Gan fy mod yn mynd i Ysgol Brynrefail blwyddyn nesa roedd yn dda cael cyfarfod plant o Ysgol Bethel a fydd yno hefo fi. Nes i ffrindiau hefo rhai o'r hogiau. Roeddan ni yn chwarae pêl-droed hefo'n gilydd ond roedd hogiau Waun yn well chwareuwyr!

Dringo wal ddringo oedd y peth oedd yn codi ofn ar lot o blant ond i mi roedd yn hwyl fawr. Roeddwn yn gallu mynd i'r copa 4 gwaith allan o 5. Roedd Glanllyn yn grêt!

Plannu Blodau a blodau'r Gwanwyn. Ddydd Iau, 11 Hydref, daeth Anna Williams a'n cyfeillion o'r Antur i dacluso'r ardd a phlannu bylbiau ar gyfer y gwanwyn. Mae'r potiau yn edrych yn ddel iawn. Dyma lun Mared, Connor ac Ifan gyda'r potyn a wnaethant.

Mared, Connor ac Ifan, yn arddangos eu potyn wedi iddynt fod yn plannu blodau.

Ensemble Cymru. Yr un diwrnod aeth plant blwydyn 5 a 6 i Theatr Seilio yng Nghaernarfon i glywed perfformiad gan aelodau Ensemble Cymru. Roedd yr ysgol wedi derbyn nawdd gan Asiantaeth Gelfyddydol Gwynedd a Môn i gynnal gweithdy cerddorol yn yr ysgol wythnos cyn y cyngerdd.

Y Cyngor Ysgol. Cynhaliwyd etholidau'r cyngor ddechrau mis Hydref a hoffem longyfarch yr aelodau newydd, sef cynrychiolwyr blwyddyn 3: Morgan Jones a Mair loxton; blwyddyn 4: Dafydd Lloyd ac Enlli Pritchard; blwyddyn 5: Alex Haycock a Megan Eira; blwyddyn 6: Gruffydd Rowlands a Beca Thomas. Bydd cyfarfod cyntaf o'r cyngor cyn hanner tymor a bydd yr aelodau yn canolbwyntio yn ystod yr hanner tymor nesaf ar sut i drefnu gweithgraeddau amrywiol ar yr iard yn ystod amseroedd chwarae a chinio.

Ymweliad Blwyddyn 2 â Llanberis. Ddydd Iau, 18 Hydref, bu plant blwyddyn 2 ar ymweliad yn Llanberis. Cawsant gyfle i ymweld â'r amgueddfa, yr ysbyty a'r trên bach.

Diolch yn arbennig i Mr Ken Latham am ei gyflwyniad diddorol.

Gwasanaeth Diolchgarwch. Byddwn yn cynnal ein gwasanaeth Diolchgarwch yn yr ysgol bnawn Gwener, 22 Hydref. Cynhelir gwasanaeth Priodas arbennig yn Eglwys Croes-y-Waun ddydd Iau, 8 Tachwedd, am 10 o'r gloch. Estynnwn groeso cynnes i bawb.

DYDDIADAU I'W CADW MEWN COF.

- Byddwn yn cefnogi Ymgyrch Operation Christmas Child yn yr ysgol eleni .Cesglir y bocsys fore Dydd Mercher, 14 Tachwedd.
- Cynhelir ein Ffair Lyfrau flynyddol yn ystod wythnos 12 Tachwedd.
- Cynhelir Nosweithiau Rhieni yn ystod wythnos 19 Tachwedd.
- Cynhelir y Ffair Nadolig yn y Ganolfan Nos Iau, 6 Rhagfyr.

Y CLWB 300. Enillwyr y Clwb am fis Medi oedd: £40: Mrs Emsul Jones, 15 Bro Waun; £25: Mrs Gweneirys Jones, Penrhyn, Lôn Ddewi, Caernarfon; £10: Mrs Rhian Ellis, Ty'n Llidiart.

Enillwyr y Clwb am fis Hydref oedd: £40: Mrs Pearl Williams, Parc; £25: Mrs N. Huws Roberts, Bodrida; £10: Mrs Rhian Williams, 6 Tŷ Hen.

CLWB GWYRAI. Yn sgil yr ymateb ffafriol i ailgyfodi Clwb Gwyrfai yn y pentref – clwb o bensiynwyr i gyfarfod unwaith y mis yn y prynhawn – deallir mai ym mis Ionawr y bwriedir cael y cyfarfod cyntaf. Cynhelir cyfarfod cyhoeddus yn Festri Capel y Waun ym mis Tachwedd i glywed barn y rhai sydd â diddordeb. Yn naturiol, bydd nifer y rhai fydd yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw yn arwydd o'r gwir awydd i ailsefydlu'r Clwb, a fu mor boblogaidd ar un cyfnod.

CYNGERDD MAWREDDOG yn Festri Capel Coch, Llanberis am 7.30 o'r gloch nos Sul, 11 Tachwedd. Yr artistiaid fydd: Dafydd Iwan, Côr y Waun, Susan Williams, Stephanie Welsby ac Edward Morus Jones.

Tocynnau £3 wrth y drws. Elw'r noson tuag at gynllun Efengyl i Fro'r Eco – 'EFE'.

CÔR Y WAUN YN DATHLU. Mae Côr y Waun eleni yn dathlu ei ddengmlwyddiant gyda nifer o gyngherddau. Byddant ym Mhentrefelin (11 Hydref); Bethel (7.15 ar 16 Hydref, yng Nghapel Cysegr); Llanberis (11 Tachwedd yn Capel Coch), gan gyraedd penllanw hefo cyngerdd dathlu yng Nghanolfan Waunfawr ar 16 Tachwedd yng nghwmni Siân Eirian, Ffion (unawdydd Pigyn Clust) a chôr plant yr ysgol. Arweinir y Côr gan Gwenda Gruffydd a'r cyfeilydd yw Ann Pritchard.

Os oes cantorion am ymuno â'r Côr, neu gymdeithas neu fudiad yn awyddus i'r Côr berfformio i godi pres, neu i gael tocynnau i berfformiadau cysylltwch ag ysgrifenyddes newydd y côr, Irene Robetts (01286 650545). Bydd parti Nadolig y côr yng ngwesty'r Goat, Bryncir (yr hen Glandwyfach) ar 1 Rhagfyr.



Plant Ysgol Waunfawr yn y gweithdy gyda Ensemble Cymru.

Atodiad **Waunfawr**

CYFARCHION Y NADOLIG.
Neges gan un o drigolion hynaf y pentref:
'Yr wyf fi, Katie Roberts, Stad Tref Eilian, yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi yn ystod 2008. Ni allaf fynd o gwmpas o gwbwl eleni i brynu cardiau na dim arall, ond gallaf ddiolch yn fawr iawn am bob cerdyn ac anrheg yr wyf wedi ei dderbyn ar y Nadolig a'r pen-blwyddi bob blwyddyn. Pob hwyl y Nadolig hwn eto. K.R.'
YR URDD. Drwy ymroddiad gwirfoddolwyr mae cangen Urdd y pentref wedi cychwyn cyfarfodydd eto y tymor hwn. Pob hwyl i'r aelodau yn eu gweithgareddau.
DIOLCH. Mae ein diolch fel pentrefwyr yn fawr i Trefor a Roy am eu gwaith gwirfoddol yn tacluso'r tir o amgylch y gofgolofn erbyn Sul y Cofio.
NOSON I"R TEULU. Nos Wener, 2 Tachwedd, bydd arddangosfa tân gwyllt yn Nhafarn y Snowdonia Parc. Noson allan i'r teulu cyfan.

Arddangosfa
Tân Gwyllt
Nos Wener, 2 Tachwedd
Tafarn y Snowdonia Parc
Waunfawr
Croeso i deuluoedd

GENEDIGAETH.
Llongyfarchiadau i Rhian a Dilwyn, Gorwel y Môr, ar enedigaeth eu mab bychan, Noa Gwilym.
PRIODAS. Dymunwn briodas hapus i Martin Beech, Rose Mount, a Bethan o Fangor, ar eu priodas cyn ddiweddar. Yn yr Eidal y priododd y pâr ifanc, ac maent am ddod i fyw i Bryn Arfon yma yn y Waun.
PENODIAD. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Mrs Sara Llwyd Davies, Bryn Melyn, ar ei phenodiad yn brifathrawes Ysgol Treferthyr, Cricieth.
CYMRYD RHAN. Da iawn chi, aelodau'r Ysgol Sul am wneud eich gwaith mor dda yng Nghyfarfod Diolchgarwch Capel y Waun.
DIOLCH. Dymuna Marc Owen, Cil y Mynydd, ddiolch i'w deulu a'i ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion, y dymuniadau da a'r hwyl a gafodd ar ddathlu ei ben-blwydd yn ddeunaw oed.
ADREF O'R YSBYTY. Dymunwn wellhad buan i Mrs Gwendoline Rowlands, Stad Bryn Golau; Mrs Nancy Hughes, Wernas, Stad Croes y Waun; Mr Wyn Griffith, Ger y Nant; Paul Evans, Rhoslwyn a Mr Duncan Brown, Gwelfor. Mae'n braf clywed eich bod yn gwella ar ôl gorfod treulio cyfnod yn yr ysbyty.
Mae Mrs Sue Davies, Dol Gwyrfai, hefyd yn gwella wedi iddi dderbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty.
Da deall hefyd bod Alun, Fron Hyfryd yn gwella wedi iddo gael ei gymryd i'r ysbyty yn dilyn ei daro gan gar ar y ffordd wrth ymyl y Siop Sglodion. Hefyd mae Cai Pritchard, Min y Grug a Doctor Esyllt Llwyd yn gwella wedi i'r ddau ohonynt dorri braich.
DIOLCH. Dymuna Elfyn, Menna a'r teulu, ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd yn eu profedigaeth o golli brawd ac ewythr mor frwychus o sydyn.
CYDYMDEIMLO.
Daeth profedigaeth i ran nifer o deuluoedd yn y Waun eto y mis yma:
Cydymdeimlwn â Mr Tony Brown a theulu 2 Bryn Golau, yn eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl – y diweddar Mr Will Brown o Gaernarfon.
Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd, wedi dioddef cystudd hir, bu farw Mrs Mair Williams, Cefn Coed. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf at Valmai a theulu Rhoslwyn yn eu hiraeth am fam a nain annwyl.
Teithiodd Mrs Maureen Griffith, Bryn Eilian, Teras Glyn Afon, i Seland Newydd i ymweld â'i chwaer ond clywodd y newyddion trist am ei marwolaeth pan gyrhaeddodd y maes awyr. Cydymdeimlwn yn ddwys â hi yn ei cholled.
Roedd hi'n drist clywed am farwolaeth Mabel Pritchard (gynt) a hithau wedi ei magu yma gyda ni. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i mam, Mrs Pritchard, Stad Bro Waun, ei brodyr, Dafydd a Thomas, ac â Lynn, ei chwaer, a'r teulu i gyd.
Fore Mawrth, 23 Hydref, yn frawychus o sydyn yn ei gartref yn Stad Tref Eilian, bu farw Mr John Dawson, priod annwyl Grace a thad Susan, Janet ac Ann. Cydymdeimlwn yn ddwys â chi yn eich tristwch o golli priod, tad, taid a hen daid annwyl.
Yn frawychus o sydyn yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Geraint Griffith, Stad Bro Waun. Priod annwyl Barbara a thad a thaid caredig i Allan, Valerie, Wendy a Mandy a'u teuluoedd a brawd Cennin. Cydymdeimlwn â chi yn eich colled drist.
Dymuna Barbara a'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad maent wedi ei dderbyn gan deulu a ffrindiau yn eu profedigaeth drist o golli Geraint.
Daeth ton o dawelwch a llonyddwch dros weithle'r Antur, a'r gweithwyr i gyd yn teimlo'r golled ac yn dangos eu parch i'r sylfaenydd, R. Gwynn Davies, a fu farw yn sydyn ddydd Gwener, 12 Hydref.
Roedd y llu pobl a ddaeth i Bryn Eithin a'r Amlosgfa ym Mangor yn deyrnged fawr iddo.
Gwion, Sioned a'i theulu bach, a Dewi Davies a'r teulu, estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf atoch chwi yn eich profedigaeth o golli tad, taid, hen daid a brawd annwyl iawn.
PLAID CYMRU. Yn eu pwyllgor a gyfarfu'n ddiweddar cytunodd Cangen Plaid Cymru Waunfawr ar raglen gyffrous ar gyfer eu tymor nesa.
Nos Sadwrn, Tachwedd 17 yn Antur Waunfawr am 7.30, cynhelir Noson Gyri (enwau os gwelwch yn dda cyn 10 Tach i Rob: (650370), neu Eurig: (650512)
Ddechrau'r flwyddyn bydd Dafydd Iwan yn difyrru'r gangen yn Nhafarn Waunfawr (noson agored).
Cynhelir Noson Eidalaidd yn Chwefror neu Fawrth. Taith Gerdded ar Fehefin 20fed a Barbeciw, yn yr Antur eto, ar Orffennaf y 12fed.
Os am ymaelodi cysyllter â Beryl Jones, Dolcoed, Bodhyfryd (650345).

Hywel Williams
Aelod Seneddol

Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

Etholaeth Caernarfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076** i wneud apwyntiad
neu
ysgrifennwch atynt:
Swyddfa Etholaeth
8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE
neu
e-bost: **williamsgw@parliment.uk**

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

Sychlanhau • Altro
Ailwnïo
Gwasanaeth
Casglu a Danfon
54 Stryd Fawr
Llanberis
Ffôn: 870088
SWIGOD A SEBON
GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

R.M. (DIC) PARRY
PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL
TAWELFA, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870846


GWYNANT PIERCE
Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol
Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTÏON • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
RHOSTIO MOCHYN
AR GYFER
POB ACHLYSUR
* Cig o ffermydd lleol
* Partïon rhwng 40 a 400!
* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
* Efo salad hefyd os dymunwch
DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG
Y DYN CIG ar 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718788
wefan: www.ydyncig.co.uk

Briwsion Byd Natur

Dafydd Guto

TAIR COEDEN

Cyfrwy cennog.

Ie! tair coeden *sycamorwydden* yn tyfu ers blynyddoedd ar dir fferm Neuadd Glasgoed, ac ar y dydd cyntaf o fis Rhagfyr 2006 euthum ati i dynnu llun hefo'r camera *gaws llyffant* (*bwyd y boda*), anferthol o ran maint, a oedd ar y pryd yn tyfu ar foncyff *sycamorwydden*. Roedd y ffwngi dan sylw dros 50 cm o led, a'r enw Cymraeg arno yw *Cyfrwy Cennog*. Yr enw Lladin arno ydyw *Polyporus Squamosus*, (*polyporu* = aml-dyllog, *squamosu* = cennog).

Dyma beth a ddywedir amdano gan D. Hayes yn ei lyfr *Planhigion Cymru a'r Byd*, Gwasg Maes Onn, 1995: *Ffwng hufennog... cyffredin, tebyg i blât; gwelir trwy'r gwanwyn a'r haf,* (a hynny ran fynychaf rhwng misoedd Mai hyd Awst). *Tyf gan achosi pydredd gwyn ar fôn coed llydan-ddail, yn enwedig ar y ffawydden a'r dderwen.* Dalier sylw mai ym mis Rhagfyr y gwelwyd y ffwngi. Roedd hi'n dywydd digon addfwyn yn nechrau'r mis ond o'r 2il i'r 6ed cafwyd gwyntoedd cryfion, a glaw trwm. Ac, er bod y tymheredd allanol yn 12 C, datgymalu wnaeth y *Cyfrwy Cennog* yng Nglasgoed, a'i fywyd wedi darfod amdano.

Un gair bach cyn mynd at yr ail sycamorwydden. Yr enw Saesneg ar y *Cyfrwy Cennog*, a dyf ar goed byw neu farw, ydyw *Dryad's Saddle*. Yng ngwlad Groeg arferai bodau ar ffurfiau ysbrydion, sef y *dryad*, fyw yn agos, a hyd yn oed yn y coedwigoedd. Y nhw, welwch chi, oedd gwarchodwyr y coed, ac os y byddid ar fwriad yn torri coeden a'i lladd, yna fe fyddai'r *dryad* hefyd yn marw, a'r sawl a berodd y drychineb yn cael ei gosbi am weithredu yn y fath fodd! Ie, mytholeg gwlad Groeg! Pwy fuasai'n meddwl y fath beth onide cyn y frwydr gyfoesol ynghylch gwarchod yr amgylchedd rhag dinistr.

A dyma symud ar fy union at yr ail *sycamorwydden* sydd, fel amryw byd o'r coed sy'n tyfu yn y filltir sgwâr wedi ei thagu hefo trwch o *eiddew*. Ai da neu ddrwg hynny clywaf chwi'n holi? *Eiddew*? Onid ydyw'r planhigyn gwantan hwn yn dibynnu ar blanhigyn cryfach, gan gymryd mantais llwyr ohono? Wrth i'r *eiddew* droelli, a chlymu wrth foncyff a brigau'r goeden, ymhen blynyddoedd y mae'n ei gwanháu. Ond mae 'na rinwedd mewn *eiddew* hefyd! Da cofio Ewythr Tomos pan oedd defaid yn wynna, pan fyddai oen yn fwy gwantan na'r rhelyw, yn rhoi sbrigyn o *eiddew* iddo fel y gallai gnoi ei gil arno! Ac onid ydyw *eiddew* yn cynhyrchu aeron, ac yn fwyd i'r adar? Ar ben hynny, pan nythodd pâr o *fwncathod* yn y coed ger y fferm rhyw dair mlynedd yn ôl, fe addurnodd yr adar ysglyfaethus y nyth – ie, hefo dail *eiddew*! Cuddliw bendigedig yntê!

A'r drydedd *sycamorwdden*? Mae hon yn llawn tyllau, a rhyw dro yn ystod y flwyddyn nesaf caf gyfle i sôn wrthych am *gnocell y coed* sy'n byw yn y cyffiniau, ac yn dyrnu ar y *sycamorwdden* hefo'i forthwyl o big er mwyn cael ei wala o'r pryfed sy'n llechu oddi tan y rhisgl.

Tan hynny, rhad a bendith arnoch, diolch am ddarllen y golofn. Daliwch ati i wylio gogoniannau byd Natur, a gwerthfawrogi'r hyn a welwch pob tamaid!

Atebion a Chanlyniadau Cystadleuaeth Aderyn o Fri

Yr atebion oedd:

(a) *De America* fel cyfandir;

(b) *Pengwin Humboldt*. Fe'i ffotograffwyd eleni mewn Canolfan Bywyd y Môr yn nhref Scarborough, swydd Efrog, Lloegr. Y mae'r pengwin uchod damaid yn wahanol i *Bengwin Magellanig*, sydd i'w gael ar arfordir Patagonia, De America, oherwydd fod ganddo fymryn o liw pinc oddi tan ei big. Cerrynt dŵr oer ydyw'r Humboldt. Derbyniwyd nifer o gynigion, ond yr agosaf ati o ddigon ydoedd ymdrech drefnus Rachel Ann Williams, sy'n ddeg mlwydd oed a'r cystadleuyydd ieuengaf hyd yma yn holl hanes Cystadlaethau Byd natur Eco'r Wyddfa. Llongyfarchiadau calonog iddi!

Ym mhentref enwog Beddgelert y mae Rachel ynbyw, ac ebe hi:

Mae nain yn cael Eco'r Wyddfa pob mis c mae gen i bedwar deg o deganau pengwin, sef ie hoff aderyn. Go dda hi! Da gweld ymddiddori a chsglu fel hyn! Pob bendith gyda'r gwaith casglu, Rachel, a gobeithio y byddi di'n mwynhau'r wobr, sef Tocyn Llyfr Cymraeg gwerth £10,m ahefyd model o bengwin ynghyd â siocled pengwin i'w fwyta (gan gofio oce! rannu'r dernyn sioceld hefo nain!)

D.S. Cadwch olwg da chwi yn Eco'r Wyddfa am gystadleuaeth Byd Natur arall yn y flwyddyn newydd.

DATHLU MEWN STEIL

I ddathlu eu dengmlwyddaint yr hydref hwn mae Côr y Waun wedi sicrhau gwasanaeth artistiaid cenedlaethol. Bydd Dafydd Iwan yn canu gyda hwy yr ar Nos Sul, 11 Tachwedd am 7.30 yng Nghapel Coch Llanberis.

Yn eu cyngerdd dathlu lleol yn y pentref ar nos Wener, 16 Tachwedd am 7.30, y gantores enwog Siân Eirian fydd y prif berfformwraig.

Ymunir â hi gan Gôr Ysgol Waunfawr, Myra Turner, yr adroddwraig genedlaethol, yn ogystal â Chôr y Waun.

Tocynnau ar gyfer cyngerdd y pentref ar gael gan Irene Roberts (ysgifenyddes y Côr, 650545), John Gwynedd (650587), Eurig Wyn (650512).

Llwyddiant yn y Llyfrgell

Cafwyd Haf prysur iawn yn Llyfrgell Caernarfon eleni. Bu i dros 550 o blant gymryd rhan mewn sialens darllen o'r enw 'Y Fenter Ddarllen Wyllt'. Bydd dros 300 o fedalau yn cael eu gyrru allan i ddisgyblion yr ysgolion cynradd lleol ar gyfer y plant a lwyddodd i gwblhau y Sialens Darllen a darllen o leiaf chwe llyfr dros y gwyliau. Yn ogystal bu i nifer o blant roi cynnig ar ein cystadleuaeth haf, sef gwneud llun neu *gollage* gan ddefnyddio deunydd wedi ei ailgylchu. Cafwyd ymateb gwych a dyma luniau rhai o'r enillwyr.

Enillwyd y brif wobr, sef tocyn blwyddyn i Gelli Gyffwrdd, gan Zoe a Leon o Fangor. Enillodd Elan, Bedwyr ac Elis o Landdeiniolen gist llawn deunyddiau crefft, ac

Beca.

enillodd Beca o Lanrug docyn i ddau, gan gynnwys pryd o fwyd yn y Den, Llanberis.

Llongyfarchiadau mawr i'n holl enillwyr a diolch arbennig i'r atyniadau lleol a fu mor hael â darparu'r gwobrau.

Elan, Bedwyr ac Elis.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs:
(01286) 650291

Ar Agor
9-7 pm
9-5 pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

Dewis eang o Welyau a *3P/Suites.*
Llenni *Venetian* a Llenni *Roler.*
5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc – allwch chi fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Am Offer Tŷ a Gardd...

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: **(01286) 872501**

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

CYNGERDD MAWREDDOG yn Festri Capel Coch, Llanberis am 7.30 o'r gloch nos Sul, 11 Tachwedd. Yr artistiaid fydd: Dafydd Iwan, Côr y Waun, Susan Williams, Stephanie Welsby ac Edward Morus Jones.

Tocynnau £3 wrth y drws. Elw'r noson tuag at gynllun Efengyl i Fro'r Eco – 'EFE'.

CLWB BRO BETHEL.

Cynhaliwyd cyfarfod mis Hydref o'r Clwb, gyda Goronwy Jones yn llywyddu. Dymunwyd yn dda i aelodau'r Clwb oedd heb fod yn dda gan anfon cofion atynt. Diolchwyd i'r rhai a fu o amgylch y pentref yn ddiweddar yn casglu er budd Age Concern Gwynedd a Môn, a da oedd cael deall y bydd y Clwb yn derbyn £151.70, sef hanner y cyfanswm a gasglwyd. Yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis y bydd y cinio Nadolig eleni a gofynnir i bawb sydd yn dymuno dod roi gwybod i Gwyneth Williams neu Eunice Roberts erbyn y cyfarfod nesaf. Rhannwyd gwybodaeth am y cynllun *'Free electric blanket testing'*.

Y gŵr gwadd oedd Aled Taylor o'r Waunfawr, cyn Swyddog y Parc Cenedlaethol. Roedd wedi dod â nifer o sleidiau ac wrth eu dangos soniodd am y golygfeydd o gwmpas yr ardal ac hefyd am y peryglon wrth gerdded y mynyddoedd ar dywydd drwg.

Bydd y cyfarfod nesaf yng nghwmni Gwenllian Carr, Rheolwr Cenedlaethol Cymru, Digital UK, ar 6 Tachwedd yn Festri Bethel. Gan fod testun y cyfarfod nesaf yn effeithio PAWB erbyn 2009, gwahoddir unrhyw un nad ydynt yn aelodau i droi i mewn er mwyn derbyn gwybodaeth pwysig am y newidiadau mawr sydd ar fin digwydd ym myd y gwasanaeth teledu dros y wlad.

EISTEDDFOD. Bellach mae ymarferiadau partïon ar gyfer yr Eisteddfod wedi cychwyn ac mae'r plant yn brysur iawn yn mynd fan hyn a fan draw yn ymarfer tuag at yr amrywiol gystadlaethau.

Dyma'r dewis o dri phwnc ar gyfer y gystadleuaeth 'Siarad Cyhoeddus':

1. Mae Caerdydd yn llawer rhy bell i fod yn brifddinas i weddill Cymru.
2. Cyfrifoldeb y llywodraeth ydi rhoi arian i Blant Mewn Angen. Ni ddylai ddibynnu arnom ni'r cyhoedd i godi'r arian.
3. Petai merched yn rheoli, byddai'r byd yma yn lle llawer mwy heddychlon.

Os oes unrhyw un yn dymuno cyflwyno rhodd ariannol er budd yr Eisteddfod, buasai'r Trysorydd, Gwyneth Jones (670312), yn falch iawn o'i dderbyn.

Fe fydd y dawnsio nos Fawrth, 13 Tachwedd am 6.00 o'r gloch, ac yna cystadlaethau'r llwyfan prynhawn a nos Sadwrn, 17 Tachwedd am 1.00 a 6.00 o'r gloch. Dewch draw i gefnogi ieuenctid a phlant y pentref.

CYMDEITHAS LENYDDOL.

Daeth nifer dda o aelodau i'r cyfarfod cyntaf o weithgareddau'r Gymdeithas am eleni. Yn absenoldeb y Llywydd, Ieuan Williams, croesawyd pawb ynghyd gan Jenkin Griffiths. Gwesteion y noson oedd Côr y Waun, dan arweiniad Gwenda Griffith, gyda Ann Pritchard yn cyfeilio.

Wrth eu cyflwyno cyfeiriwyd at farwolaeth un oedd yn agos iawn at bawb yn y Waunfawr, sef R. Gwynn Davies. Fo hefyd oedd wedi sefydlu'r Côr ddeng mlynedd ynghynt. Cafwyd eitemau amrywiol ganddynt, yn unawdau, caneuon ysgafn a chaneuon dwys.

Yn ôl ymateb y gynulleidfa ar y diwedd, roedd pawb wedi mwynhau yn fawr iawn. Diolchwyd i'r Côr gan Robin Jones, ac i gloi'r noson cafwyd lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi gan y merched.

Karen Owen fydd y siaradwr yn y cyfarfod nesaf yn Festri'r Cysegr ar nos Fawrth, 20 Tachwedd. Noddir y noson honno gan yr Academi.

DYMUNIADAU GORAU i Jean Williams, Penlon, ar gyffaedd pen-blwydd arbennig.

PRIODAS DDIAMWNT.

Llongyfarchiadau i Trefor a Nancy Williams, Rhos Lyn, ar ddathlu 60 mlynedd o fywyd priodasol ar 8 Tachwedd. Pob bendith a dymuniadau gorau.

DIOLCH. Dymuna Goronwy Jones, Tan y Cae, ddiolch o galon i deulu, cymdogion a chyfeillion am bob cefnogaeth a dymuniadau da yn ystod ac yn dilyn ei driniaeth yn ddiweddar yn Ysbyty Gwynedd.

LANSIO HUNANGOFIANT. Bydd cyfrol hunangofiant yr Archdderwydd Selwyn Iolen yn cael ei lansio yn Neuadd Goffa Bethel, nos Fawrth, 27 Tachwedd, am 7.00 o'r gloch.

Teitl y gyfrol ydi *O Barc-y-Wern i Barc-y-Faenol*. Darperir lluniaeth ysgafn ac mae croeso cynnes i bawb.

CAPEL BETHEL

Cynhaliwyd gwasanaeth Diolchgarwch dan ofal plant yr Ysgol Sul ar fore Sul, 21 Hydref, ac roedd nifer dda o rieni a chyfeillion yn bresennol. Thema'r gwasanaeth oedd 'Diolch'.

Gwnaeth y plant eu gwaith yn ganmoladwy a diolchodd y gweinidog, Y Parch Gwynfor Williams, iddynt

Roedd y casgliad eleni yn mynd at Ambiwlans Awyr Cymru a'r cyfanswm oedd £100.

MERCHED Y WAWR.

Croesawodd Margaret Druce, y Llywydd, pawb i'r cyfarfod a rhoddodd groeso arbennig i'r siaradwraig wadd, Menna Medi o'r Groeslon. Cafwyd noson ddifyr a hwyliog yn gwrando ar rai o'r penillion a'r rhiygmau y mae hi wedi eu cyfansoddi ar gyfer creu nifer fawr o gardiau cyfarch Cymraeg arbennig iawn. Diolchwyd iddi gan Siân Davies.

Da oedd gweld Gwyneth Jones yn ei hôl ar ôl triniaeth i'w phenglin a deall hefyd fod ei gŵr a gŵr Gwyneth Williams yn gwella ar ôl sbel yn yr ysbyty. Cydymdeimlwn yn fawr â Sheila Roberts sydd wedi cael profedigaeth fawr o golli ei mam.

Llongyfarchwyd Siân Davies ar enedigaeth ŵyr, Gethin, mab bach Rhian a Dewi Prysor. Dymunwyd pen-blwydd hapus i Pat Thomas, Caernarfon, oedd yn dathlu pen-blwydd arbennig ddydd Iau diwethaf. Daeth Siân Davies â'r Llyfr Lloffion i'w arddangos a chyflwynwyd rhodd fach iddi am ei gwaith canmoladwy iawn.

Crybwyllodd y Llywydd rai o'r eitemau a fydd yn cymryd lle yn Eisteddfod Bethel yn y dyfodol agos a bu'n annog aelodau'r gangen i gystadlu.

Bydd cwrs yn cael ei gynnal yn y Neuadd Goffa ddydd Sadwrn, 13 Hydref, ar sut i greu addurniadau Nadolig o dan gyfarwyddyd Mim Roberts. Bydd y gangen hefyd yn paratoi lluniaeth ar gyfer lansio llyfr y Prifardd Selwyn Iolen ar 27 Tachwedd yn y Neuadd Goffa. Fe gynhelir cinio Nadolig y gangen ar 12 Rhagfyr a gwneir apêl ar i'r aelodau ddod ag arian i dalu am y cinio i gyfarfod mis Tachwedd o'r gangen.

Bydd noson o ddistawrwydd rhanbarthol i godi arian i Dŷ Gobaith ym mis Ionawr a chystadleuaeth Bowlio Deg 2008 ym mis Chwefror. Felly, digon i edrych ymlaen ato. Diolch i Glenys Griffith am baratoi'r baned a sicrhau raffl.

Y siaradwraig y mis nesaf, sef 14 Tachwedd, fydd Nerys Jones o'r Felinheli fydd yn dangos y grefft o wneud gemwaith. Mae croeso i aelodau newydd.

CYFLAWNI'R *'HAT TRICK'*

Fel yr adroddwyd yn rhifyn mis diwethaf o'r *Eco*, Dewi Foulkes o Fethel a gafodd ei ethol yn Brif Fachgen Ysgol Brynrefail am y flwyddyn 2007–2008. Ond, os y bydd Dewi angen unrhyw gyngor ar sut i ymdopi â'i ddyletswyddau, ni fydd raid iddo edrych yn bell iawn. Dair blynedd yn ôl roedd ei frawd, Huw, yn brif fachgen ym Mrynrefail. Mae Huw bellach wedi ymgartrefu yn y brifddinas ac yn astudio ar gyfer ei radd yn y Gymraeg. Ond, nid yn unig fod y ddau frawd wedi cyflawni'r gamp, union ddeng mlynedd ar hugain cyn i Huw dderbyn yr anrhydedd, bu'r tad, Alun, yn brif fachgen yn yr un ysgol, a hynny 'nôl yn y flwyddyn 1974! Mae'n dipyn o jôc bellach yn Nhyddyn Gwndwn fod y teulu'n arbenigwyr am gasglu bathodynau Prif Ddisgybl a bod un o'r tri bellach yn *antique* ac yn casglu llwch... (y bathodyn hynny ydi, nid Alun!).

Dymunwn yn dda i Dewi ar ei flwyddyn olaf a'r dyletswyddau sydd o'i flaen, a phwy a ŵyr, efallai y gwelwn ni blant cenhedlaeth nesaf y Foulkesiaid yn ychwnaegu bathodyn neu dri i'r casgliad!

PANEL CYMDOGAETH BETHEL.

Yn yr adroddiad ar gyfarfod Panel Cymdogaeth Bethel, a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa Bethel ar 11 Ebrill ac a ymddangosodd yn rhifyn Medi o'r *Eco*, roedd cyfeiriad beirniadol at y ffaith fod y cyfarfod, yn annisgwyl, wedi gorfod cael ei gynnal yn Saesneg am nad oedd cynrychiolydd Heddlu Gogledd Cymru, sef y Rheolwr Rhawd, yn gallu siarad Cymraeg.

Mae'r sefyllfa honno bellach wedi newid ers penodiad Gethin Jones, brodor o Fethel yn Rheolwr Rhawd newydd. Ers 18 Medi, Gethin ydi Rheolwr Rhawd ardal Bethel, Rhiwlas a'r Felinheli.

Ymunodd Gethin â Heddlu Gogledd Cymru bum mlynedd a hanner yn ôl. Bu am wyth mis ym Mhwllheli ac wedyn am dair blynedd ym Mhorthmadog cyn symud i'w swydd bresennol yng Nghaernarfon. Yn ystod ei gyfnod yn yr heddlu mae hefyd wedi bod yn hyfforddi darpar swyddogion y pencadlys ym Mae Colwyn.

Bydd Gethin yn yr ardal yn gyson onibai fod galwadau ar iddo fynd i Fangor neu Gaernarfon os bydd anghenion penodol yn yr ardaloedd hynny, ac rydym eisoes wedi ei weld o gwmpas pentref Bethel yn gyson.

Amcan Gethin ydi cydweithio hefo'r gymuned i weud yr ardal yn lle mwy diogel ac, er ei fod wedi gorfod ymateb i rai digwyddiadau anffodus, ar y cyfan ei brofiad ydi fod yr ardal yn well nag yr oedd wedi disgwyl.

Gellir cysylltu â Gethin unrhyw adeg ar 07854 954858 neu, os nad yw ar ddyletswydd, gellir cysylltu â'r heddlu ar 0845 6071001.

DEINIOLEN

Mrs Nia Gruffudd Ffôn: (872133)

CYMDEITHAS CYFEILLION EGLWYS CRIST. Y gŵr gwadd yng nghyfarfod mis Hydref oedd Berwyn Jones, aelod o Dîm Achub Llanberis. Gyda lluniau dangosodd waeth pa mor hardd yw'r mynyddoedd a'r newidiadau yn ystod y tymhorau yn gallu bod, maent hefyd yn llawn peryglon. Pan ddigwydd unrhyw anffawd bydd y Tîm Achub yn barod i fentro allan, a dangosodd Berwyn inni beth o'r gwith yma. Gwŷr a gwragedd dewr iawn yw aelodau'r Tîm Achub ac mae'r holl ymwelwyr a ddaw i ddringo a cherdded ein mynyddoedd yn andros o ffodus bod tîm gwirfoddol mor broffesiynol ar gael.

Diolchwyd i Berwyn gan Mrs Jennie Williams.

CYNGERDD MAWREDDOG yn Festri Capel Coch, Llanberis am 7.30 o'r gloch nos Sul, 11 Tachwedd. Yr artistiaid fydd: Dafydd Iwan, Côr y Waun, Susan Williams, Stephanie Welsby ac Edward Morus Jones.

Tocynnau £3 wrth y drws. Elw'r noson tuag at gynllun Efengyl i Fro'r Eco – 'EFE'.

YSGOL FEITHRIN. Cychwynnodd 9 o blant newydd yn sesiwn bore yr Ysgol Feithrin ym mis Medi a gobeithio eu bod i gyd wedi ymgartrefu erbyn hyn. Bydd 2 arall yn ymuno â nhw ar ôl hanner tymor. Mae 11 o blant yn mynychu sesiynau y prynhawn.

Cynhelir Noson Tân Gwyllt yn iard yr Ysgol Feithrin nos Wener, 2 Tachwedd. Drysau'n agor am 6.00 o'r gloch a'r gweithgareddau i gychwyn am 6.30. Mynediad £1.50 i oedolion a £1.00 i blant, gyda mynediad am ddim i blant yr Ysgol Feithrin. Bydd yno amryw o stondinau: cŵn poeth, cacennau, diodydd a melysion. Gwneir raffl ar y noson. Bydd cyfle i'r plant bach ddod mewn gwisg ffansi ar thema noson Calan Gaeaf. Yna i gloi, mi fydd yn Disgo.

YSGOL GWAUN GYNFI

Staff Newydd. Mae'n dda gennym groesawu dwy aelod newydd ar staff yr ysgol, sef Ms Rhian Richardson yn athrawes i'r plant Meithrin, a Ms Donna Taylor fel cymhorthydd i'r dosbarth Meithrin a Derbyn.

Yr Arolwg. Llongyfarchiadau i'r plant, rhieni, athrawon, staff ategol a'r llywodraethwyr ar dderbyn adroddiad da iawn gan Arolygwyr ei Mawrhydi yn ystod mis Hydref. Nodwyd fod popeth yn dda gydag amryw o nodweddion rhagorol.

Plant y Dosbarth Meithrin. Mae 17 o blant wedi dechrau yn y dosbarth Meithrin ym mis Medi ac maent i gyd wedi setlo'n iawn erbyn hyn. Croeso cynnes iddynt i gyd.

Myfyrwyr. Croesawn fyfyrwraig o'r Brifysgol yma ar ymarfer dysgu am y tymor ynghyd â thair myfyrwraig yn gwneud cyrsiau plentyndod cynnar o wahanol golegau eraill.

Cynllun Llythrennedd Teulu. Rydym wedi derbyn nawdd ar gyfer y Cynllun yma eto y tymor hwn.

Diolchgarwch. Cynhaliwyd y Gwasanaeth Diolchgarwch blynyddol yn yr ysgol ar fore Gwener, 26 Hydref, gyda phob aelod o'r ysgol yn cymryd rhan.

Eisteddfod Gwaun Gynfi. Mae'r plant wedi bod wrthi'n brysur yn ysgrifennu, arlunio, gwnio ac ymarfer canu ac adrodd ar gyfer Eisteddfod Gwaun Gynfi.

Profiad Gwaith. Bu pedwar cyn-ddisgybl yma gyda ni am wythnos yr arolwg fel rhan o'u profiad gwaith o Ysgol Brynrefail. Hyderwn fod Liam, Stephanie, Laura a Ceinwen wedi mwynhau eu cyfnod yn ôl yn yr 'ysgol fach'.

Hanner Tymor. Bydd yr ysgol yn cau ar ddydd Gwener, 26 Hydref ac yn ailagor ar 5 Tachwedd.

LLONGYFARCHIADAU. Mae Hefin a Pam Hughes, Llys Myfyr, Ffordd Deiniol, yn falch o enedigaeth wyres, Amy Abigail, chwaer i Dylan, yn Bray, Iwerddon; merch i Paul a Karen. Mae Paul wedi gadael y pentref a setlo yn yr Iwerddon ers deuddeng mlynedd bellach.

CYDYMDEIMLO. Drwg iawn oedd gennym glywed am farwolaeth Mrs Margaret Jones, 29 Pentre Helen, yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn â Tecwyn, Hywyn a Joyce a gweddill y teulu yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Anfonwn ein cydymdeimlad hefyd at deulu Mr Aerwyn Williams, 15 Hafod Oleu, a fu farw'n ddiweddar ar ôl brwydr ddewr. Cofiwn at Elan, Elena, Bethan a gweddill y teulu yn eu hiraeth a'u tristwch.

DYMUNIADAU GORAU i bawb o'r ardal sydd wedi bod yn wael yn ddiweddar. Gobeithio y byddwch yn well yn fuan.

YSGOL SUL UNEDIG. Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch ar 21 Hydref yn Festri Capel Ebenezer gan blant yr Ysgol Sul. Cafwyd gwasanaeth ardderchog a diolch i athrawon yr Ysgol Sul am eu dysgu. Rhoddwyd y casgliad tuag at rodd i Ceri Olwen Hughes, 1 Porth y Gogledd, sydd yn wynebu triniaeth yn yr ysbyty yn fuan.

Hefyd, trefnwyd dau ddigwyddiad arall er mwyn dangos cefnogaeth trigolion Deiniolen i Ceri yn yr amser anodd hwn:

- Ddydd Gwener, 2 Tachwedd, bydd cyfeillion yn bresennol yn festri Ebenezer i dderbyn unrhyw rodd ariannol y dymuna pobl ei rhoi, rhwng 10.00 a 12.00 o'r gloch y bore, a rhwng 5.30 ac 8.00 yr hwyr.
- Yna, ar ddydd Sul, 18 Tachwedd, bydd plant ac athrawon yr Ysgol Sul Unedig yn cynnal taith gerdded noddedig er mwyn dangos eu cefnogaeth.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL. Cafwyd dechrau da i dymor y Gymdeithas pryd y cawsom ein diddanu gan Siân ac Emyr Gibson a merch Sian, Catrin Alaw. Cawsom noson arbennig o dda yn eu cwmni. Daeth cynulleidfa niferus yno a thystiodd pawb iddynt fwynhau eu hunain.

Llywydd y noson oedd y Parchg John Pritchard a thalwyd y diolchiadau gan y Cynghorydd Len Jones.

HUNANGOFIANT. Deallir y bydd cyfrol o hunangofiant Rol Williams, Brynrefail gynt, yn cael ei chyhoeddi yn gynnar ym mis Tachwedd, dan y teitl *Nid Roc... ond Rol, o'r Llys i'r Garreg Fawr.*

Yn y gyfrol ceir hanes ei fagwraeth ym Mrynrefail, cyn symud i'r Waunfawr; ei bedair blynedd yn yr Awyrlu a'i waith dyddiol yn y Weinyddiaeth Amaeth; blynyddoedd yn diddanu cynulleidfaoedd led-led Cymru fel aelod o Barti Eryri a raglenni radio a theledu. Ceir hefyd nifer dda o hen luniau, gan gynnwys llun o Barti Iolen, y parti o enethod o'r pentref hwn, dan hyfforddiant y diweddar Hughie Jones, a fu'n fuddugol yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar gerdd dant. Cyfeirir hefyd at y nosweithiau llawen yng nghwmni Jac Maldwyn Roberts, Napier Williams, John Morris a John Griffith, Caer Bythod, yn gyfeilydd.

Cyhoeddir y gyfrol gan Wasg y Bwthyn, Caernarfon.

CYNGERDD. Bydd Cyngerdd yn cael ei gynnal er budd Apêl Deiniolen at gynllun 'Efe' nos Wener, 16 Tachwedd yn Festri Capel Ebenezer.

Gwyn Parri fydd Arweinydd y noson a bydd yn cyflwyno'r artistiaid canlynol:

Emyr a Siân Gibson;
John, Anest a Lois Eifon;
Annette Bryn Parri;
Lindsay Vaughan Parry;
Elfed Morris;
Côr Meibion Dyffryn Peris;
Band Ieuenctid Seindorf Deiniolen
a phlant Ysgol Gwaun Gynfi.

Tocynnau ar gael gan Eirlys Hughes (01286 870898) neu unryw un o swyddogion yr Ysgol Sul.

Tîm Pêl-droed 11B Deiniolen

Y tîm gyda'u noddwyr, Arwyn Williams a Carys Morris, o Menter Fachwen.



LLONGYFARCHIADAU i Eirlys a Hywel Williams, 2 Penter Helen, Deiniolen ar ddathlu 60 mlynedd o briodas yn ystod mis Hydref.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

CERIS JONES
Teglan, Stâd Talybont
LLANRUG
677362
neu symudol
07979 620996

- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

BABIS NEWYDD.
Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol ar enedigaeth eu baban newydd:
• Darren a Bethan Price, Rynys, Minffordd, ar enedigaeth Siwan Elliw, chwaer fach i Ceris Lois.
• Christian a Catrin, 2 Tai Crawia, ar enedigaeth Ela Gwenllian, a llongyfarchion i Taid a Nain, Dylan a Jackie Hughes.
• Ian a Helen Parry, Pen Derwydd, Llangefni. Ganwyd Cai Tudur, brawd bach i Tomos Llŷr ac ŵyr newydd i Carys a Les Parry, Gwynant, Ffordd yr Orsaf.
• Iolo ac Aislinn Eilian, Iwerddon, ar enedigaeth Uiliin Cadi, chwaer fach i Niamh ac Aoibhinn ac wyres newydd i Islwyn ac Eryl, Bryn Moelyn.
PRIODAS. Pob dymuniad da a hapusrwydd i Kelly Ann Roberts a Kelvin Edmund Jones a briodwyd yn y Swyddfa Gofrestru yng Nghaernarfon ar 10 Awst. Y Gweision Priodas oedd Neil Jones a David a'r Morynion oedd Nia, Karen a Claire.

Dymuna'r ddau deulu yn dda iawn iddynt a byddant yn ymgartrefu yn Glanmoelyn. Gyda diolch mawr am yr anrhegion a'r cardiau.
CYNGERDD MAWRÉDDOG yn Festri Capel Coch, Llanberis am 7.30 o'r gloch nos Sul, 11 Tachwedd. Yr artistiaid fydd: Dafydd Iwan, Côr y Waun, Susan Williams, Stephanie Welsby ac Edward Morus Jones.

Tocynnau £3 wrth y drws. Elw'r noson tuag at gynllun Efengyl i Fro'r Eco – 'EFE'.
SEFYDLIAD COFFA. Enillwyr y Clwb Cant oedd: £20: Mrs E. Rowlands, Llys Forgan; £7: I. Williams, 35 Nant y Glyn; £5: K. Evans, 24 Nant y Glyn.
DIOLCHIADAU. Dymuna Ellen Jones, 4 Hafan Elan, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau, anrhegion ac arian a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 80 oed ym mis Hydref.

Diolch hefyd i Gertie a Dilys am drefnu popeth. Diolch yn fawr iawn i bawb.
DYMUNA Ian a Helen Parry ddiolch am y cardiau a'r anrhegion a gawsant ar enedigaeth eu mab bach, Cai Tudur, brawd bach Tomos Llŷr ac ail ŵyr Carys a Les Parry, Gwynant, Ffordd yr Orsaf.
DIOLCH. Fe ddymuna Gordon a Dorothy Carter, 1 Didfa, ddiolch o galon i bawb am yr holl gefnogaeth a'r dymuniadau da a dderbyniwyd pan fu Gordon yn wael iawn yn yr ysbyty.

Diolch arbennig i drigolion Hafan Elan, aelodau Côr Dyffryn Peris a Chôr Dinas Bangor.

Brysiwch wella, Gordon, mae colled fawr ar eich ôl chi a'ch cymwynasau di-ri, yn enwedig yn Hafan Elan.
DYMUNA Catherine, John, Ken a Carol, Yvone, Aaron a Siôn ddiolch yn fawr iawn am bob arwydd o gydymdeimlad, yr ymweliadau, cardiau a'r rhoddion a dderbyniwyd yn ystod eu profedigaeth fawr o golli gŵr, tad a thaid annwyl, Wyn Griffiths, Tan y Fron.
CROESO ADREF. Wedi cyfnod o chwe wythnos yn astudio yng Ngholeg Meddygol Merched Tokyo, dychwelodd Elin Dafydd, Bryn Moelyn, adref wedi profiadau lu ac yn llawn straeon. Yn ogystal ac astudio yn adrannau hemetoleg ac anadlol yr ysbyty, treuliodd gyfnod yn profi diwylliant unigryw y Siapaneaid. Gwerthfawrogodd y croeso arbennig a gafodd ganddynt a fe'i syfrdanwyd ar adegau gan garedigrwydd y bobl loel.

Ar benwythnosau ymwelodd ac ambell feddrod, cystadleuaeth ymgodymu Sumo, mynydd Fuji, canolfannau carioci, marchnad bysgod a bwytaodd sushi ddydd a nos. Doedd ryfedd iddi awchu am fechdan sosej Wavel pan gyrhaeddodd adref ganol y mis.

Dymuniadau da hefyd i Ifan, ei brawd, sy' newydd ddechrau astudio cerdd yn Goldsmiths, Coleg Prifysgol Llundain. Mae'n bosib i chi ei weld yn ddiweddar ar y rhaglen deledu *Bandit* fel yr Hogyn Da ac aelod o'r grŵp Derwyddon Dr Gonzo.
MERCHED Y WAWR. Nos Fawrth, 9 Hydref, estynnwyd croeso cynnes i bawb gan y Llywydd, Megan Roberts ac agorwyd y noson gyda Chân Merched y Wawr. Derbyniodd pob aelod ddau gopi o lythyrau gan y Cwmni Gwyliau, Thomas Cook, yn dilyn anfodlonrwydd y gangen o'r defnydd o'r Gymraeg yn eu swyddfeydd.

Braf oedd clywed fod Mrs Nansi Lovatt yn dal i anfon ei chofion atom ac rydym ninnau, fel aelodau, yn anfon ein cofion anwylaf ati hithau yn Aberystwyth.

Llwyddodd Gwenno a Margaret Parry i abseilio o Dŵr y Marcwis er budd Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru, gan godi dros £1,000 at yr elusen.

Cytunodd pawb o'r gangen gyfrannu'n ariannol tuag at Eisteddfod Llanrug a Chwm-y-glo ac Eisteddfod Bentref Penisarwaun.

Atgoffir pawb y cynhelir Diwrnod Crefft yn Nhregarth ar 3 Tachwedd a bydd y Cwis Hwyl yn cael ei gynnal yn y Stables am 7.30 ar 23 Tachwedd. Bydd Cinio Nadolig y gangen yng Ngwesty Seiont Manor Llanrug, nos Fawrth, 11 Rhagfyr. Pris: £16.95. Buasai Ann Thomas, yr Is-ysgrifennydd yn hynod falch petai pawb yn gallu talu yn y cyfarfod nesaf, os gwelwch yn dda.

Gwestwraig y noson oedd Rhian o Langefni, gydag arddangofa chwaethus o emwaith cyfoes 'Tlws'. Y mae dwy siop yn agored ganddi erbyn hyn, un yn Abergele a'r llall ym Mhorthmadog. Agorwyd y siop gyntaf yn 2006 ac mae deg aelod yn y fenter erbyn hyn. Maent yn cynnal Partïon Cartref at elusennau hefyd ac eisoes wedi codi £6,500 tuag at achosion da. Mae'r cynnyrch wedi'i fewnforio o Mecsico, Awstralia, Indonesia, India a Thailand. Maent hefyd yn annog dylunwyr o Gymru. Roedd yr arddangosfa o glustdlysau, cadwyni a breichledau arian yn hynod ddeniadol ac fe fu prynu mawr gan yr aelodau. Diolchodd y Llywydd i Rhian am noson ddifyr ac am wledd i'r llygad a'r boced!

Llongyfarchiadau i Eryl ac Islwyn ar ddod yn nain a thaid unwaith eto, wyres fach arall yn yr Iwerddon. Enillydd y raffl oedd Eirianwen Thomas. Llawer o ddiolch i Eileen, Olwen, Linda ac Eirianwen am y baned dda.

Ar Dachwedd 13, cawn gwmni Enid Mummery yn sôn am Hen Grefftau Môn.
YSGOL GYNRADD LLANRUG
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Miss Elena Williams a gollodd ei thad, Mr Aurwyn Williams, Deiniolen, yn ystod mis Hydref.
Aeth Blwyddyn 1 a 2 ar drip i Melin Llynnon, Ynys Môn, i weld yr unig felin wynt sy'n dal i weithio yng Nghymru! Bu hefyd cyfle i weld tai'r Celtiaid. Cafwyd amser da gan bawb.
Os oes gennych dalebau Tesco, rydym yn dal i'w casglu – cofiwch amdanom!!
Fel rhan o'u gwaith ar Fwyta'n Iach, bu cyfle i blant blwyddyn 1 a 2 i gyd ddod i'r ysgol i gael blasu'r brecwast sydd ar gael yn y Clwb Brecwast.
Fel rhan o'r cynllun Miliwn o Eiriau, daeth Mr Martin Dawes at Flwyddyn 6 i wneud gwaith 'rapio' – roedd y disgyblion wrth eu bodd!
Aeth disgyblion Blwyddyn 5 i Antur Waunfawr i gael cyflwyniad i gynllun ail-gylchu.
Rydym yn croesawu dwy fyfyrwraig o Goleg Prifysgol Cymru, Bangor atom – Miss Lyn Evans i flwyddyn 2 a Miss Ceri Ellis i'r dosbarth derbyn. Rydym hefyd yn croesawu myfyrwyr o Goleg Menai. Gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith.
Bu cryn gyffro ymhlith disgyblion Blwyddyn 5 a 6 pan ddaeth Angie Roberts atom i gynnal Gweithdy Dewiniaeth, i symbylu gwaith ysgrifennu creadigol.

Harddwch eich cartref gyda
FFENESTRI CELTIC WINDOWS
FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL
Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch – 'dio'n costio dim i gael pris
HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG
NHBC
(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)

ARVONIA
• Gwyliau cerbyd Prydeinig a Chyfandirol.
• Rhaglen Tripiau Dyddiol.
• Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
• Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.
• Adran teithiau grŵp – yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatr a digwyddiadau.

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA
Ffôn: 01286-675175 Ffacs: 01286-671126 E-bost: info@arvonia.co.uk
Gwefan: www.arvonia.co.uk

J.M. JONES A'I FEIBION
GWAITH CERRIG BEDDAU

Y Sgwâr Llanrug
Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol Cerrig o bob math ar gael –
Ffôn: (01286) 672898 (dydd) 676285 (nos)

CYNGERDD IWAN

(Cefn): Meirion Jones, ysgrifennydd y band. (Blaen): Dylan Williams, Iwan Williams ac Ian Williams (o gwmni Advent Project Management – noddwyr y noson).

Nos Sadwrn, 6 Hydref, cynhaliwyd cyngerdd go arbennig yn Theatr Seilo, Caernarfon. Cyngerdd a drefnwyd gan Fand Deiniolen i ddangos cefnogaeth i un o'u cyn-aelodau, Iwan Williams.

Tyfodd Iwan i fyny yn Neiniolen, gan gychwyn chwarae'r cornet ym mand y pentref pan yn 8 oed. Datblygodd ei yrfa gerddorol wedi iddo symud i Fanceinion i astudio cerddoriaeth, gyrfa a goronwyd yn 2005 pan ryddhawyd ei gryno ddisg cyntaf fel unawdydd ar y corn flugel. Bryd hynny roedd yn aelod o'r Band Pres enwog, y 'YBS Band', ac yn athro cerdd mewn ysgol ym Manceinion.

Dechreuodd Iwan deimlo'n wael ym mis Ionawr 2006, pryd y darganfuwyd ei fod yn dioddef o epilepsy. Ond parhau wnaeth y gwaeledd nes iddo gael cadarnhad ym mis Mehefin 2006 ei fod yn dioddef o diwmor ar yr ymenydd. Mae ar hyn o bryd yn dilyn cwrs o driniaeth ac, o ganlyniad, mae wedi gorfod rhoi'r gorau i'w waith ac i'w le ym mand YBS.

Penderfynodd ei ffrindiau ym Mand Deiniolen ddod at ei gilydd i drefnu cyngerdd i gefnogi Iwan a'i deulu.

'Bwriad y cyngerdd hwn oedd nid yn unig i roi cymorth ariannol i Iwan a'i deulu, ond i ddatgan ein cefnogaeth iddynt ar adeg anodd fel hyn – ac yn sicr fe brofodd y cyngerdd i fod yn llwyddiant ysgubol,' meddai Dylan Williams, ar ran y Band.

Noddwyd y cyngerdd gan gwmni Advent Project Management, ac roedd amryw o noddwyr eraill, i gyd yn gysylltiedig â phentref Deiniolen, wedi cyfrannu tuag at noddi'r rhaglen. Roedd y rhan fwyaf o'r artistiaid a gymerodd ran gyda chysylltiadau cryf iawn â Deiniolen – rhywbeth a gyfrannodd tuag at deimlad cartrefol y noson.

Ymysg y rhai oddi allan i'r ardal a gymerodd ran oedd dau o gyd-aelodau Iwan o fand YBS – Sheona White o'r Alban a Stuart Lingard o Fanceinion. Mae'r ddau unawdydd yma ymysg y goreuon yn y byd ar eu hofferynnau a phleser oedd cael gwrando arnynt yn perfformio.

Cafodd y band y fraint o gael ymarfer gyda, a'u harwain, gan yr Athro David King, y gŵr o Awstralia sydd bellach yn cael ei adnabod fel un o bobl bwysicaf a mwyaf dylanwadol y byd bandiau pres. Ef oedd tiwtor ac arweinydd Iwan ym mand YBS a braf oedd ei glywed yn talu teyrnged i Iwan ac yn ei gyflwyno gyda'r corn flugel a fu'n rhan mor bwysig o yrfa gerddorol Iwan.

Artistiaid eraill y noson oedd Tudur Owen (arweinydd), Sian Gibson a'i brawd Emyr (sydd newydd gyhoeddi ei CD gyntaf gyda'i fand, o'r enw 'Hei Ti'), John Eifion Jones ac Annette Bryn Parri – enwau sy'n adnabyddus nid yn unig yn y fro hon, ond drwy Gymru gyfan, a thalentau y gallwn oll ymfalchïo ynddynt. Yn arwain y band ar y noson yr oedd Gavin Saynor, ac fe gafwyd unawd ganddo ef ar y tiwba hefyd.

Roedd tocynnau'r cyngerdd wedi eu gwerthu i gyd ychydig ddyddiau wedi iddynt fynd ar werth, ac yn sicr roedd pob un oedd yn y gynulleidfa wedi cael cyngerdd i'w gofio – ac yn sicr roedd Iwan ei hun wedi mwynhau'r noson.

Gavin Saynor, Arweinydd y band, yn rhoi unawd ar y tiwba.

Siân ac Emyr Gibson, gyda Annette Bryn Parri wrth y piano.

Ar y Brig Eto

Owain Llŷr James

Ar ddydd Sadwrn 22 Medi 07 roedd Pencampwriaeth Rhedeg Mynydd Gogledd Cymru yn cael ei gynnal ar y Gogarth yn Llandudno. Roedd tri o redwyr o deulu James, Deiniolen, yn cymryd rhan, sef Owain Llŷr, Elin Angharad a Rhys Llywelyn James.

Roedd Rhys yn cystadlu yn y categori hogiau o dan 12 oed ac er nad ydi o ond yn 10 oed, fe gurodd Rhys ei ras.

Roedd Elin yn cystadlu yn y categori i enethod o dan 12, a daeth hithau yn 2ail.

Yn y categori dan 14 yr oedd Owain Llŷr yn rhedeg, a daeth yn 5ed yn ei ras ef.

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- **Pob math o ddodrefn tŷ**
- **Cegin, 'stafell fyw, llofft**
- **Prisiau cystadleuol**
- **Carpedi, Llenni a Lloriau Pren**

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

YR YSGOL GYMUNED

Ymweliadau. Mae plant CA2 wedi bod yn ymweld â Chapel Bosra ac Eglwys Santes Helen yn ddiweddar fel rhan o'u gwaith thema Addysg Grefyddol. Diolch yn fawr i Mr Evie Wyn Jones a Mrs Mary Davies am roi eu hamser i'r plant yn ystod y ddau ymweliad. Yn ogystal daeth Anti Mary draw i'r ysgol i sgwrsio gyda'r plant, diolch iddi am amser hwyliog iawn.

Dydd Mercher, 10 Hydref, aeth plant CA2 i ymweld â'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis yn y bore ac yna ymlaen i Gastell Penrhyn yn y prynhawn. Cafwyd amser diddorol iawn yn y ddau le.

Bore dydd Llun, 22 Hydref, aeth plant CA1 hefyd i Gastell Penrhyn i gymryd rhan mewn gweithdy Ysgol Fictorianaidd ac roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr.

Aeth plant CA2 i gymryd rhan mewn gweithdy barddoniaeth gyda Karen Owen yn Oriel Gwynedd fore dydd Mawrth, 23 Hydref.

Bore dydd Mercher, 24 Hydref, cawsant gyfle i ymweld â Chanolfan Treftadaeth Kate Roberts yn Rhosgadfan a chymryd rhan mewn gweithdy 'Dewch i Greu' gyda Angharad Tomos. Roedd pawb wedi cael amser da iawn yn ystod y ddau ymweliad.

Casgliad Diolchgarwch. Yn dilyn ymweliad Mr Dennis Davies i roi ychydig o hanes yr elusen NSPCC, penderfynwyd cyflwyno casgliad cyfnod y diolchgarwch i'r elusen deilwng hon eleni. Os hoffech gyfrannu byddem yn ddiolchgar o'i dderbyn yn yr ysgol.

Operation Christmas Child. Byddwn yn casglu bocsys ar gyfer yr elusen yma eto eleni. Dylai pawb eu dychwelyd i'r ysgol erbyn dydd Llun, 5 Tachwedd os gwelwch yn dda a byddant yn cael eu casglu yn ystod yr wythnos yma. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Tesco. Rydym yn casglu talebau 'Tesco Sports' eto eleni. Byddwn yn ddiolchgar o dderbyn rhain yn yr ysgol unrhyw adeg.

PÊL BONWS LOTERI. Enillydd mis Medi oedd Mrs Beryl Roberts, Racca, gyda'r rhif 37. Llongyfarchiadau!

NOSON BINGO. Diolch i bawb a gefnogodd y noson yma ar 25 Hydref. Bydd yr elw yn mynd tuag at gostau Cinio Nadolig y pensiynwyr.

CINIO NADOLIG. Cynhelir y cinio eleni ar ddydd Sadwrn, 8 Rhagfyr. Byddwn yn cychwyn o flaen yr ysgol am tua 10.30 y bore yna'n mynd ar wibdaith yn y bws a chyrraedd 'Aber Hod Old Hall' yn Rhos-on-Sea erbyn 1.30 y pnawn i gael cinio Nadolig. Yna bydd cyfle i fynd ymlaen i Landudno i wneud ychydig o siopa, a gobeithiwn fod yn ôl adref erbyn tua 5.30. Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â ni, a fuasech yn gadael i Mrs Janet Ash Commercial (871265) wybod cyn gynted â phosib, os gwelwch yn dda.

GWELLHAD. Ein cofion annwyl at bawb sy'n sâl yn y pentef. Dymunir adferiad iechyd i Mrs Catherine Williams, 20 Bryn Tirion; Mrs Delyth Williams, Pen y Gawr a Mrs Gwyneth JOnes, 25 Bryn Tirion, y tair wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

PRIODAS. Dydd Sadwrn, 18 Awst, yng Nghapel Lôn y Felin, Llangefni, priodwyd Eirian, merch Dora a Gwilym Parry, 3 Lôn Ceunant, Llangefni, a Huw Tegid, mab Nant a Tegid Roberts, Penisarwaun. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i'r ddau.

DYMUNA Eirian a Huw Tegid, ddiolch o galon i bob un o ddarllenwyr Eco'r Wyddfa a ddymunodd yn dda iddynt ar achlysur eu priodas yn ddiweddar. Cafodd y ddau ddiwrnod wrth eu bodd ac wythnos braf dros ben yn Sorento yn yr Eidal yn dilyn hynny.

DYMUNA Arwel a Jemma ddiolch o galon i'r ddau deulu ac i bawb am y llu cardiau ac anrhegion a gawsant ar achlysur eu priodas hwythau ar 29 Awst, a hynny ym mhoethder Lindos, Rhodes. Cawsant ddiwrnod a gwyliau arbennig a bythgofiadwy.

LLONGYFARCHIADAU i Alan Rees Hughes, 4 Bryn Eglwys, ar ddod yn daid am y tro cyntaf. Ganwyd mab bychan, Callum Rees, i Anthony, mab Alun, a Bethan sy'n byw yn y Felinheli.

Mae Alun a Mary yn amlwg wedi gwirioni hefo'r bychan a phob bendith i chwi fel teulu.

YSGOL SUL BOSRA. Mae bwrlwm mawr yn mynd ymlaen yn yr Ysgol Sul gan fod y plant wrthi'n ddiwyd yn cynllunio a dylunio Cardiau Nadolig er budd Apêl y Capel. Bu'r fenter yn hynod lwyddiannus y llynedd ac, ar gais y

Eirian a Huw Tegid yn un o gerbydau Dylan a Meinir, Tros-y-Waen.

rhieni, y mae'r cardiau eleni eto yn werth i'w prynu.

PWYLLGOR NEUADD GYMUNED Tynnwyd Clwb Cant Hydref a'r enillwyr yw: Elen George, Sŵn yr Engan, Brynrefail; Gwen Grififfths, Tai Arthur; Geraint Williams, Careb, Bryn Eglwys.

Bwriedir trefnu 'Noson Wasael' cyn y Nadolig yn y Neuadd Gymuned. Bydd stondinau, raffl, pwnsh a mins pei ynghyd â chanu'r carolau traddodiadol. Bydd mwy o wybodaeth yn y rhifyn nesaf.

CYDNABYDDIAETH DEILWNG. Yng Nghynhadledd Flynyddol y Blaid yn Llandudno, fe anrhydeddwyd y Cynghorydd Pat Larsen, ynghyd â Chynghorwyr eraill, am eu gwaith diflino i'r Blaid, eu cymuned a'u gwlad.

Hoffem ninnau ddatgan ein llongyfarchiadau a'n diolchiadau i Pat am ei gwaith ymroddgar i'r gymuned hon am flynyddoedd maith.

PLYGU'R ECO. Llawer o ddiolch i'r criw ffyddlon, ynghyd â nifer o rai newydd yn cynnwys y bobl ifanc, a daeth i Neuadd yr Eglwys, nos lau, 27 Medi. Cwblhawyd y plygu erbyn 7.10. Diolch i swyddogion yr Eglwys am eu haelioni eto eleni.

CYNGERDD MAWREDDOG yn Festri Capel Coch, Llanberis am 7.30 o'r gloch nos Sul, 11 Tachwedd. Yr artistiaid fydd: Dafydd Iwan, Côr y Waun, Susan Williams, Stephanie Welsby ac Edward Morus Jones.

Tocynnau £3 wrth y drws. Elw'r noson tuag at gynllun Efengyl i Fro'r Eco – 'EFE'.

DYMUNA Sali Griffith (16 Bryntirion

Arwel a Jemma ar ddydd eu priodas yn Lindos, Rhodes ar 29 Awst.

gynt) a'r teulu ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd yn eu p[rofedfigaeth o golli mab a brawd mor frawychus o sydyn.

HUNANGOFIANT. Deallir y bydd cyfrol hunangofiant Rol Williams, Ardwyn, yn cael ei chyhoeddi yn gynnar ym mis Tachwedd o dan y teitl *Nid Roc... ond Rol, o'r Llys i'r Garreg Fawr.* Yn y gyfrol ceir hanes ei fagwraeth ym Mrynrefail cyn symud i'r Waunfawr, pedair blynedd yn yr Awyrlu a'i waith dyddiol yn y Weinyddiaeth Amaeth, a blynyddoedd yn diddanu cynulleidfaoedd led-led Cymru fel aelod o Barti Eryri a rhaglenni radio a theledu. Ceir hefyd nifer dda o hen luniau. Cyhoeddir y gyfrol gan Wasg y Bwthyn, Caernarfon.

Aelodau Ysgol Sul Bosra gyda'u cardiau Nadolig.

O Barc-y-Wern i Barc y Faenol

Hunangofiant

SELWYN GRIFFITH

Cyn diwedd y mis fe ddaw cyfrol o atgofion hogyn direidus o Fethel allan o'r wasg. Cyfrol a fydd yn dilyn ei hynt a'i helynt o Barc-y-Wern ei blentyndod i'r Maen Llog ar Barc-y-Faenol fel Archdderwydd Cymru.

Tynnwr coes, teithiwr, eisteddfotwr a golwr a gafodd dreial gyda Bolton Wanderers. Prifardd coronog Eisteddfod Genedlaethol 1989, ac un sydd wedi beirniadu mewn dros 400 o eisteddfodau led-led Cymru. Bu'n gasglydd rhenti gyda'r hen Gyngor Gwyrfai cyn mynd i'r Coleg Normal a dilyn gyrfa fel athro. Gwasanaethodd fel clerc i'w blwyf genedigol, Llanddeiniolen, am 46 o flynyddoedd.

A phwy fasa'n coelio iddo geisio gwneud parasiwr i'w gath unwaith!

Cyhoeddir y gyfrol gan Wasg y Bwthyn, Caernarfon, a bydd y lansio yn Neuadd Goffa Bethel, nos Fawrth, 27 Tachwedd am 7.00 o'r gloch.

Cyhoeddi Hunangofiant

ROL WILLIAMS



Deallir y bydd hunangofiant Rol Williams, Waunfawr, y gŵr sy'n gyfrifol am y Portreadau sydd wedi ymddangos yn yr *Eco*, yn cael ei lansio, ddydd Iau, Tachwedd 15 yn y Caban, Brynrefail, am dri o'r gloch y prynhawn.

Cyhoeddir y gyfrol gan Wasg y Bwthyn, Caernarfon. Ceir yn y gyfrol hanes blynyddoedd cynnar yr awdur ym Mrynrefail a'i gyfnod yn yr Awyrlu adeg y rhyfel. Hefyd y blynyddoedd yn swyddog yn y Weinyddiaeth Amaeth gyda chyfeiriadau at y cyfnod y bu ar ddyletswydd gyda'r aflwydd, y Clwy'r Traed a'r Genau yn Sir Ddinbych ac Ynys Enlli.

Yna yr hanner can mlynedd bron yn aelod o wahanol bartïon Noson Lawen yn trampio de a gogledd Cymru, a'r blynyddoedd yn cyfrannu i wahanol raglenni radio a theledu.

Mae yn y gyfrol nifer o ddarluniau, gan gynnwys rhai o hen gymeriadau Brynrefail a'r Waunfawr.

Estynnir croeso cynnes i bawb i'r lansio yn y Caban am 3.00 y pnawn.

UN FUNUD FACH

LEWIS

Bu ond yn dim i Lewis Hamilon gipio'r bencampwriaeth Fformiwla 1 ar ei gynnig cyntaf. Ond ail anrhydeddus iawn gafodd o ym Mrasil yr wythnos ddiwethaf. Yn fuan wedi diwedd y ras, cyflwynodd ei dÈIm, McLaren, brotest a allai olygu bod Hamilton yn cael ei goroni wedi'r cyfan. Cwyno oedd McLaren fod dau dîm arall a orffennodd o flaen Hamilton yn ras ola'r tymor wedi torri rheolau'n ymwneud â thanwydd y ceir. Dadl McLaren oedd y dylai ceir Williams and BMW Sauber gael eu cosbi. Pe byddai'r ceir hynny'n cael eu diarddel o'r ras, byddai gan Hamilton fwy o bwyntiau na'r pencampwr, Kimi Raikkonen, a byddai'n bencampwr yn ei dymor Fformiwla 1 cyntaf. Gwrthodwyd y brotest, a chafodd Raikkonen ei gadarnhau yn bencampwr. Ond chwarae teg iddo, roedd Hamilton ei hun yn mynnu nad oedd eisiau 'ennill' y bencampwriaeth oddi ar y trac rasio, a buddugoliaeth wag iddo fyddai hi petai'r ddau dîm arall wedi cael eu diarddel.

Yr hyn a wnâi brotest McLaren yn wirioneddol ddiddorol oedd yr hyn a ddigwyddodd ddeuddydd cyn hynny. Yn ystod y sesiynau ymarfer ar gyfer y ras dyngedfennol, roedd McLaren a Hamilton wedi torri'r rheolau'n ymwneud â theiars. Roedden nhw wedi defnyddio mwy o deiars nag a ganiateir gan y rheolau, ac roedd posibilrwydd y byddai Hamilton yn cael ei gosbi trwy orfod cychwyn y ras ymhellach yn ôl ar y grid cychwyn. Chafodd o mo'i gosbi, a chafodd aros ar linell flaen y grid er iddo dorri'r rheolau. Rhyfedd na soniodd neb o dîm McLaren am hynny wrth iddynt gwyno fod y ddau dîm arall wedi troseddu!

Nid wyf yn honni bod yn awdurdod ar rasio Fformiwla 1, ac felly ni allaf fod yn sicr pa mor ddifrifol oedd yr un o'r troseddau hyn. Ond mae'n rhyfedd fel roedd rheolwyr McLaren yn fodlon pwyntio bys at y timau eraill, a hwythau wedi bod yn ffodus i osgoi cosb cyn dechrau'r ras. Ond onid felly y mae hi o hyd? Mae'n hawdd gweld beiau pawb arall a methu gweld ein beiau ein hunain. Gall yr Iesu, a soniodd am 'edrych ar y brycheuyn yn llygaid dy gyfaill, a thithau heb sylwi ar y trawst sydd yn dy lygad dy hun', ddysgu llawer i bawb ohonom. Mae'n rhyfedd o lawer i weld bod pawb arall ar fai yn hytrach na chyffesu'r pechod sydd ynom ni ein hunain.

JOHN PRITCHARD

Rhyfeddod Bethlehem

gan **John Hywel**

NEUADD PRICHARD JONES
Bangor
nos Sadwrn, 8 Rhagfyr
am 7.00 o'r gloch

CANTORION BRO CEFNI
CHANTORION MENAI
CARYS LLOYD *(Soprano)*
ROBIN LYN EVANS *(Tenor)*
Enillydd Rhuban Glas, 2007
IWAN PARRI *(Bas)*
Enillydd Rhuban Glas, 1991
MARTIN BROWN *(Organ)*
Arweinydd: JOHN HYWEL
Tocyn: £8.00
Elw at Ambiwlans Awyr Cymru
Ar gael yn Booklands, Bangor; Ina, Biwmares; Awen Menai, Porthaethwy; Cwpwrdd Cornel, Llangefni, ac aelodau'r ddau gôr.

MAE
Eco'r Wyddfa
ANGEN EICH CYMORTH

Os am wirfoddoli cysylltwch â
Geraint Elis
Cadeirydd y Pwyllgor
Ffôn:
(01248) 670726

BEICS MENAI

BEICS NEWYDD
ac OFFER BEICIO
AR GYFER YR HOLL DEULU
"TRIKES a QUADS" TRYDAN
i BLANT- *AM BRIS CALL!!*
Dewch i Weld Alan yn BEICS MENAI am Wasanaeth Personol

(01286)-676804
NEU
07770951007

BEICS MENAI • 1 CEI LLECHI CAERNARFON
e/bost- alan@dedwyddfan.freeserve.co.uk

FFRAMIA
Parc Padarn, Llanberis
(01286) 870922
www.fframia.com
Gwasanaeth Fframio Lluniau
Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy.

Ysgol Brynrefail

Ymweliad C2 a Glyn Wise!!!

Ddydd Llun, Hydref 15fed, daeth criw'r BBC i'r ysgol cr mwyn recordio'r rhaglenni poblogaidd *Bandit/C2*. Gwahoddwyd disgyblion Blwyddyn 8 i fynychu gweithdy er mwyn bod yn rhan o'r recordiad a chafwyd gig yn y neuadd gyda grŵp poblogaidd o'r ysgol y Dirty Words, a'r grŵp gwreiddiol tu hwnt, Reu. Bu i'r disgyblion fwynhau'r gweithdy a'r gig yn arw, ac roedd Glyn mor boblogaidd ag erioed – nid yn unig gyda Blwyddyn 8, ond gyda merched y chweched dosbarth yn ogystal!!!!

Llwyddo'n Lleol

Yn ddiweddar mynychodd disgyblion 9i ddiwrnod 'Llwyddo'n Lleol' ym Mhlas Menai. Bwriad y diwrnod oedd meithrin pobl ifanc yn y gallu i ddod yn fwy mentrus o fewn eu cymunedau ac i gyfrannu at ddatblygiad eu hardal. Cafwyd diwrnod diddorol a heriol a bu i un grŵp o'r ysgol ddod yn fuddugol mewn cystadleuaeth. Daeth tîm Gethin Griffith, Dafydd Griffith, Sian Jones a Lyndsey Thomas i'r brig o blith holl dimau Ysgol Syr Hugh Owen, Ysgol Dyffryn Nantlle ac Ysgol Brynrefail. Go dda chi!

Cyfeillion Ysgol Brynrefail

Oes gennych chi blentyn yn Ysgol Brynrefail? Eisiau cefnogi'r ysgol, ond eich amser yn brin? Wel, dyma ffordd gyflym, syml a di-boen i'n cefnogi.

Mae Pwyllgor Cyfeillion Ysgol Brynrefail yn cyfarfod i drefnu gwahanol weithgareddau codi arian i gefnogi gwaith yr ysgol.

Un ffordd y gallwch gefnogi'r Cyfeillion yw drwy ymaelodi â'r Clwb 100 am £1 y mis. Gallwch ymaelodi drwy gwblhau'r bonyn isod a'i ddychwelyd i Swyddfa'r Ysgol gyda thaliad blwyddyn o £12 – arian parod neu siec yn daladwy i 'Cyfeillion Ysgol Brynrefail', os gwelwch yn dda.

Efallai y byddai'n well gennych wneud trefniant arched banc – ffurflen bwrpasol ar gael o Swyddfa'r Ysgol. Telir hanner incwm y Clwb 100 yn ôl mewn gwobrwyon i'r aelodau.

Mae'r Pwyllgor bob amser yn awyddus i groesawu aelodau newydd. Cysylltwch â Swyddfa'r Ysgol i adael eich enw a'ch rhif ffôn os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â ni, os gwelwch yn dda.

Gwerthfawrogwn bob cefnogaeth i'n gwaith a'n gweithgareddau.

Yn gywir,

EIFION JONES

Eifion Jones
Prifathro a Llywydd Cyfeillion Ysgol Brynrefail

CLWB 100 CYFEILLION YSGOL BRYNREFAIL

Enw:_____ Teitl:____ Ffôn:_____

Cyfeiriad: _____

_____

_____ Côd Post: _____

Amgaeaf: Archeb Banc ☐ Siec ☐ £12 arian ☐

Enw'r plentyn hynaf (os yn berthnasol):

_____ Blwyddyn: _____

Profiad Gwaith Blwyddyn 11

Ddiwedd y mis treuliodd holl ddisgyblion Blwyddyn 11, 130 ohonynt i fod yn fanwl gywir, wythnos wahanol i'r cyffredin mewn gwahanol leoliadau yn y fro ar brofiad gwaith. Mwynhaodd ein disgyblion dreulio cyfnod yn profi amrywiol feysydd a bydd eu hwythnos yn sicr o fod yn gymorth iddynt wrth geisio penderfynu pa drywydd i'w ddilyn ar ôl gadael yr ysgol.

Dymuna'r ysgol ddiolch o galon i bob cyflogwr am eu parodrwydd i roi cyfle i'n pobl ifanc unwaith eto eleni; i athrawon yr ysgol am ymweld a'r safleoedd, ac i Mr. Howyn Jones am yr holl drefniadau.

Siôn wrth ei fodd yn gweithio yn Taylor Automotive, Deiniolen.



Ioan yn derbyn gwers ar lefelu gan Mr. Eric Jones (Adeiladwr), Llanrug.

Robyn yn gweithio gyda'r ceffylau yn 'Snowdonia Riding Stables', Waunfawr.

Y Clwb Cant

Gorffennaf–Medi 2007

Enillwyr yn ystod misoedd yr haf oedd:

Gorffennaf

1. Carys Jones, Bethel;
2. David Launceley, Llanrug;
3. A. E. Jones, Caernarfon.

Awst

1. Rhona Lampard, Nant Peris;
2. Lynne Williams, Waunfawr;
3. Malcolm Jones, Pontrug.

Medi

1. Rhian Ellis, Llandwrog;
2. Wendy Roberts, Y Felinheli;
3. Stephen Kingston, Ceunant.

Am gymorth:
- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli

MANTELL GWYNEDD
Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

cysylltwch â Mantell Gwynedd
– yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfynedig drwy Warant 3420271

Cynllun Efe

O dipyn i beth, mae mwy a mwy ohonom yn dod yn gyfarwydd â'r enw 'Efe' a roddwyd erbyn hyn i'r cynllun i sicrhau gweithiwr Cristnogol ieuenctid ar gyfer pentrefi dalgylch *Eco'r Wyddfa*. Mae'r enw newydd yn dechrau ennill ei blwyf, ac y mae pawb ohonom sy'n gysylltiedig â'r cynllun yn falch o hynny, gan fod yr enw yn cyfleu'n daclus y nod sydd gennym o gyflwyno'r Efengyl i Fro'r Eco. Dros y misoedd nesaf gobeithiwn y daw'r enw'n fwy cyfarwydd eto, ac y daw'r ardal gyfan yn ymwybodol o weithgarwch ac o dystiolaeth Efe i'r Arglwydd Iesu Grist.

Buom yn trafod y cynllun ers dwy flynedd, a phenderfynwyd yn weddol gynnar y byddem yn ceisio ariannu'r cynllun a swydd newydd y gweithiwr Cristnogol am gyfnod cychwynnol o dair blynedd. Gosodwyd nod ariannol o £78,000 er mwyn ariannu'r gwaith dros y cyfnod hwn. Aed ati i geisio arian o dair ffynhonnell bosibl:

Ymddiriedolaeth Pantyfedwen; yr enwadau, yn genedlaethol a rhanbarthol; a'r gymuned leol, yn eglwysi a sefydliadau ac unigolion.

Ychydig cyn y Nadolig y llynedd, cawsom addewid o gyfraniad sylweddol gan Ymddiriedolaeth Pantyfedwen ar yr amod ein bod yn llwyddo i gynnal y gweddill. Bu'r addewid honno yn fodd i ni wedyn gyflwyno ceisiadau i'r enwadau gwahanol. Cafwyd addewid am arian gan yr Eglwys Bresbyteraidd, yr Eglwys Fethodistaidd, y Bedyddwyr, yr Annibynwyr, yr Eglwys yng Nghymru a'r mudiad Saint y Gymuned (Croesgadwyr gynt). Mae cyfanswm yr arian a addawyd i ni gan Ymddiriedolaeth Pantyfedwen a'r enwadau yn £59,000.

Yr ydym hefyd wedi gwneud ymdrech i godi arian yn lleol trwy ofyn i'r eglwysi lleol ac unigolion gefnogi'r gwaith. Cawsom ein calonogi gan yr addewidion a dderbyniwyd. Y mae oddeutu 30 o eglwysi (o bob enwad) o fewn y dalgylch; a chawsom addewid am arian at y gwaith gan 13 ohonynt. Mae rhai o'r eglwysi eisoes yn trefnu gweithgareddau arbennig er mwyn codi'r arian a addawyd. Mae nifer o unigolion wedi cyfrannu neu wedi addo gwneud hynny.

Cafwyd arian gan gôr lleol a chan un cyngor cymuned, a chynhaliwyd taith gredded noddedig dan nawdd pwyllgor Efe ei hun. Gwerthfawrogwn yr arian a dderbyniwyd a'r addewidion a wnaed; a gwyddom fod rhai eglwysi a chynghorau a sefydliadau yn dal i obeithio ymateb i'n cais iddynt. Mae cyfanswm yr arian a addawyd yn lleol dros £14,000.

Erbyn hyn, felly, addawyd ychydig dros £73,000 i gynllun Efe, a gobeithiwn y bydd ein hymdrechion yn lleol yn sicrhau y daw'r gweddill yn y man. Byddai unrhyw gyfraniad y gallai unigolion ei wneud yn help mawr i ni.

Gellir anfon cyfraniadau at Drysorydd Efe, Mr Colin Jones, Bryn Gelli, Gellihirbant, Llanberis. Yn naturiol, byddem yn arbennig o falch o dderbyn ymateb oddi wrth rai o'r eglwysi sydd hyd yma wedi teimlo na allant gyfrannu at y gwaith. O sylweddoli ein bod mor agos at y nod a osodwyd, gobeithio y caiff rhai eu symbylu o'r newydd i gefnogi'r gwaith.

Yr ydym yn cyflwyno cais i'r Comisiynwyr Elusennau i gofrestru Cynllun Efe fel elusen, a bydd hynny'n ein galluogi i dderbyn ad-daliad treth-incwm os bydd unigolion yn dewis cyfrannu trwy'r cynllun Rhodd Cymorth.

Yr ydym yn hyderus ein bod eisoes wedi sicrhau digon o gefnogaeth i'n galluogi i ofyn i Ymddiriedolaeth Pantyfedwen a'r enwadau ryddhau'r arian a fydd yn ein galluogi i roi'r cynllun ar y gweill. Gobeithiwn, felly, allu hysbysebu'r swydd mor fuan ag y bo modd, yn gynnar yn y flwyddyn newydd, os nad cyn hynny. Byddai'n dda gennym feddwl fod yna lawer yn gweddïo dros yr holl gynllun; ac yn arbennig, ar hyn o bryd, yn gweddïo y bydd y person addas yn dod i wybod am y swydd pan gaiff ei hysbysebu, ac yn cael ei arwain i ymgeisio amdani. Edrychwn ymlaen at benodi gweithiwr a fydd yn cydweithio â ni ac yn ein helpu i gyflwyno'r Arglwydd Iesu Grist i'n pobl ifanc.

Y tro nesaf, cewch wybod rhagor am fwriadau'r cynllun ac am swyddogion ac ymddiriedolwyr Efe.

JOHN PRITCHARD

THEATR BARA CAWS

Bydd cynhyrchiad nesaf Theatr Bara Caws, *Tri Rhan o Dair*, sef cyfieithiadau o dair o fonologau Alan Bennett (allan o *Talking Heads*) yn cychwyn teithio trwy Gymru ar 13 Tachwedd.

Yr actorion fydd Owen Garmon, Valmai Jones ac Olwen Rees ac yn cyfarwyddo am y tro cyntaf i'r cwmni fydd Betsan Llwyd.

Tachwedd 27 a 28 yn Theatr Gwynedd, Bangor am 7.30

Rhagfyr 7 ac 8 yn Galeri, Caernarfon am 7.30.



Y BWTHYN TÉ
pen y ceunant isaf
LLWYBR YR WYDDFA LLANBERIS



PEN Y CEUNANT ISAF-
BWTHYN A ADEILADWYD AR WAELODION LLWYBR YR WYDDFA (O LLANBERIS)
YN YSTOD Y 18ed. GANRIF
CEWCH GROESO ARBENNIG , YMA, YN OGYSTAL A GOLYGFEYDD GWYCH DROS LLYN PADARN A DYFFRYN PERIS

AR AGOR 9am.- 9pm. BOB DYDD DRWY'R FLWYDDYN
DIODYDD GYDA SCON NEU DEISEN (Dim prydiau o gwbwl)
MAN PARCIO O FLAEN Y BWTHYN • YN ADDAS I'R ANABL
Oriel arbennig o luniau Syr Kyffin Williams a llu o arlunwyr Cymreig eraill

(01286)872606 www.ceunant.co.uk steven@ceunant.co.uk

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati.
Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan
(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

Chwilio am Ddeintydd?

Mae rhestr aros ar agor nawr
i gofrestru am driniaeth Breifat:
Dr Mike Lloyd Hughes BDS(Wal), MFDS RCS(Eng)
Bydd yn gweithio yn Neintyddfa Gwynfryn,
Ffordd Caergybi, Bangor
Rydym yn cynnig gwasanaeth eang sydd yn cynnwys triniaeth gosmetig a gwynnu dannedd
"Deintyddiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg"

I wneud cais am gofrestru amodol ffoniwch 01248 372830 rhwng 8.30yb a 5.30yp dydd Llun i ddydd Iau a rhwng 8.30yb a 1.00yp ddydd Gwener.

"Gofal tyner a manwl i'r teulu oll"

CYSYLLTWCH Â NI CYN 30 TACHWEDD I GAEL GOSTYNGIAD O 10% AR GOST EICH ARCHWYLIAD CYNTAF.

RHEILFFORDD LLYN PADARN

Dewch am daith ar y trên bach i weld Siôn Corn, anrheg i bob plentyn a mins pei a diod i'r oedolion.

Ragfyr 8, 9, 15 ac 16
Oedolion a phlant £6
(o dan 3 oed – £2)
Poblogaidd iwn – archebwch yn fuan
Ffôn: **01286 870549** am fanylion.



DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

MARWOLAETH. Daeth y newydd trist i'r ardal am farwolaeth Mrs Margaret Griffiths, 1 Maes Eilian gynt, yn yr ysbyty yn Rhydychen yng nghwmni Jane, ei merch, a'i mab yng ngyfraith, ar drothwy ei phen-blwydd yn 102 mlwydd oed.

Bu Mrs Griffiths yn cartrefu yma yn Ninorwig am flynyddoedd lawer ond, yn ei blynyddoedd olaf, aeth i fyw at Jane i dde Cymru ac yna i Rydychen. Bu'r cynhebrwng yn amlosgfa Rhdychen ond fe gladdwyd y llwch ym mynwent Macpelah Deiniolen, hefo'i gŵr, William Griffiths, a'u merch, Mary Elin. Cafwyd gwaswanaeth ar lan y bedd yng ngofal y Canon Idris Thomas, Trefor.

Am rai blynyddoedd ar ôl symud i fyw byddai Mrs Griffiths yn dod ar ei gwyliau i Ddeiniolen bob haf a fyddai hi byth yn methu â dod i gapel Dinorwig ac yn cyfrannu'n hael at yr achos.

Dioch am un fel hi. Bendith Duw fo ar Jane a'r teulu yn eu profedigaeth fawr o golli mam.

GWYNFYD GWAUN GYNFI. Dymuna Y Canon Idris Thomas ddiolch i amryw o Ddinorwig a aeth i noson lansio ei lyfr uchod yn Eglwys Llandinorwig nos Fercher, 19 Medi. Mae'r gyfrol ar gael yn y siopau neu drwy ffonio Idris ar (01286) 660547. Mae'n gofnod manwl iawn o ganrif a hanner ym mywyd Eglwys Llandinorwig.

DIOLCH. Dymuna Jane, Emrys a theulu y ddiweddar Margaret Griffiths (Maggie, 1 Maes Eilian gynt) ddiolch yn ddiffuant am y caredigrwydd a phob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam annwyl a fu farw ar 27 Awst, ychydig ddyddiau cyn ei phen-blwydd yn 102. Diolch arbennig i'r Canon Idris Thomas am ei wasanaeth teimladwy, ac i Dylan Griffith, Tros y Waun, am y trefniadau gofalus. Diolch yn fawr i bawb.

CLWB ORWIG. Mewn cyfarfod o'r clwb uchod, bu Gwen Thomas, o'r Gymdeithas Gwarchod Adar, yn rhoi sgwrs ddifyr a ffilm i aelodau'r clwb. Llongyfarchwyd Mrs Betty Lloyd Roberts am werthu gwerth £31.50 o docynnau yng Nghystadleuaeth Erw'r Ddôl, gyda'r elw'n mynd tuag at ymdrech codi arian y Clwb eleni: Osteoporosis Gwynedd a Môn.

Rhoddodd Ann a Selwyn Williams wybodaeth am y trefniadau i ddatlhu seithfed pen-blwydd y Clwb ym mis Hydref.

Anfonwyd cyfarchion pen-blwydd i Betty Lloyd Roberts. Rhoddwyd y te gan Ann Williams a Terry Taylor ac enillwyd y raffl gan Betty Bower.

* * *

Bu i'r Clwb gyfarfod yn Blue Peris a chroesawyd yr aelodau yno gan y Llywydd a diolchodd i Ann a Selwyn Williams am drefnu cinio yng Ngholeg Llandrillo i ddathlu seithfed pen-bwydd y clwb. O Landrillo fe fu i'r clwb ymweld â Betws-y-coed. Dymunwyd y gorau i Betty Lloyd Roberts ac Ann Lo sydd yn yr ysbyty. Rhoddwyd tusw o flodau a chardiau pen-blwydd i Joan Glass, Margaret Faulkener a Morfudd Jones.

Hyd yma y mae'r clwb wedi casglu £190.50 at Osteoporosis Gwynedd a Môn a bydd y casglu'n parhau tan ddiwedd y flwyddyn.

Diolchwyd i Martin a Glenys, y 'Veg Van' am eu rhodd o ffrwythau a llysiau ac enillwyd hwy gan Selwyn Williams.

Yn dilyn ei bererindod o Gastell Caernarfon ar hyd arfordir Llŷn hyd Ynys Enlli, rhoddodd John Cantrell sgwrs a ffilm i'r aelodau yn dangos harddwch Pen Llŷn. Rhoddwyd y te gan Rose a John Cantrell. Enillwyd y raffl gan Selwyn Williams, Ray Bower, Betty Roberts, Morfudd Jones a Megan Morris.

DATHLU PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau mawr i Miss Morfudd Hughes Jones, Bryn Hyfryd, ar ddathlu pen-blwydd arbennig iawn yn ystod y mis. Gobeithio iddi fwynhau ei diwrnod a phob bendith ac iechyd i'r blynyddoedd a ddel.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

Caffi Caban

ar Agor

9 y bore tan 4 y pnawn - 7 diwrnod yr wythnos

Gwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Gaffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail

www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org

01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

caban

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

EGLWYS SANT GABREAL. Cynhaliwyd yr Ŵyl Ddiolchgarwch ddydd Sul, 14 Hydref.

Bore Sul cawsom wasanaeth o Gymun Bendigaid dwyieithog am 9.30 gyda'r Rheithor, y Parch Robert Townsend, ac yn yr hwyr am 6.00 o'r gloch cawsom Bregeth y Cynhaeaf gan y Parchedig Ganon Tegid Roberts. Yr organydd yn y bore oedd Iwan Williams ac yn yr hwyr, Dr William Munro. Y darllenwyr yn y gwasanaethau oedd Mrs Valerie Kressman a Mrs Dorothy Jones yn y bore, a Miss Meira Williams a'r Parchedig Robert Townsend yn yr hwyr.

Diolch o galon i bawb fu'n gwasnaethu dros yr ŵyl. Cafwyd cefnogaeth dda iawn yn y ddau wasanaeth. Dymuna'r Wardeniaid a'r Rheithor ddiolch i bawb am addurno'r eglwys mor hardd ac am y rhoddion o lysiau, ffrwythau a'r blodau hardd dros yr ŵyl.

NOSON O BINGO. Nos Lun, 15 Hydref, cynhaliwyd noson o Bingo yn yr Ysgol Gymuned. Diolch am y rhoddion ariannol ac am y rhoddion at y raffl a'r gwobrau. Diolch i bawb am eich cefnogaeth i'w gwneud yn noson mor llwyddiannus. Roedd yr elw yn mynd i gronfa Eglwys Sant Garbeal. Diolch hefyd i Margaret ac Ann o Lanberis am alw'r rhifau allan.

Enillwyr y Raffl Fawr oedd: *£50*: Bethan, Bod Elan, Cwm-y-glo; *£30*: Mrs Sandra Thomas, Gwylfa, Cwm-y-glo; *£20*: Mrs Gwen Williams, 2 Maes Padarn, Llanberis; *Tocyn Petrol £15*: Mrs Doreen Roberts, 50 Maes Padarn, Llanberis; *Tocyn Cig £10*: Mrs Gwen Owen, Cerney, Llanrug; *Tocyn Iceland £10*: Mrs Davies, 14 Ffordd Capel Coch, Llanberis; *Tocyn Cig £10*: Mrs Davies, 10 Tal-y-Bont, Llanrug; *Potel (Irish Meadow)*: Siop Eryri, Caernarfon; *Bocs Siocled*: Mrs Thomas, Dolwar, Rhes Rhythallt, Llanrug; *Potel Win*: Mrs Dora Evans, 3 Bryn Hyfryd, Bethel; *Bocs Nwyddau*: Catherine, d/o Cerrig yr Afon, Y Felinheli; *Potel Win*: Mr Dafydd Bromley, 47 Trem Eryri, Llanfairpwll; *Nwyddau Molchi*: Mrs Kathleen Jones, Kermand, Llanrug; *Bocs Ffrwythau*: Jackie Ellis, Awelon, Cwm-y-glo; *Bocs Llysiau*: Mrs Hazel Morris, 13 Maes Padarn, Llanberis; *Bocs Nwyddau*: Mr Derek Roberts, 50 Maes Padarn, Llanberis; *Potel Win*: Mrs Roberts, 6 Tal-y-Bont, Llanrug; *Nwyddau Molchi*: Mrs Valerie Kressman, Bronallt, Cwm-y-glo; *Bocs Llysiau*: Mrs Jane Jones, 4 Disgwylfa Terrace, Llanrug; *Potel Win*: Miss Catherine May Rowlands, Lleifior, Llanrug; *Bocs Nwyddau*: Siop Saffron, Llanberis; *Bocs Llysiau*: Mrs Betty Humphreys, Llanberis; *Nwyddau Molchi*: Helen Vaughan, 41 Maes Padarn, Llanberis; *Bocs Nwyddau*: Mrs Mair Jones, 8 Hafan Elan, Llanrug; *Bocs Nwyddau*: Mr Robert John Williams, 4 Bryn Llwyd, Bangor; *Bocs Llysiau*: Mr Emlyn Morris, 11 Trefeilian, Waunfawr; *Bocs Llysiau*: Monica, 10 Trem Eilian, Brynrefail; *Bocs Brecwast*: Bethan Parri, Hafod, Clwt-y-bont, Deiniolen; *Bocs Ffrwythau*: Mr Gwynfor Roberts, Capel Coch, Llanberis.

Enillwyr y raffl ar y noson y pedwar o Gwm-y-glo), oedd: *Tin siocledi*: Karen Foulkes; *Nwyddau Molchi*: Mrs Margaret Williams, Bryn; *Cacen*: Mr Maldwyn Hughes, 1 Bryn Gro; *Doli wedi'i gwau*: Mrs Hilda Orritt, Morannedd.

Enillwyr y *Tocyn Pêl-droed*: Mrs Dilys Evans, Min-y-don, Brynrefail; Mrs Catherine Roberts, 18 Dôl Afon, Cwm-y-glo; Gwen Townsend, Rheithordy, Llanberis.

Enillydd *pen-blwydd y ddoli* oedd: Mr Derek Roberts, 50 Maes Padarn, Llanberis.

Diolch o galon i bawb am eich cefnogaeth a'ch presenoldeb.

UNDEB Y MAMAU. Cyfarfu'r aelodau yn yr ysgol Gymuned nos Lun, 8 Hydref. Croesawyd pawb gan Mrs Dorothy Jones, Arweinydd y gangen, a chafwyd gwasanaeth byr. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Mrs Gwen Owen a Mrs Menna Roberts. Trafodwyd materion perthnasol gan Dorothya chafwyd adroddiad am y Diwrnod Hyfforddiant a gynhaliwyd ym Mangor yn ddiweddar gan Dorothy a Mrs Joyce Ransom.

Cafwyd sgwrs gan aelod o'r gangen, Mrs Margaret Latham, ar y chwe mis o'r flwyddyn y mae yn ei dreulio yn Orange City, Florida.

Yn gofalu am y lluniaeth oedd Dorothy a Mrs Kath Jones. Rhoddwyd y raffl ganddynt hefyd ac fe'i henillwyd gan Mrs Enid Taylor.

Diolchwyd i Margaret a'r gwesteion gan Mrs Gwyneth Roberts. Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras.

CAPEL Y TABERNACL. Cynhaliwyd Gŵyl y Diolchgarwch ddydd Sul, 21 Hydref, gyda'r gweinidog, y Parch Gwynfor Williams, yn gwasanaethu.

Dydd Llun, 22 Hydref, daeth plant Ysgol Cwm y Glo i'r capel i ddathlu Gŵyl y Diolchgarwch a chymerodd pob un ohonynt ran yn y gwasanaeth. Diolch i'r brifathrawes a'r athrawon am eu hyffordd ac i'r Parch Robert Townsend am ei anerchiad. Diolch hefyd i rieni a ffrindiau a ddaeth i ddathlu gyda'r plant.

YR YSGOL GYMUNED Yn ystod Wythnos Mathemateg Cymru daeth Syrcas Trafeilio Mathworks i gynnal diwrnod o weithgareddau yn yr ysgol. Ewch draw i wefan yr ysgol i weld ychydig o'r hwyl yn yr Albwm.

Mae gennym Gyngor Ysgol newydd y tymor yma. Mae Christopher Hulme, Jasper Clough, Cai Davies, Owen Burnsall, Ben Williams a Catrin Smith yn barod i wrando ar unrhyw gonsyrn sydd gan y disgyblion, ac maent eisioes wedi archebu rhagor o deganau buarth gydag elw'r Siop Ffrwythau.

Cawsom wasanaeth Diolchgarwch hyfryd yng Nghapel Tabernacl gyda holl ddisgyblion yr ysgol yn cymryd rhan. Diolchwn am gael defnyddio'r Capel, ac i Mr. Townsend am ddod atom i annerch y plant.

Diolchwn hefyd i Mel Fôn am ddod i gynnal sesiwn ar Ddiogelwch y Ffyrdd yn yr Urdd. Roedd y plant wrth eu bodd yn 'dreifio' y car ar y cyfrifiadur!

Dan Gysgod y Graig

Mae dros ganrif bellach ers amser y cload-allan mawr yn Chwarel y Penrhyn. Dyna'r amser y daeth y byd i gyd i glywed am, a magu parch mawr tuag at, aclodau Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru. Ond, er mai yn Nyffryn Ogwen y daeth yr Undeb i enwogrwydd, yn Nyffryn Peris y ganwyd hi.

Roedd chwarelwyr gogledd Cymru wedi bod yn anfodlon gyda chyflwr eu cyflogaeth ers dechrau chwe degau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Gwelent yr holl anghyfiawnder yn y chwareli, eu cyflogau yn lleihau – yn aml iawn yn cael ei haneru fel roedd y farchnad lechi yn crebachu a'r gwerthiant yn mynd i lawr. Fedrai'r chwarelwyr wneud dim i'w hamddiffyn eu hunain.

Ond, yn nechrau 1874, roedd chwarelwyr Dyffryn Peris wedi cael digon a phenderfynwyd cychwyn Undeb.

Felly, dan gysgod craig fawr rhwng y Llwyncoed a Llyn Padarn, a ddaeth wedyn i'w hadnabod fel Craig yr Undeb, fe gychwynnodd y chwarelwyr Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru.

Mae sôn ar lafar gwlad fod rhai o'r perchnogion wedi ariannu ac anfon meddwon o Gaernarfon i'r pwyllgorau, er mwyn creu trafferth a chael y chwarelwyr i dorri'r gyfraith. Ond ychydig iawn o drafferth a gafwyd.

Bron yr un wythnos ac y cychwynnwyd yr Undeb fe weithredodd Capten Cragg, Rheolwr Chwarel Glynrhonwy, Llanberis, pan ataliodd gant ac ugain o ddynion o'u gwaith am dair wythnos. Dyna ddechrau'r frwydr.

Cyfarfu'r perchnogion yn y Royal Hotel, Caernarfon, sef Gwesty'r Celt heddiw. Y canlyniad oedd anfon rhybudd i bob chwarel yn datgan eu gofid mawr am yr Undeb a'r holl aflonyddwch a oedd yn beryg o ddigwydd rhwng y perchnogion a'r chwarelwyr o ganlyniad i'w sefydlu. Ofnent y byddai'n sicr o aflonyddu ar eu hawliau i oruchwylio'r gweithwyr. Ofn i'r gweithwyr gael hunanbarch oedd yr ofn mwyaf, ac felly dechrau cwestiynu hawliau'r perchnogion a'r oruchwyliaeth.

Un peth a synnodd pawb oedd cael ar ddeall fod y capeli a'r eglwys yn cefnogi'r perchnogion i'r carn. Roedd yr Undeb yn anfoesol gan bobl barchus y capel, wel yn y dechrau beth bynnag.

Pan ddaeth diwrnod gosod bargen yn Chwarel Dinorwig ar 18 Mehefin, 1874, fe gafodd pob chwarelwr ddewis: cael gwaith neu cael Undeb.

Dewisodd dwy fil dau gant o ddynion yr Undeb, pob gweithiwr yn y chwarel namyn un ar ddeg. Ateb yr oruchwyliaeth oedd atal gwaith yr holl ddynion am bum wythnos.

Ond, fe ailagorwyd y chwarel yn fuan gyda'r wybodaeth y câi'r holl ddynion ddychwelyd os oeddent yn fodlon llofnodi papur oedd â deg amod arno, yn rhoddi yr hen hawliau yn eu holau i'r oruchwyliaeth ac yn nodi hefyd nad oedd yr Undeb i ymyrryd nac anghytuno â'r oruchwyliaeth oedd yn rhedeg y chwarel. Roedd hwn yn gyfnod llewyrchus ac roedd y galw am lechi yn uchel a'r elw, felly, ar ei lefel uchaf.

Nid oedd llawer o'r chwarelwyr yn malio a agorai Chwarel Dinorwig am yr eildro ai peidio. Roedd digon o waith i'w gael yn y chwareli eraill yn Nantlle, Blaenau Ffestiniog, Corris, Chwarel y Penrhyn a chwareli eraill Dyffryn Peris. Dyma pryd y daeth gweithwyr Ynys Môn i'r chwarel i gasglu eu celfi a mynd yn eu holau adref. Roedd digon o waith yn y cynheaf ym Môn iddynt, ac fe aeth rhan helaeth ohonynt i weithio ar y rheilffyrdd wedyn.

Rhaid sôn yma hefyd am gefnogaeth chwarelwyr Chwarel y Penrhyn i chwarelwyr Dinorwig. Casglwyd dros ddau gant o bunnoedd yn gymorth i'r bechgyn i fyw dros yr amser cythryblus hwnnw. Aeth yr Arglwydd Penrhyn yn gandryll pan glywodd am gefnogaeth ei weithwyr a rhoddodd orchymyn pendant fod yn rhaid iddynt roi'r gorau i gyfrannu at y gronfa. Ond, cario 'mlaen wnaethant gan gasglu cyfanswm o saith gant a deg ar hugain o bunnoedd i gynorthwyo eu cyd-chwarelwyr.

Er y bu'n rhaid i'r Faenol blygu i hawliau'r gweithwyr a'u derbyn fel Undebwyr, wnaeth hynny ddim tawelu'r dyfroedd yn llwyr.

Yn 1885–86 daeth cload-allan eto yn Chwarel Dinorwig, pan ddaeth Vivian yn Rheolwr a Goruchwyliwr Cyffredinol yno. Rhoddai hyn ef mewn sefyllfa lle roedd ei air o yn ddeddf. Sais a Thori rhonc oedd Vivian ac yn llawdrwm iawn ar y sawl a dramgwyddai, yn ei feddwl cul ef, yn ei erbyn.

Un enghraifft o hyn oedd dau chwarelwr o Fethel a gollodd eu gwaith oherwydd eu daliadau radicalaidd. Y ddau oedd William Parry, Gorffwysfa, sef taid yr Athro W. J. Gruffudd, a William Gruffudd, Glan Llyn.

Ar Sadwrn, 31 Mehefin 1885, cafodd pawb orchymyn i fynd â'u holl eiddo personol adref cyn hanner dydd. Yr unig ffordd y câi'r gweithwyr eu gwaith yn ôl oedd trwy fynd i'r Offis Fawr a gofyn amdano, wedyn datgan eu parodrwydd i dderbyn y rheolau newydd a wnaed gan Vivian.

Ymateb y chwarelwyr oedd disgyn wrth y cannoedd ar yr Offis Fawr, lle roedd Vivian yn disgwyl amdanynt. Dywedwyd wrth Sarjant Rowlands, y plismon chwarel, am fynd i mewn i'r swyddfa i ddweud wrth Vivian fod ganddo ddeng munud i'w chlirio hi o'r lle. Fe aeth Vivian ar frys am y Felinheli, gan ddal dryll llaw yn dynn wrth ei ochr.

Rai dyddiau wedi'r digwyddiad yn yr Offis Fawr, fe gafwyd cyfarfod yng nghysgod Craig yr Undeb a phenderfynwyd i gael W. T. Parry, a ddaeth i amlygrwydd adeg Streic Fawr y Penrhyn, i ysgrifennu ac ymddiheuro i Vivian, ond gyda'r amod na châi unrhyw un ei gosbi na chwaith ei erlid wedyn. Mae adroddiad yn rhoddi hanes y cyfarfod wedi ei gyhoeddi yn *Y Werin*, 2 Ionawr 1886.

Ni thawelodd y dyfroedd am gryn amser, gan nad oedd Vivian yn credu y dylai unrhyw un ond y fo gael dweud beth oedd yn mynd ymlaen yn y chwarel.

Mae'r byd i gyd yn gwybod hanes yr Undeb yn nhair blynedd gyntaf yr Ugeinfed Ganrif. Y graith a rwygodd Ddyffryn Ogwen oherwydd lord bach hunanbwysig a styfnig a oedd yn benderfynol o gael ei ffordd ei hun.

R. Elwyn Griffith

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol

27 Stryd y Bont, Caernarfon
(01286) 672727

a hefyd ein swyddfa newydd

8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn,
Parc Menai, Bangor
(01248) 355055

Dewch atom am gyngor ynghylch yswiriant a materion ariannol

Awdurdodir a rheolir gan yr
Awdurdod Gwasanaethau Ariannol

H. E. HUGHES
A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS
FFôn: 870444

- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

Dyddiadur Evan Jones Tŷ'r Mawn

Dechreuaf y mis hwn yn y flwyddyn 1906.

19 Ionawr, 1906: Marw William Parry Jones, Bron Wyddfa, Nant Uchaf.

20 Ionawr: Marw Thomas Currie, Snowdon Street.

26 Ionawr: Priodi Evan Roberts, Holyhead.

2 Chwefror: Marw John Griffith, Werglodd Ddu.

28 Mawrth: Claddu Mary, gwraig Dafydd Davies, Newton Street.

31 Mawrth: Claddu Michael Pritchard, Pentre Castell.

3 Ebrill: Claddu Lily Wyn, Gilfachddu.

11 Ebrill: Marw Mrs Owen, Hafod Uchaf, a'i chladdu dydd Sadwrn Pasg, Ebrill y 14eg.

18 Ebrill: Robert Parry, Lodge, wedi crogi ei hun yn ei ystafell.

24 Ebrill: Claddu Mrs Owen, Gilfachddu.

30 Mai: Priodi Owen Williams, Pen Ceunant, ar ddydd Mercher.

3 Mehefin: Marw Robert Elias Roberts.

8 Mehefin: Priodi Thomas Jones, mab William Jones, Llwythwr.

7 Gorffennaf: Claddu gŵr Ann, Tŷ Gadlas.

4 Medi: Priodi Bob Davies, Pentre Castell.

5 Medi: Priodi William Griffith Williams, Cwm-y-glo.

13 Medi: Priodi John, Erw Rodyn.

5 Hydref: Priodi David Ellis Evans.

28 Tachwedd: Priodi Griffith Jones, Ty'n Twll, Nant Uchaf.

30 Tachwedd: Priodi Joseph Parry, Llainwen.

13 Rhagfyr: Claddu Hugh Jones, Cwm-y-glo.

14 Rhagfyr: Priodi Griffith R. Williams, Tŷ Newydd.

Am nad oes dim wedi ei ddynodi am Hydref 1907 fe af ymlaen i'r flwyddyn 1919, sef fel y dywedai Nain, Blwyddyn y Flw Mawr.

14 Chwefror, 1919: Priodi John Michael Jones, Ceunant Street.

15 Chwefror: Claddu gwraig Jeffery Roberts, Llanberis.

2 Mawrth: Marw David Owen, Gors Fawr, yn Ffrainc hefo soldiwrs.

5 Mawrth: Claddu merch i William Jones, Tan Graig.

12 Mawrth: Priodi W. R. Jones, Victoria Villa, ac hefyd marw Elwyn Hughes, Bron y Graig.

25 Mawrth: Cael hyd i Joseph a Jane Edwards, Snowdon Street, Llanberis, wedi boddi yn Afon Seiont, a cael eu claddu ar ddydd Llun, y 31, yn Macabela, Pen-y-groes.

18 Ebrill: Marw gwraig Owen Jones, Craig y Don, Llanberis.

19 Ebrill: Marw Brymar Williams, Saer.

21 Mai: Marw John G. Jones, Maenllwyd.
28 Mehefin: Claddu gwraig Edward Roberts, Summer Hill, ac hefyd claddu gwraig Owen Roberts, Newton Street.
7 Gorffennaf: Claddu John Jones, Cae Athraw.
27 Awst: Claddu Barrow Williams, Llandudno.
31 Awst: John Roberts yn pregethu yn Capel Coch ar y testun: Ioan, 14 penn. 6 adn, ac yn y nos: Mathew, 8 penn. 11–12 adn. Y Sasiwn yn dechrau am 2 o'r gloch.
13 Medi: Claddu Ann Williams, Ty'n Gadlas, gynt o Charlot Street, Llanberis.
16 Medi: Claddu John Roberts, Yanky Street, Llanberis.
22 Hydref: Claddu Richard Jones, Turner Street.
27 Tachwedd: John Trevor Williams, Blaen y Ddôl, yn cael ei ladd wedi syrthio o top ei fargen i'r gwaelod yn S.B.
29 Rhagfyr: Claddu William Williams, dod ag ef o Lerpwl i Lanberis.
31 Rhagfyr: Claddu merch i Hugh Parry, Llainwen.

R. ELWYN GRIFFITH

Ar Ben Arall y Lein

Balconi Melin y Cim – cyn y 'Dolig, efallai!

Da o beth yw nad oes un tymor pysgota 'run fath, ond un peth sy'n gyson drwy'r blynyddoedd yw cwynion y 'sgotwrs. Doedd eleni ddim gwhanol! Yn ystod tymor 2006, dim dŵr ac felly dim eog a sewin oedd y testun. Eleni roedd digon o ddŵr ond y gŵyn oedd dim pysgod. Ond fel y carlamai'r flwyddyn at ddechrau Medi roedd sibrydion o Fae Caernarfon a'r Fenai bod nifer sylweddol o eog wedi cyrraedd oddi ar yr arfordir. Ond, wrth gwrs, y gŵyn, erbyn hyn oedd fod y tywydd gwlyb wedi pasio a'r afonydd yn isel unwaith eto – felly dim pysgod!

I'r rhai sydd gyda gwybodaeth am fywyd yr eog a'r sewin yn y rhan yma o'r wlad, mae sioe arbennig i'w mwynhau wrth edrych dros y Fenai, unai o ffordd Foryd neu, gwell byth, wrth sefyll ger Clwb Hwylio, Caernarfon. Yr amser i fynychu yw rhyw bum awr ar ôl penllanw, neu mewn geiriau eraill, awr cyn distyll. Pan fydd yr eog wedi cyrraedd o'i siwrna hir ac yn ogleuo llif y Seiont fe fydd neidio di-baid am gyfnod a all ymestyn am rhyw ddwy awr. Mae yn un o arddangosfeydd gwyrthiol byd natur, yn hollol ddi-dâl ac ar ein trothwy. Faint fydd yno'n gwylio – wel neb bron ond y ni fel 'sgotwrs.

Er mwyn codi mwy o ymwybyddiaeth o beth sy'n digwydd yn erwau'r pysg yn ein bro rwy'n fwy na bodlon trefnu i fynd gydag unrhyw un i ddangos yr uchod – ond wrth gwrs rhaid aros nawr hyd at haf 2008.

At ganol Medi fe gafwyd cyfnod go wlyb ble cafwyd llif go dda. Mewn rhyw bedwar diwrnod fe ddaliwyd, ar fy nghownt, i 27 o eogiaid rhwng 6–9 pwys. Be sy'n dda ydi gweld bod mwy o ddefnydd yn cael ei wneud bob tymor o'r enwair bluen.

Mae'n sicr fod llawer o'r darllenwyr wedi sylwi fod meysydd parcio'r cymdeithas wedi bod yn llawn ddydd ar ôl dydd. Arwydd sicr fod digon o eogiad o gwmpas.

Dyma nifer o'r rhai llwyddiannus – Dr Robin Parry, Llanberis: gyda phedwar, rhyw un neu ddau wedi eu cadw at y Nadolig ond rhai hefyd wedi cael eu dychwelyd i'r afon, i gyd rhwng 4–7 pwys. Dafydd Davies, Caernarfon: dau tua 7 pwys yr un. James Carr, Llanrug: un am 7 pwys. Malcolm Owen, Caernarfon: un am 8 pwys. Gwyn Jones, Caernarfon: 4 rhwng 6–8 pwys. Wyn Parry, Caernarfon: dau, y mwyaf yn 9 pwys – y trymaf hyd yn hyn. Hefyd gwelais sewin 7 pwys a ddaliwyd gan Wyn yn Mhont Rug, dyma'r sewin trymaf ers tro byd. Clifford Thomas, Feliheli: dau, 4 a 6 phwys yr un. Evan Humphries, Caernarfon: dau am 7 pwys yr un. Minnau, wrth gwrs, hefo un am 6 phwys, ia gyda phluen o Lyn Harri Parri, pluen *Cascade* maint dwbwl 8. Dwi'n cymryd archebion am y bluen ardderchog yma – ond mae cymaint yn disgwyl fel bod y rhestr aros yn faith!!

Drosodd ar y Llyfni mae pethau wedi bod yn galonogol iawn, yn enwedig a dau dymor go symol wedi bod. Eleni roedd heidiau o sewin i'w gweld yn y pyllau o bont Pontllyfni i lawr at y môr, nid wyf wedi gweld cymaint ers o leiaf ddeng mlynedd.

Mae cryn waith wedi ei wneud dros gyfnod o chwe blynedd i adnewyddu cynefinoedd mannau claddu yn ardaloedd Talysarn, Nantlle a Drws y Coed. Rhaid hefyd i 'sgotwrs chwarae eu rhan a pheidio â chadw gormod o bysgod i'w rhoi yn y rhewgell. Y ffordd orau yw cadw beth rydych yn bwriadu ei fwyta a rhoi'r gweddill yn ôl, er mwyn iddynt gael cyfle i fwrw grawn a sicrhau rhediadau da at y dyfodol.

Eto eleni ychydig iawn o dorgochiaid sydd wedi dangos eu hunain. Rwyf yn dyst o hyn gan fy mod wedi 'sgota Padarn gryn dipyn heb weld yr un. Ond, ar y llaw arall, mae'r brithyll brown wedi bod yn ardderchog – cefais un dros 3 phwys ar 6 Medi, dyma'r brithyll trymaf imi ei weld na chlywed amdano o'r Llyn yn fy nghyfnod cysylltiedig â'r Gymdeithas – record tybed – ond mae'n siŵr y bydd rhywun yn gwybod yn well. Rwyf wedi gwneud trefniadau i'r brithyll yma gael ei stwffio. Cefais wers byd natur arall gan fod y 'sgodyn yma wedi bod yn bwyta'n drwm ar lysywen bendoll – dyma'r tro cyntaf i mi sylweddoli fod rhain ar gael yn Llyn Padarn.



Dafydd Davies, Caernarfon, hefo eog 7 pwys.

* * *

Un peth bach arall – Melin y Cim. Wedi blynyddoedd o adrodd hanes y datblygiad, mae yn awr yn barod, gyda'r dodrefn yn cael eu harchebu. Efallai y cawn eistedd ar y balconi yn edrych dros Abermenai cyn y flwyddyn newydd – yng nghanol yr eira, mae'n siŵr.

* * *

Mae cryn gyfeirio wedi bod yn y golofn y mis yma am y Fenai. Yn llyfr ardderchog y diweddar Gwyn Parri Huws, *Y Fenai*, dyma sy'n cael ei ddweud,

Is nef nid oes un afon
Lased a hardded â hon.

ANHYSBYS

Hwyl am y tro.

HUW PRICE HUGHES.

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

CYMDEITHAS UNDEBOL LLANBERIS. Cafwyd dechrau gwych i dymor newydd y Gymdeithas nos Fawrth, 9 Hydref. Y gŵr gwadd oedd Mr Neville Hughes, Bethesda, aelod o'r grŵp 'Hogia Llandygai' gynt. Cawsom sgwrs a chân ac atgofion lu am yrfa lwyddiannus yr hen Hogiau annwyl. Diolch o galon am noson ddifyr. Llywyddwyd y noson gan y Parchedig John Pritchard a rhoddwyd y diolchiadau gan Mrs Vera Griffiths.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, 13 Tachwedd am 7.00 o'r gloch yn Festri Capel Coch yng nghwmni Mr Dafydd Jones, Penrhyndeudraeth, pryd y cawn sgwrs am 'Ddarganfod Metel' a datganiad ar y ffidil. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

DYMUNA Dwynwen ddiolch o galon i'w theulu a ffrindiau i gyd am yr holl gardiau, anrhegion a blodau ar ei phen-blwydd arbennig. Diolch hefyd i Eiddwen am drefnu'r parti i'r teulu.

DYMUNA Annie Pritchard, 1 Padarn Road, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati pan yn aros yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Eryri a hefyd ar ôl iddi ddod adref.

Diolch hefyd i'r ddwy ysbyty am y caredigrwydd a'u gofal arbennig ohoni. Diolch o galon i bawb.

LLONGYFARCHIADAU i Tomos Parry, Rhiwenfa, ar basio ei arholiad piano Gradd 8 gyda theilyngdod. Diolch o galon i Mrs Carys Jones, Penisarwaun, am ei hyfforddi.

DYMUNA Mrs Betty Jones, Y Berllan, Ffordd Capel Coch ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn ddiweddar.

(Parhad ar dudalen 19)

I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo
MENAI SEWING MACHINE CENTRE
21 Stryd Fawr PORTHAETHWY
Ffôn: **(01248) 714043**
neu **Caernarfon**
Ffôn: **(01286) 674520**
Edau, Nodwyddau ac ati mewn stoc

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
Oddiwrth-MARK
MARQUES ANTIQUES
44 Stryd Fawr Llanberis
Mobile 0783 3571689
DODREFN • BOCSIS
LLUNIAU HEN AR WERTH
YMGASGLIADAU O BOB MATH
ATGYWEIRIO DODREFN

CHWILOTA

PYTIAU O'R FRO – A THU HWNT

Er fod cymaint o sôn wedi bod am Ŵyl Cadair Dinorwig mewn ôl-rifynnau o'r *Eco*, ac er gwneud apêl am wybodaeth ynglŷn â'r gadair a luniwyd gan Marged uch Ifan, ddaeth dim un ymateb i gynnwys colofn y mis diwethaf. Peth anarferol iawn.

Ond mae pigion yn parhau i ddod i'm sylw ynglŷn â'r hanesion am eisteddfodau cynnar Urdd Gobaith Cymru.

Mae'r llun yn dangos aelodau cangen Llanrug o'r Urdd, a hynny yn ystod y 1920'au. Mae'r llun wedi ei dynnu o'r tu allan i Dyddyn Rhuddallt ym Mhontrhythallt, cartref Tom Jones, y garddwr, ac un a fu'n hybu gweithgaredd yr Urdd yn y pentref. Llwyddwyd i gael enwau bron iawn y cyfan o'r rhai sydd yn y llun; mae'r mwyafrif ohonynt wedi marw erbyn heddiw, ond credir fod tua pump neu chwech yn fyw. Anfonwch air os oes gennych unrhyw atgofion am yr eisteddfodau y bu aelodau'r gangen hon yn cystadlu ynddynt.

Ffrwythau Cynhenid

Yn ystod y mis a aeth heibio cynhaliwyd Gŵyl Afalau yng Ngerddi Seiont, Pontrug. Roedd arddangosfa o wahanol fathau o afalau i'w gweld, arbenigwr i drafod afiechydon a phroblemau tyfu afalau, a chyfle i droi'r cnydau trwm o afalau a gafwyd y tymor hwn yn sudd. Roedd hefyd nifer o goed afalau 'Cymreig' yn cael eu harddangos yno; hynny yw, afalau a 'ddarganfuwyd' o'r newydd mewn gwahanol ardaloedd o Gymru. Daeth y ffrwythau hyn i sylw'r arbenigwyr yn dilyn y darganfyddiad o fath arbennig o afal yn tyfu ar Ynys Enlli. Mae Afal Enlli bellach ar gael i'w brynu'n fasnachol.

Ymhlith yr afalau roedd 'Afal Trwyn Mochyn' o Fôn, a'r enw yn disgrifio'i siâp i'r dim. Yn cael eu harddangos hefyd roedd ffrwythau eraill, megis eirin a gellyg. Y coed gellyg aeth â'm sylw, oherwydd eu henwau oedd 'Brenhines yr Wyddfa'. Cawsant eu darganfod yn y fro hon, a dyna arwyddocad yr enw.

Yn ôl yr arddangoswr, fe ddarganfuwyd tair o goed gellyg yn tyfu mewn gardd bwthyn ar lethrau'r Wyddfa uwchben pentref Llanberis. Doedd dim disgrifiad o'r ellygen arbennig hon i'w gael mewn unrhyw un o'r llyfrau ffrwythau arbenigol, ac felly, roedd math newydd wedi ei 'ddarganfod'. Tybed faint o goed eraill sy'n dal i ffrwytho mewn hen berllannau yn y fro. A fydd hi'n bosibl mewn blynyddoedd i ddod brynu coed ffrwythau o'r enw Eirin Fachwen neu Afal Peris? Peidiwch i gyd â rhuthro allan i'r ardd gefn, oherwydd anaml iawn y daw ffrwyth 'newydd' i'r amlwg, yn ôl yr arbenigwr!

Hogia Llanberis yn mentro

Rhan o'm gwaith yn yr Archifdy yng Nghaernarfon yw catalogio deunydd sy'n cael ei gyflwyno yno i'w gadw'n ddiogel. Dros y misoedd diwethaf bûm yn ceisio rhoi trefn ar gasgliad enfawr o bapurau Stâd Gwydir, a drosglwyddwyd i Gaernarfon gan y teulu o Swydd Lincoln. Prin iawn, fel y gellid disgwyl, yw'r cyfeiriadau at y fro hon. Mae'r mwyafrif o'r dogfennau yn ymwneud â gwahanol eiddo ym mhlwyfi Dyffryn Conwy a gorllewin yr hen Sir Ddinbych. Ond yn ystod y mis diwethaf, wrth geisio didoli rhai dogfennau a achubwyd o dân, deuthum ar draws cyfeiriad at rai o Lanberis. Roedd ymylon a rhannau o'r tudalennau wedi eu llosgi ac wedi eu duo'n arw gan fwg, ond roedd yn bosibl darllen rhai manylion.

Y dyddiad ar y ddogfen oedd 8fed o Fawrth 187... Yna daw'r enwau, a rhan o'u cyfeiriadau: William Williams ...betw..., John Hughes, Blaenyddol, Howell Davies ...bedw, i gyd o Lanberis, yn cymryd meddiant o lês chwarel o'r enw Coytmor ym mhlwyf Dolwyddelen. Roedd y chwarel yn cynnwys 66 acer i gyd. A dyna'r cyfan – roedd gweddill y dudalen wedi ei llosgi. Pwy oedd yr hogia hyn o Lanberis a fentrodd agor chwarel lechi yn Nolwyddelen, a beth oedd eu hynt a'u helynt wedyn tybed?

Ffynnon Cegin Arthur

Mae'r gwaith wedi cychwyn ar dorri'r coed yn y goedwig sy'n amgylchynu'r hen ffynnon. Tybed a yw'r cwmni sy'n gwneud y gwaith yn ymwybodol o fodloaeth yr hen ffynnon, ac a wneir ymdrech i geisio diogelu hynny o'i holion sy'n parhau? Oes rhai o drigolion Penisarwaen am gadw golwg ar y datblygu yno?

Colli Adeiladau

Yn achlysurol ceir sôn am adeiladau arbennig dan fygythiad oherwydd datblygwyr. Collwyd nifer o gapeli'r fro dros y blynyddoedd. Cafodd amryw eu troi'n dai, a gwnaethpwyd hynny mewn modd oedd yn cadw cymeriad yr hen adeilad. Dymchwelwyd eraill, a chodi tai modern ar eu safleoedd. Dichon mai digon digymeriad oedd rhai ohonynt, ac mai eu dymchwel oedd y dewis gorau. Mae eraill yn haeddu eu cadw oherwydd eu hadeiladwaith nodweddiadol. Cafwyd dwy enghraifft o hyn yn Llanrug yn ddiweddar.

Mae'r hen gapel Bedyddwyr ar ochr y ffordd fawr ger Groeslon Marc wedi ei ddymchwel. Roedd yr adeilad wedi bod yn ddolur llygad ers blynyddoedd, ac wedi peidio â bod yn gapel ers cyn cof. Gweithdy i hen Gyngor Gwyrfai a fu am y rhan helaethaf o'i oes. Prin bod achos dadl ynglyn â'i ddymchwel.

Ar y llaw arall, mae safle hen gapel Hermon (gyferbyn â'r Sefydliad Coffa) hefyd i'w ddatblygu. Roedd cais cynllunio yn gofyn am addasu'r capel yn dŷ ac adeiladu tŷ arall yn yr ardd wrth ei ochr. Gwrthodwyd y tŷ yn yr ardd. Daeth y datblygwr yn ôl gyda chais arall i ddymchwel y capel ac adeiladu dau dŷ ar y safle. Fe'i caniatawyd. Felly, bydd adeilad nodedig yn diflannu yn fuan o bentref Llanrug.

Oes enghreifftiau tebyg yng ngweddill ardaloedd yr *Eco*?

Granvillefab

Cafwyd cais ynglŷn â gŵr a'i galwai ei hun yn Granvillefab. Yr oedd iddo gysylltiadau agos â'r fro hon, er mai brodor o ardal y Cilgwyn oedd yn wreiddiol. Bu'n byw a gweithio yn America – dyna sut cafodd ei enw barddol. Ysgrifennodd nifer o gerddi, a gosodwyd rhai ohonynt i gerddoriaeth gan neb llai na'r enwog Joseph Parry, cyfansoddwr Hywel a Blodwen'. Yr oedd gan Granvillefab ferch o'r enw Blodwen, ond efallai mai cyd-ddigwyddiad oedd hynny. Byddai'n ddiddorol cael unrhyw wybodaeth amdano ef a'i deulu.

O'r Wasg

Llongyfarchiadau i Idris Thomas am ei gyhoeddiad diweddaraf *Gwynfyd Gwaun Gynfi*, sy'n croniclo hanes crefyddol a chymdeithasol un rhan arbennig o fro'r *Eco*. Mae'n llyfr gwerth pori ynddo, ac yn llawn gwybodaeth am y cymeriadau a fu'n gysylltiedig â'r achos yn Llandinorwig. Prynwch o yn hytrach na'i fenthyca!

(Parhad ar dudalen 16)

Cangen Llanrug o'r Urdd yn y 1920'au

Rhes gefn (o'r chwith): Dick Francis Williams, Katie, Mair Williams, Myfi Davies, Evelyn Pritchard, Eirianwen Pritchard, Katie Wyn Jones, ?, Dora Evans, Geinwen Thomas ac Eluned Roberts.
Rhes ganol (o'r chwith): Emrys Owen, Elizabeth Jones, Meirwen Roberts, ?, Buddug Williams, Gwladys Medwen Jones, Mary Pritchard, Megan Roberts, Nellie Williams, Diana Whiteside Jones, Gwilym Frank Hughes.
Rhes flaen (o'r chwith): Alf Jones, Myrddin Parry, Meurig Owen, Meinir Thomas, Emrys Williams.

Olion y Gymraeg
Yn ystod y mis treuliais gyfnod yn crwydro'r Gororau, gan ddilyn Clawdd Offa o Drefyclo yng Nghymru dros y ffin i dde Swydd Amwythig. Mae'n syndod faint o enwau Cymraeg sy'n aros yno, a ninnau'n tueddu i feddwl fod hyd yn oed yr hen Sir Faesyfed wedi colli ei Chymraeg ers rhai canrifoedd. Roedd dwy eglwys blwyfol yn weddol agos i'r Clawdd yn y cyffiniau hyn – Llanfair Waterdine (sy'n golygu eglwys Mair ger y dŵr!) a Betws y Crwyn, un o'r ychydig blwyfi yn Lloegr sydd ag enw uniaith Gymraeg. Does dim Deddf Iaith yno sy'n mynnu fod popeth yn ddwyieithog!

Yr hyn sy'n nodweddiadol o'r ddwy eglwys yw'r ffaith fod enwau ffermydd y ddau blwyf wedi eu cofnodi ar y seddau o'u mewn – a llawer ohonynt yn enwau Cymraeg. Yn Llanfair hefyd , mae arysgrif Gymraeg ar ran o'r allor, yn cofnodi rhodd gan un o'i chyn-reithoriaid. Ac yng nghanol yr holl Gymraeg mewn eglwys yn Lloegr, ysgrifennais innau fy sylwadau yn Gymraeg ar y llyfr ymwelwyr!

Roedd rhan o Lwybr Clawdd Offa yn mynd yn agos iawn at bentref bychan o'r enw Newcastle, yn nyffryn afon Clun. Roeddwn eisoes wedi sylwi ar y Map Ordnans fod dwy fferm gyfagos yn cario enwau Cymraeg, sef Maes y Garnedd a Rhiw'r Ffos, ond syndod o'r mwyaf oedd gweld dau dŷ unllawr newydd sbon wedi eu hadeiladu yn y pentref gyda'r enwau Bwthyn a Tŷ Gwyn. Mae'n rhaid fod yr ardalwyr yn fwy ymwybodol o'u Cymreictod na llawer i ardal yng Nghymru. Fe fydd yn rhaid ailymweld â'r ardal hon eto rywbryd...

A dyna'r cyfan am y mis hwn. Pytiau yn unig, ond digon o gyfle i chi ymateb gyda gwybodaeth neu sylwadau.

Cofiwch anfon unrhyw ymholiadau mewn da bryd i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (Ffôn: 01286 673515).

CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

Cofnodion Medi 2007
Cofnodion cyfarfod nos Iau y 18fed o Hydref, 2007.

Presennol ac Ymddiheuriadau
Ward Padarn: Gavin Allsup, Elwyn Davies (Cadeirydd), Derek Jones, Douglas Pritchard, Helen Sharp, Trystan Thomas,
Ward Peris: Iola Owen, Gwenda Roberts
Ymddiheuriadau: Barry Davies, Emlyn Baylis, Fred Owen.

Datgan Buddiant
Dim.

Cadarnhau Cofnodion
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fercher y 3ydd o Hydref, 2007. Cynnig ac eilio: DJ / DP.

Materion yn Codi o'r Cofnodion
- Adroddwyd fod peth o'r gwaith o dwtio a thorri tyfiant wedi ei wneud rhwng Llanberis a Phen-llyn, ond nid y cyfan. Yn ôl nodyn gan BD roedd coed oedd ar dir preifat heb eu torri. Ychwanegodd BD ei fod hefyd wedi ailgodi'r mater o graffiti yn arosfan bws y Nant efo CG.
- Tir Pont Fictoria. Cafodd y Clerc ar ddeall nad oedd Cwmni Adwy wedi rhoi caniatâd i godi arwyddion masnachol ar y tir yma, sydd bellach yng ngofal y Cyngor yma. Cytunwyd fod angen gofyn i'r cwmnïau dynnu'r arwyddion, 4 i gyd, i lawr. Cynnig ac eilio: GR / DJ.
- Holwyd a oedd gan CG ganllawiau ynglŷn ac arwyddion, gan fod teimlad fod y pentref o dan frech o arwyddion, llawer ohonyn nhw yn ddiangen.
- Cyfeiriwyd at yr arwyddion ar dir gyferbyn â thai yn Rallt Goch, llc'r oedd arwyddion 'Dim Parcio' wedi ymddangos yn ddiweddar. Roedd yn ymddangos fod yr arwyddion yn anghyfreithlon ac nad oedd y tir yn perthyn i'r tai a'u perchnogion a oedd yn hawlio fod ganddynt hawl parcio. Penderfynwyd gwneud ymholiadau pellach.
- Adroddwyd y bydd y Prif Gwnstabl Richard Brunstrom yn ymweld â'r pentref ar yr 22ain o Hydref. Bydd y cadeirydd yn ei gyfarfod a holwyd a oedd unrhyw un arall am ymuno â nhw. Bydd cyfle i drafod maint yr ardal y mae disgwyl i blismyn Llanberis fod â gofal amdani, a rhai o broblemau'r pentref, gan gynnwys goryrru yn Nantperis.

Cynllunio
Cyngor Gwynedd:
- CO7A/0697/15/LL – *Estyniad deulawr* – Capel Clegyr, Ffordd Clegyr, Llanberis. Dim gwrthwynebiad.
- CO7A/0704/15/LL – *Estyniad ochr/cefn deulawr* – Penygraig, 8 Tŷ Du, Llanberis. Dim gwrthwynebiad.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE):
- NP3/15/184 – *Codi tyrbin gwynt 9.6medr o uchder i ddarparu cyflenwad trydan i un tŷ* – Tir Hafoty Newydd, Llanberis. [Er yn bryderus ynglŷn ac uchder y felin wynt yma a'i safle mewn llecyn amlwg ar lethrau'r Wyddfa, roedd yn well na generadur, a doedd llinell o bolion o'r cyflenwad cyhoeddus ddim yn dderbyniol nac ymarferol. Serch hynny roedd pryder y gallai caniatáu'r cais yma olygu ceisiadau eraill mewn mannau anghysbell fel hyn.] Dim gwrthwynebiad. Cynnig ac eilio: TT / HS

Wedi eu Caniatáu/ Gwrthod
CG:
- CO6A/0873/15/LL – *Estyniad un llawr a creu man parcio* – 4 Stryd Warden, Llanberis. Wedi ei ganiatáu

APCE:
Dim

Gohebiaeth
- Gorchymyn Traffig Arfaethedig, Stryd Fawr, Llanberis – Man parcio anabl o flaen rhif 22. Dim gwrthwynebiad.
- Llythyr yn gofyn a oedd diddordeb mewn gwneud cais am gae pêl-droed bob tywydd yn y pentref. Penderfynwyd, ar ôl trafodaeth faith, i ddangos diddordeb yn y datblygiad er yn derbyn y byddai cystadleuaeth o du pentrefi a threfi eraill ac y byddai angen cefnogaeth y gymuned gyfan yn wyneb cost uchel y cynllun. Cost o dros £30,000. Cynnig ac eilio: GA / HS.
- Cais trwyddedu gan ddwy hostel YHA, Llwyn Celyn a Gorffwysfa, Pen y Pas. Dim gwrthwynebiad.
- Llythyr oddi wrth Jane Davidson, y Gweinidog dros Gynaliadwyedd a Datblygu Gwledig, yn gofyn am gefnogaeth i'r Ymgyrch Cenedl Masnach Deg. Tra'n cefnogi'r egwyddor, penderfynwyd holi am fwy o fanylion.
- Llythyr oddi wrth Janet Ryder AC yn holi a oedd cynlluniau 'tai fforddiadwy' yn yr ardal. Adroddwyd nad oedd hyd yma.
- Llythyr oddi wrth Partneriaeth Llanberis yn diolch i'r Cyngor am gymeryd cyfrifoldeb am y tir ger Pont Fictoria.
- Cais am gefnogaeth i'r ymgyrch dotCYM, i gael cydnabyddiaeth i Gymru fel parth ar y We Fyd Eang a'r rhyngrwyd. Cefnogi.
- Llythyr yn gofyn i'r Cyngor yma gynnal arolwg risg ar gyfer tân yn Angorfa. Y Cadeirydd i ymateb.

Unrhyw Fater Arall
- Adroddwyd fod y Clerc wedi trefnu toriad arall i Fynwent Sant Peris ar ran y Cyngor Eglwysig. Bydd yr eglwys yn ad-dalu'r arian yn ôl i'r Cyngor Cymuned. Mae gwair Mynwent y Plwyf wedi ei dorri am y tro olaf.
- Bydd angen twtio'r Gofeb ac archebu torch ar gyfer Sul y Cofio. Y Cadeirydd i gyflwyno'r dorch. Penderfynwyd hefyd y bydd angen tacluso'r tir ym Mhont Fictoria yn achlysurol.
- Gan fod nifer yr aelodau'n brin yn y cyfarfod holwyd a oedd nos Iau yn dal yn noson gyfleus i gynnal cyfarfodydd y Cyngor? Penderfynwyd holi pan fydd mwy yn bresennol.
- Codwyd nifer o faterion, yn eu plith yr angen am arwydd 'Dim parcio dros nos' yn Maes Parcio APCE, Nantperis; angen arwydd 'Dim Parcio' neu bolardiau ar y palmant sydd yn mynd heibio Maes Parcio'r llyn yn Llanberis, mae'r palmant ar hyn o bryd yn cael ei ddefnyddio fel lle parcio ac yn creu anhwylustod i gerddwyr; llinellau melyn dwbl ger y bont a mynedfa Glanrafon, Nantperis; coed Glyn Rhonwy.

CYFARFOD NESAF:
Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Iau y 15fed o Dachwedd, 2007 am 7 yr hwyr.



O SIAMBAR SELWYN

Ysgwn i oes 'na unrhyw ysgol yng Nghymru sydd wedi magu cymaint o enillwyr y prif gystadlaethau yn yr Eisteddfod Genedlaethol ag Ysgol Brynrefail?

Dechreuwn gyda'n prif nofelydd – 'y dewraf o'n hwaduron', sef T. Rowland Hughes, a enillodd y gadair genedlaethol ddwy waith: yn 1937 ym Machynlleth gyda'i Awdl 'Y Ffin', ac yn 1940, yn ystod yr Ail Ryfel Byd, pan gynhaliwyd eisteddfod radio yn Aberpennar, ar y testun 'Pererinion'. Diddorol sylwi, gyda llaw, i'r Prifardd Jim Parc Nest ennill y gadair eleni ar y testun 'Y Ffin', ac iddo ennill y goron ar yr un testun yng Nghasnewydd yn 1988. Felly mae testun 'Y Ffin' wedi ymddangos deirgwaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Ond, yn ôl i Ysgol Brynrefail. Yn 1942 fe enillodd Herman Jones y goron yn Eisteddfod Aberteifi ar y testun 'Ebargofiant'. Ac, i orffen gyda'r prifeirdd, yn Llandeilo yn 1996 fe wisgodd Dafydd John Pritchard y goron am ei gerddi ar y testun 'Olwynion'.

Fe all Ysgol Brynrefail ymfalchïo hefyd am fod R. Williams Parry yn athro yno pan enillodd o ei gadair gyda'i Awdl 'Yr Haf' ym Mae Colwyn yn 1910.

Beth am enillwyr y Fedal Ryddiaith? Yn 1973, yn Eisteddfod Dyffryn Clwyd, y Prif Lenor oedd y Parchedig Emyr Roberts gyda'i gyfrol *Mae Heddiw Wedi Bod*. Roedd Emyr yn gyn-chwarelwr, fel yr Emyr arall o'r Waunfawr a gipiodd y Fedal yn Eisteddfod Fflint yn 1969 am ei gyfrol *Grym y Lli*. A phwy all anghofio am lwyddiant y diweddar Eirug Wyn yn cipio'r Fedal ar ddau achlysur, sef 1998 gyda *Blodyn Tatws* ac yn 2000 gyda'i gyfrol *Tri Mochyn Bach*. Ac yn Nhyddewi yn 2002, Angharad Price yn ennill clod arbennig gyda'i chyfrol *O tyn y gorchudd*. Cofiwn hefyd am fuddugoliaethau Eirug Wyn yng nghystadlaethau Nofel Daniel Owen gyda'r cyfrolau Smoc *Gron Bach* a *Bitsh!*.

Wn i ddim am unrhyw ysgol arall a all ymhyfrydu yn llwyddiant cymaint o gynddisgyblion ar lwyfan ein prifwyl. Wyddoch chi?

Os am holi p'run ydi'r pentref gwledig sydd wedi magu mwyaf o brifeirdd, wel, pentref Tal-y-sarn ydi hwnnw. Pedwar Prifardd wedi codi o'r pentref hwn, a fu ar un adeg yn enwog am ei giosg. Dau ohonyn nhw wedi eu magu ar yr un aelwyd, sef Silyn Roberts, a enillodd goron Bangor yn 1902, a Mathonwy Hughes a enillodd gadair Aberdâr yn 1956 am ei Awdl 'Gwraig' (yr unig awdl ysgafn erioed i ennill cadair y brifwyl). Y ddau arall o Dal-y-sarn oedd R. Williams Parry, wrth gwrs, a'r bardd a gyflawnodd y gamp lawn, sef ennill y gadair a'r goron a'r fedal, y diweddar Gwilym R. Jones.

Rhaid cofio i Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda, fagu pedwar prifardd hefyd ac i un ohonyn nhw ennill y goron genedlaethol deirgwaith yn olynol, yn 1927, 1928 ac 1929, sef Caradog Prichard. Ac fe enillodd y gadair hefyd, yn Llanelli yn 1962. Y tri bardd cadeiriol arall ydi Emrys Edwards, Ieuan Wyn a Gwynfor ap Ifor, y cefais i y fraint o'i gadeirio yn Abertawe y llynedd, ac am yr eildro yn Neuadd Ogwen, Bethesda. Diddorol ydi sylwi hefyd bod Ieuan Wyn a Caradog Prichard wedi byw yn yr un tŷ.

A beth am y cyntaf un i ennill y Fedal Ryddiaith, sef J. O. Williams, Bethesda, cyd-awdur *Llyfr Mawr y Plant*. Ys gwn i a oedd o yn gyn-ddisgybl o Ysgol Dyffryn Ogwen? A chofiwn hefyd am lwyddiant Manon Steffan Ross o Rhiwlas yn ennill y Fedal Ddrama ddwy flynedd yn olynol, yn 2005 a 2006.

Ocs mac ganddon ni lc i ymfalchïo yn llwyddiant ein prifeirdd a'n prif lenorion a fagwyd yma yng nghysgod mynyddoedd Eryri.

* * *

Dwi wedi cael cais ers rhai blynyddoedd bellach i sgwennu fy hunangofiant. Ond, oherwydd prysurdeb a galwadau eraill methwn rhywsut ag eistedd i lawr i ddechrau ar y gwaith, ac roeddwn ofn gaddo ac wedyn methu â chyflawni fy addewid. Nid gofyn wnaeth fy nhgyfaill, Geraint Loyd Owen, ond fy *ngorchymyn* i fynd ati a chwblhau'r gwaith cyn i fy nhymor fel Archderwydd ddod i ben. Tipyn o sialens.

Golygodd hyn, yn naturiol, dipyn o waith ychwanegol i mi. Codi'n gynnar – gweithio am deirawr – saib am deirawr arall – ac yna ailafael yn y gwaith. Dechreuais arni ar y 9fed o Chwefror a rhaid oedd disgyblu fy hun i weithio hyn a hyn o oriau bob dydd.

Tydw i ddim yn gysgwr da, dim ond rhyw bedair awr bob nos. Ac yn y stod yr oriau mân fe gofiwn yn sydyn y dylwn fod wedi crybwyll y peth yma a'r peth arall yn y bennod a'r bennod. Diolch fod Karen Owen yn un mor amyneddgar, gan mai iddi hi y mae fy niolch am deipio fy llawysgrif flêr a gwneud y newidiadau niferus. A synnwn i ddim na fydd angen mwy o fân newidiadau eto cyn i'r gyfrol ddod o'r wasg.

Y teitl fydd *O Barc-y-Wern i Barc-y-Faenol*, a pha well lle i'w lansio nag ar dir Parc-y-Wern, yn Neuadd Goffa Bethel, nos Fawrth, 27 Tachwedd am 7.00 o'r gloch. Croeso cynnes i chi droi i mewn.

CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR

Cynhaliwyd cyfarfod Cyngor Cymuned Waunfawr yn Y Ganolfan Waunfawr am 7.30 yh ar 19 Medi, 2007.

Clercyddiaeth – Ar ol 3 mis o gyfnod prawf derbyniol, cynigwyd swydd Clerc parhaol i Mrs Shoned Rees Griffith.

Trafodwyd cael llinellau melyn ger mynedfa Erw Wen a Tŷ Mawr, Caeathro, a gwaelod ffordd yr Ysgol; gwaelod ffordd Ganolfan; gwaelod Ffordd Bro Waun/Tŷ Hen a Croes y Waun yn Waunfawr – disgwyl ymateb Cyngor Gwynedd.

Trafodwyd cyflwr y llochesau bws, y fynwent a llwybrau troed y pentref – nodwyd fod eu cyflwr yn foddhaol. Angen holi Grŵp Mynediad Waunfawr i ystyried cyhoeddi map o deithiau lleol Waunfawr a Chaethro ar gyfer y dyfodol.

Roedd 4 cais cynllunio newydd i law, a doedd dim gwrthwynebiad i'r un ohonynt. Roedd 3 cais cynllunio arall wedi derbyn cymeradwyaeth gan Gyngor Gwynedd.

Yn dilyn 1 cais gan y Cyngor Cymuned i roi golau stryd ar ffordd gefn Ael y Bryn, Waunfawr, derbyniwyd ymateb gan Gyngor Gwynedd nad oedd hyn yn bosibl.

Derbyniwyd llythyr o gŵyn am ymddygiad gwrth-gymdeithasol ger y Ganolfan, ac rydym wedi ei anfon ymlaen i'r Heddlu.

Materion eraill a drafodwyd yn ystod y cyfarfod, ac yn disgwyl ymateb gan Cyngor Gwynedd:

- parcio dwbl ger Stad Bro Waun, Waunfawr, ble mae'r ffordd yn culhau;
- Materion traffic ger Cwrt Hers, Waunfawr – lorïau mawr;
- Ysbyttu Pencefn, Caeathro – Manylion rhentu.

Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 7 Tachwedd, 2007 am 7.30 o'r gloch yn Waunfawr. Byddwn yn trafod ceisiadau am Roddion gan fudiadau.

CAETHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

TYNFA MISOL. Enillwyr tynfa misol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro ar gyfer mis Hydref oedd: £40: (1) Dafydd Iwan, Carrog; £25: (67) Tudur ac Ann Huws-Jones, 11 Erw Wen; £15: (41) Laura Jones, 18 Tai Glangwna; £5: (35) Norman Hughes, Llyngele.

CYDYMDEIMLWN yn ddwys iawn â Mr Elwyn Griffiths ar ei brofedigaeth enfawr o farwolaeth ei fab yn ne Cymru.

CROESO i Huw Thomas, trigolyn newydd rhif 12 Tai Glangwna. Croeso i'r pentref.

GWASANAETHAU'R CAPEL. Disgwylir cynnal y gweithgarwch canlynol yn ystod mis Tachwedd:

4: 2.00 Parch Trefor Jones
9: 11.00 Ysgol Sul
16: 11.00 Ysgol Sul
2.00 Parch Ronald Williams
25: 11.00 Ysgol Sul

FFAIR NADOLIG. Cynhelir y Ffair Nadolig eleni ar nos Iau, 6 Rhagfyr.

PLYGU'R ECO. Braint trigolion Caeathro yw plygu'r *Eco* ym mis Tachwedd, felly gofynnir i bob darllenydd heini gadw nos Iau, 29 Tachwedd, yn rhydd o 5.00 o'r gloch ymlaen.

CYNGERDD MAWREDDOG yn Festri Capel Coch, Llanberis am 7.30 o'r gloch nos Sul, 11 Tachwedd. Yr artistiaid fydd: Dafydd Iwan, Côr y Waun, Susan Williams, Stephanie Welsby ac Edward Morus Jones.

Tocynnau £3 wrth y drws. Elw'r noson tuag at gynllun Efengyl i Fro'r Eco – 'EFE'.

GWAITH AILWYNEBU'R LÔN. 'Bendith neu fygythiad?' dyna'r cwestiwn! Mae pobl o du allan i'r pentref wedi cwyno am gyflwr gwael wyneb y lôn trwy'r pentref a'r effaith mae'n gael ar eu ceir. Ond, o leiaf, mae **rhai** ohonynt yn arafu ychydig, er mwyn eu ceir yn bennaf nid oherwydd trigolion Caeathro.

A fydd wyneb gwell yn arwain at ganran uwch o yrrwyr yn gor-yrru trwy'r pentref? Byddwn yn gofyn i'r cerbyd 'Siwrne Saff' ailymweld â'r pentref er mwyn dal y troseddwyr!!

SNOWDONIA PARC
WAUNFAWR
•Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go lawn
Ffôn: 650218

AROS PRYD
hefo'r 'un garw am ei fol'

Y Bwthyn Te
Pen y Ceunant Isaf, Llanberis

TROWCH i lawr Rhes Fictoria, sydd dros y lôn i Westy Fictoria yn Llanberis, a daliwch ati ar hyd y gwastad, dros y grid gwarthag ac i fyny'r allt, a byddwch yno, ia, yn y Bwthyn Te, Pen y Ceunant Isaf.

O'r holl gaffis y bûm wrthi'n gwario fy mhres a hel yn fy mol ynddynt, hwn ydoedd yr un mwyaf rhyfeddol o ddigon! Gwnaeth, o ran cymeriad, lleoliad a'r olygfa sydd i'w gweld oddi yno, argraff ddofn iawn arnaf.

Steffan Roberts, gŵr ifanc, main, llawn egni, sy'n frodor o Fynydd Llandegai, ydyw'r perchennog, ac fel roeddwn yn camu dros riniog y drws clywais ymwelydd yn dweud wrtho iddo fod yno bedair blynedd ynghynt, a'r Cymro, yn ei elfen ac yn dweud yn hollol ddi-flewyn-ar-dafod, ei fod o yn ei gofio yntau hefyd! Dyna beth ydyw cof y Celt!

Drwy'r amser y bûm yn y Bwthyn Te galwai rhywun neu rywrai heibio'n fynych a Steffan yn rhoi ei amser i dywys ymwelwyr o gwmpas ac yn rhoi'r un croeso gwladaidd i bawb, ac yn digoni pob un ohonom hefo lluniaeth tra ragorol. Nid chwilio am amser a wnâi'r perchennog hwn ond ei greu, a bod yn barod i wasanaethu hwn ac arall.

Y bore hwnnw roeddwn wedi bod mewn caffi arall a'r plât hefo'r bara cras wedi ei losgi'n ddu bitsh arno, wedi ei sodro ar fwrdd wrth ymyl, a rhywun yn yr iaith fain yn fy ordro i'w gyrchu oddi yno at y bwrdd yr eisteddwn i wrtho! Fel y gallech chwi feddwl, boddhad o'r mwyaf i mi amser cinio y dydd Gwener olaf o fis Medi 'leni ydoedd medru taro ar nefoedd wen o le ymhlith y caffis, sef Penceunant Isaf, Llanberis – 'Caffi Steffan' – a chael yno fwyta sgonsan, hufen a chyffaith di-siwgr tu hwnt o flasus, yfed hynny fedrwn i o de poeth a chael croeso gwladaidd, hefo Siasbar, ci Steffan, yn cadw cwmni imi!

Dotiais yn arw at y gwrthrychau oddi amgylch imi – darluniau, sy'n rhan amhrisiadwy o'n treftadaeth, o'r Beibl Teuluaidd, i wrthrychau teilwng ar ffurf portreadau o ferched mewn gwisgoedd Cymreig, a golygfeydd lleol.

Dyma gaffi sydd hefyd yn darparu amrywiaeth o de, rhai llysieuol hefyd, coffi a phrydau ysgafn o bob math. Wir i chi, cymeriad tu hwnt o ddiddorol ydy Steffan. Yn bendifaddau, arloeswr o Gymro ydyw a fentrodd yn y Gymru sydd ohoni. Fo oedd yn gyfrifol, sawl blwyddyn yn ôl bellach, am gyflwyno bwydlenni yn yr iaith Gymraeg (a da iawn fo!) yng nghaffi Caban, Stryd Fawr, Bangor. Fo hefyd fu'n gyfrifol am gyflwyno a gwerthu pizzas Branwen yn nghaffi Mabinogi, Bethesda. Y mae ganddo flynyddoedd o brofiad yn y maes arlwyo, a gŵyr yn dda sut i ateb anghenion cwsmeriaid. Cymer bleser o'r mwyaf yn y cyfan a wna, ac nid oes unrhyw beth yn ormod o drafferth ganddo.

Y mae'r caffi yn agored ar hyd y flwyddyn (hyd yn oed ar Ddydd Nadolig!) a hynny o 9.00 y bore hyd 9.00 yr hwyr. Croesewir teithwyr sy'n dymuno cerdded eu cŵn (cyn belled â'u bod wrth gynllafen) a phan ewch yno cofiwch, da chwi, holi am y gwely hynafol sydd yn yr oruwch ystafell, a hefyd beth ydyw cyswllt y Salsbriaid, ac hefyd Elwyn Hogia'r Wyddfa â Phen y Ceunant Iaf.

Yn anad dim byd arall, mi ryfeddwch drwyddoch oll o weld y cannoedd llythyrau sydd wedi eu gyrru at Steffan o bedwar ban byd. Does ryfedd, chwaith! Steffan Roberts, Pen y Ceunant Isaf, Llanbêr sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynhyrchu'r hyn a etifeddodd o ran risêt feddyginiaethol gan ei Nain ac ef, drwy hawlfraint, sydd wedi mynd ati'n llwyddiannus i gynhyrchu'r risêt yn fasnachol.

Erbyn hyn y mae'r gwahanol elïau rhinweddol 'Aloma Lamara', yn cael eu defnyddio er mwyn gwella anhwylderau a hefyd lyfnhau crwyn dynol. Ar bob potel ceir cyfeiriad Pen y Ceunant Isaf, Llanberis. Ydyw, y mae Steffan, fel Cymro pybyr, wedi tynnu sylw'r byd mawr meddygol at Llanberis fel enw o bwys.

Cofiwch, da chwi, tra yn y caffi daro i'r Oriel, ble mae darluniau o safon uchel ar gael ac ar werth. Da gweld bod Steffan yn cefnogi a gwerthu darluniau lliw gan un o arlunwyr ifanc y fro, sef un o Breisiaid enwog Cwm-y-glo.

Y mae'r perchennog hefyd yr un mor gefnogol i Dîm Achub Llanberis a hefyd yn flynyddol yr adeg yma o'r flwyddyn yn gwerthu cardiau 'Dolig sy'n cynnwys darluniau arlunwyr o bwys fel Wil Rowlands, William Selwyn, Gareth Parry a Huw Gareth Jones, a'r arian a gesglir er budd OGO8 – Ymchwil Canser Ysbyty Gwynedd (y trefnydd diwyd yw Eirlys Pierce 01286 673776).

Fel y caffis eraill yr ymwelwyd â hwynt hyd yma yn nalgylch *Eco'r Wyddfa*, caffi mawr ei groeso, amheuthun o ran bwyd a diod, hefo awyrgylch hynod Gymreig ydyw Pen Ceunant Isaf, Llanberis. Ewch yno! Mwynhewch.

Cyngor Cymuned Llanrug

Dyma grynodeb o gofnodion cyfarfod mis Medi a gynhaliwyd yn Ysgol Gymuned Cwm y Glo. Cyflwynwyd adroddiad ariannol cyfredol a diolchwyd i Goronwy Hughes am ei waith. Cadarnhawyd y cofnodion blaenorol yn gywir.

Pwyllgor Cynllunio Arfon
wedi caniatau y ceisiadau canlynol:
estyniad ar Tan Llan, Pontrug;
addasu ac ehangu maes parcio Ysgol Brynrefail;
codi estyniad dau lawr ac un llawr cefn yn Hafod y Coed, Ceunant;
dymchwel y tŷ presennol ac adeiladu tŷ yn Afon Rhos, Llanrug.
Gwrthodwyd y cais amlinellol am un tŷ ar y tir ger Teras Bryn Coch yn Llanrug

Nid oedd gan y Cyngor Cymuned unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau canlynol:

Adeiladu tŷ ger Norfolk Villa Llanrug; estyniad i siop trin gwallt Salon Elaine – ychydig yn bryderus am yr oblygiadau parcio yn dilyn hyn.

Pasiwyd i gyfrannu £550 i Seindorf Arian Llanrug.

Mae'r Cyngor Cymuned yn y broses o werthu y llain tir sy'n arwain at Ganllwyd, Bryn Moelyn, a hefyd y gornel o Gae Chwarae Pwll Moelyn fydd yn ymestyn gardd Tan y Buarth.

Mynegwyd pryder gan deithwyr am y safle bws ar y briffordd dros y ffordd i'r Fricsan yng Nghwm y Glo. Gan nad oes ond mymryn o wyneb caled ar y pafin, mae pobl yn gorfod cerdded ar y gwair neu gamu i'r lôn a chlywyd y bu bron i eneth ifanc gael ei tharo gan gar oedd yn gwibio heibo. Y clerc i gysylltu â'r Adran Drafnidiaeth.

Cafwyd cwyn gan un o drigolion Glanmoelyn am y blerwch o gwmpas y stâd. Y clerc i gysylltu â'r Adran Tai yng Nghyngor Gwynedd.

Dyddiad y cyfarfod nesaf yw Hydref 16eg ac fe'i cynhelir yn y Sefydliad Coffa, Llanrug

Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch â **Gomer Roberts**
Ffôn : **01286 870462**
Symudol : **07962 712368**

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

Dylan Griffith
TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL
TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN
Yn gwasanaethu'r holl ardal yn cynnwys
PENISARWAUN, DEINIOLEN, LLANRUG A LLANBERIS
Gwasanaeth teimladwy,
urddasol a phersonol.
24 awr y dydd
Ffoniwch: Dylan (Llys) ar 871833
Symudol: 07778127394

HEFYD
CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyrhaeddwch mewn steil – mewn cerbyd *Rolls Royce*
ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac achlysuron arbennig eraill

Portreadau
Clive James Caeathro

Gŵr sydd wedi dod yn bur gyfarwydd â'r iaith Gymraeg trwy wrando ar dapiau ac ymroi i gyfarwyddiadau i ddysgwyr oddi ar y rhaglen deledu *Crease Christine* erstalwm yw Clive James. Ni chafodd addysg ffurfiol i ddysgu'r iaith o gwbl, mae'r cyfan wedi dod i lwyddiant drwy gryn ddyfalbarhad ar ei ran.

Ganwyd Clive yn un o ysbytai Abertawe, ei rieni yn hanu o'r ddinas, a Saesneg oedd iaith yr aelwyd. Roedd ei dad yn beilot gyda'r Llun Awyr ac yn aelod llawn-amser o'r Awyrlu. Roedd y ffaith hon yn golygu nad oedd yr aelwyd yn aelwyd wedi'i hangori mewn un lle yn barhaol a byddai ei rieni yn symud o un rhan o'r wlad i ran arall yn gyson. Yn wir, yn Singapore y mynychodd Clive ei ysgol gynradd gyntaf.

Wedi dychwelyd i Brydain ym mhum degau'r ganrif ddiwethaf, aeth yn ddisgybl i ysgol Uwchradd Devizes yn Ne Lloegr. Er y symud gweddol gyson ni chred Clive i hyn amharu ar ei addysg ac yn ysgol Devizes bu'n lwydianus yn yr arholiad Lefel A. Erbyn hyn roedd ei dad wedi cwblhau ei gyfnod yn y Llu Awyr a symudodd y teulu yn ôl i'w gwreiddiau yn Ne Cymru, y tro hwn i Benybont-ar-Ogwr.

Erbyn hyn roedd Clive James yn ddeunaw oed ac, er cael ei dderbyn i'r Brifysgol yn Aberystwyth i astudio Daearyddiaeth, i Brifysgol Durham yng ngogledd Lloegr yr aeth i wneud ei radd. Yna ar derfyn y cwrs aeth i Brifysgol Caeredin i astudio Cynllunio ac yn sgil ei astudiaeth yno, ei dderbyn yn Gymrawd Cymdeithas Frenhinol Cynllunio Tref (*Fellow of the Royal Town Planning Institute*). Gan fod Clive yn berson sydd yn bur hoff o fynydda roedd yn ei elfen yn yr Alban, yn treulio penwythnosau ar ucheldiroedd y wlad ac ardal y Llynnoedd.

Tra yng Nghaeredin gwelodd hysbysеb yn gwahodd rhai i geisio am swydd yn Adran Gynllunio, Cyngor Sir Gaernarfon, a chan ei fod yn awyddus i ddychwelyd i Gymru, gwnaeth gais llwyddianus am y swydd. Bryd hynny nid oedd yn hanfodol i allu siarad Cymraeg. Erys atgof i un o'r panel penodi awgrymu iddo mai'r ffordd ddelfrydol o ddysgu'r iaith fyddai chwilio am Gymraes yn wraig. Cred Clive mai'r unigryw R. H. Owen, Llanberis, a awgrymodd hynny iddo. Yn anffodus nid yw Clive wedi rhoi'r gair o gyngor hwnnw a gafodd dros ddeng mlynedd ar hugain yn ôl mewn grym, ond efallai bod yn yr anwybod fymryn o obaith o hyd! Pwy a ŵyr?

Bryd hynny, yn 1972, arferai Cyngor Sir Gaernarfon chwilio am lety i'r staff newydd a chanfod ei hun yn lletya yn y Waunfawr gyda Lily ac D. Idris Jones, yn Goleufryn a wnaeth Clive cyn mentro, ymhen rhai misoedd, i brynu ei gartref presennol yng Nghaeathro. Tra'n lleytya yn y Waunfawr, yn y Gymraeg y siaradai Mr a Mrs Jones â Clive ac, wrth reswm, bu hynny yn gymorth iddo loywi ei iaith.

Elfen o gryn bwysigrwydd arall i fagu hyder meddai Clive oedd 'Cymraeg y Black Boy' – i'r anghyfarwydd, tafarn nid anenwog yng Nghaernarfon! Yn wir, erbyn 1974 roedd mor hyderus yn y Gymraeg fel y siaradodd yn gyhoeddus yn yr iaith mewn cyfarfod yn Llanrwst oedd yn ymwneud â'i ddyletswyddau yn Adran Gynllunio'r Cyngor Sir.

Yn ddibetrus rhaid canmol Clive James am ei ymdrechion i ddysgu'r iaith, heb wersi ffurfiol, dim ond drwy ei ddycnwch ef ei hun, ac er ei ganmol mae'n rhaid i minnau, fel ambell un arall, ei atgoffa o dro i dro i beidio â siarad mor gyflym ar adegau.

Yn 1974 daeth Cyngor Sir Gwynedd i fodolaeth. Yn 1989, yn sgil dymuniad y Prif Weithredwr ar y pryd, Ioan Bowen Rees, i ad-drefnu gweinyddiaeth y Cyngor, fe ddenwyd Clive o'r Adran Gynllunio i Adran Prif Weithredwr y Cyngor Sir. Ymhen amser symudodd eilwaith i adran a elwir yn Gyfadran Datblygu, ac yno y mae ar hyn o bryd.

Datblygu beth, gofynnais iddo? Datblygu unigolion ac nid eiddo, mewn ysgolion, llyfrgelloedd, theatrau a chanolfannau hamdden, oedd yr ateb a gefais. Ychwanegodd mai pwyso a mesur a yw'r cyhoedd yn cael gwerth yr arian sy'n cael ei wario arnom yw'r amcan. (Yn bersonol, fel y dywedais wrth Clive, carwn wybod pam na roddir teitlau hawdd eu deall ar y gwahanol adrannau fel erstalwm, pan oedd y cyhoedd yn ymwybodol pa adran oedd yn ymdrin â'u problem. Nid felly heddiw – i mi o leiaf).

Mae Clive yn hynod weithgar yn ei gymuned yng Nghaeathro. Heb os mae Caeathro bellach yn rhan annatod o Clive a Clive yn rhan o Gaeathro. Mae'n Gadeirydd Cyngor Cymuned y Waunfawr, yn Gadeirydd pwyllgor y Maes Chwarae, yn Ysgrifennydd y capel lleol, yn ymddiriedolwr Clwb Rygbi Caernarfon, yn un o sefydlwyr ac yn Ysgrifennydd Clwb Mynydda Cymru. Er ei eni mewn dinas a byw am gyfnod cynnar ei fywyd mewn gwahanol drefi a dinasoedd, bellach mae'n ddigon bodlon ei fyd yn byw yng nghefn gwlad heb fod nepell o'r mynyddoedd, a phan ddaw cyfle ar benwythnos fe'i ceir ar grib rhyw fynydd neu'i gilydd.

Mae'n cicio beic i'w waith bob dydd, os yw'r tywydd yn caniatáu. Mae yn arddwr brwd iawn a chanddo ardd gefn yn llawn llysiau a ffrwythau, digon i'w gadw dros y gaeaf.

Ydi mae Clive James yn ŵr prysur dros ben, yn llenwi pob awr o'r dydd â rhyw ddyletswydd neu'i gilydd. Os nad oes digon i'w gadw'n brysur gyda'r uchod mae yn berson sydd yn hoffi trafeilio dramor yn aml i wylio gemau rygbi a dringo mynyddoedd y wlad honno yr un pryd. Mae wedi bod yn Seland Newydd ddwywaith, ym Mhatagonia bedair gwaith ac yng ngogledd America bedair gwaith. A chan ei fod yn byw wrtho'i hun, mae wedi meistroli'r gamp o fod yn gogydd canmoladwy iawn.

Do, fe gyfarfu â'r Clive James byd enwog yn ddiweddar pan ymwelodd y rancontyr hwnnw â'r Galeri yng Nghaernarfon a chanfod, gyda chryn sioc, mai nid Clive James oedd enw bedydd y gŵr o Awstralia. Felly teimlai ein Clive James ni fod ganddo'r hawl i ofyn i'r llall,

'What is it like to tread the boards with the original Clive James?'

Cwestiwn a roddodd gryn foddhad i'r gynulleidfa yn y Galeri rwy'n siŵr, ond ni chafwyd ateb!

Yn naturiol roedd yn rhaid holi'r arian byw yma yng Nghaeathro o ble y caiff yr amser i gyflawni'r holl ddyletswyddau. Ofnaf na chefais innau ateb ganddo fo chwaith, dim ond gwen.

Mae yn poeni am gyflymder y traffig sydd yn mynd trwy Gaeathro bob dydd ac yn teimlo yn ddiymadferth i wneud unrhyw beth positif ynglŷn â'i broblem. Ond pwy ŵyr, o gofio ymrwymiad llawn Clive i bopeth mae'n ymgymryd ag o, na fydd yn y man yn goresgyn hyn yn ogystal.

ROL WILLIAMS

Parhad LLANBERIS

(o dudalen 14)

DYMUNA Mrs Heulwen Jones, Stryd Warden, ddiolch i'w ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau, galwadau ffôn a rhoddion hael at Feddygfa Waunfawr ac Ysgol Bron y Foel, Y Fron, ar yr achlysur o golli ei chwaer, Mrs Glenys Thomas, Caernarfon (Y Fron, gynt).

DYMUNA Fred Owen, Carreg Wen, Tŷ Du Road, ddiolch o galon i'r Meddyg Robin Parry a holl staff y Feddygfa, Llanberis, a fu mor garedig a phroffesiynol yn ei ddarparu am lawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

Hefyd, diolch yn arbennig i'w wraig, Beth, a'r holl deulu a ffrindiau am eu caredigrwydd.

CÔR MEIBION DYFFRYN PERIS Am y nawfed blwyddyn yn olynol, bu'r Côr yn cynnal noson o adloniant yn Rhosgadfan, nos Wener, 12 Hydref.

Llwyddwyd i godi dros £800 yn ystod y noson, ynghyd â chasgliadau perhnasol. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i ychwanegu at gyfleusterau cleifion yn Ward Trin Cancr Enfys, yn Ysbyty Glan Clwyd.

DYMUNA Gwyneth a Raymond (Post) ddiolch i'w cymdogion, ffrindiau a theulu am yr holl gardiau, anrhegion a dymuniadau da a dderbyniodd Gwyneth ar achlysur ei phen-blwydd yn hanner cant, a thra y bu'n derbyn triniaeth yn yr ysbyty.

CYNGERDD MAWREDDOG yn Festri Capel Coch, Llanberis am 7.30 o'r gloch nos Sul, 11 Tachwedd. Yr artistiaid fydd: Dafydd Iwan, Côr y Waun, Susan Williams, Stephanie Welsby ac Edward Morus Jones.

Tocynnau £3 wrth y drws. Elw'r noson tuag at gynllun Efengyl i Fro'r Eco – 'EFE'.

CAPEL COCH. Cynhaliwyd yr Ŵyl Ddiolchgarwch dros ddau Sul ganol mis Hydref. Ddydd Sul, Hydref 14, cafwyd dau wasanaeth gydag aelodau Capel Coch a Nant Padarn yn cymryd rhan ynddynt. Diolch i'r pymtheg, o bob oed, a gymerodd ran yn yr oedfaon hyn.

Y Sul canlynol, cafwyd gwasanaeth plant yr Ysgol Sul, ac roedd yn braf gweld y festri'n llawn ar gyfer yr oedfa hon. Mae'r Ysgol Sul yn dilyn Maes Llafur newydd y Cyngor Ysgolion Sul eleni, a seiliwyd y gwasanaeth Diolchgarwch ar hanes Porthi'r Pum Mil y bu'r plant yn ei ddilyn yn ystod mis Medi. Roedd y plant wedi dod â ffrwythau i'r oedfa eto, a rhoddwyd y ffrwythau wedyn i aelodau hŷn ac aelodau sydd heb fod yn dda ar hyn o bryd. Diolch yn fawr iawn i'r plant am eu gwaith ac i'r athrawon am eu paratoi ar gyfer y gwasanaeth. Mae pawb yn canmol y Maes Llafur newydd ac mae digon o amrywiaeth ar gyfer y plant yn yr Ysgol Sul bob wythnos.

Cafodd y plant wyliau hanner tymor ddydd Sul, Hydref 28, a bydd yr Ysgol Sul yn ailddechrau ddydd Sul, Tachwedd 4. Mae croeso i unrhyw blentyn i ymuno â'r Ysgol Sul yn Capel Coch. Ffoniwch John neu Falmai Pritchard ar 872390 am ragor o fanylion neu dowch draw i'r festri am 11.15 o'r gloch unrhyw fore Sul.

Colofn y Plant

Clwtyn Criw Triw

Annwyl Blant

Y fi ydy'r un sy'n gwisgo cap lliw sôs coch a sbectol dywyll.

Ew! y mae hi'n whiw-dwrw! yn ofnadwy iawn iawn iawn o boeth yma! Dwbridridwrw! Yn ystod y pnawniau mae pob creadur yn cysgu.

Pan ddaw'r bore mi fydda i, wrth fynd i gerdded, yn rhwbio eli yn dew dew ar fy nghroen rhag ofn imi losgi'n rhy ofnadwy ofnadwy yn yr haul.

Enw'r wlad rydw i ar fy ngwyliau ynddi ar hyn o bryd ydyw El Salvador. Dywedwch yr enw'n uchel: El Salvador. Un noson, wedi i'r haul ddiflannu'n belen fawr goch dros y mynydd uchel, beth ddaeth o'r wal wrth ymyl y gwesty ond creaduriaid bychain, sy'n gwneud sŵn clician tebyg iawn iawn o ran ei sŵn i'r gair 'gecko'. Gena' goegiaid oeddan nhw. Gair mawr y goegiaid 'na! Yntyndy wir! Ond, ond Whidipwdirew! dyma lun ohonynt:

Mae Gecko yn greadur sy'n cysgu yn ystod y dydd a phan fydd hi wedi nosi, mi ddaw o'i guddfan mewn waliau, neu mi fydd o'n codi'i ben llydan a fflat o'r twll o dan y cerrig ble buodd o'n cuddio drwy'r borcau a'r pnawniau. Pan ddechreua hi nosi, mae'n amser iddo chwilio am fwyd. Pryfed fydd o'n ei fwyta, a bydd yn dringo boncyffion coed, muriau ac ochr adeiladau a ballu er mwyn cael digon o bryfed yn fwyd! Weithiau, bydd yn dringo drwy ffenestri agored ac yn rhedeg ar ei ben i lawr o dan doeau tai. Y mae ganddo ddisgiau bychain ar bennau bysedd ei draed ac y mae'r rhain yn ei gynorthwyo i ddringo coed ac ochrau adeiladau.

Gobeithio y byddwch yn darllen ac yn hoffi'r stori am un gecko bach arbennig a welais i mewn gwlad boeth. Ei enw – ust! Darllenwch y stori!

Dwbridridwrw! O San Miguel, El Salvador, hwyl i chwi i gyd yng ngwlad *Eco'r Wyddfa*.

SMONACH BACH

Gildi Gwldi'r Gecko Bach

'Pam, mam?' ebe Gildi Gwldw'r Gecko Bach wrth ei fam, 'Fod gen i gynffon stwmpiog, dew?'

'Am fod gen ti un! meddai Gwladi-wff wrtho. 'Pam wyt ti isio gwybod?'

'Ond mae fy nhgynffon i mor dew a stwmpiog. Pam fod rhaid i mi gael cynffon o gwbwl, mam?'

'Mi fyddet ti'n edrych yn rhyfedd heb un, Gildi Gwldw. A hwyrach, rhyw ddiwrnod, y bydd wirioneddol angen help dy gynffon arnat ti.'

'Angen cymorth? Angen cymorth fy nghynffon dew a stwmpiog? Twt! Twt lol botas pryfed!'

Ond un diwrnod bu Gildi Gwlda'n hogyn drwg. Penderfynodd aros allan drwy'r dydd. Roedd o wedi penderfynu aros i weld beth a ddigwyddai pan oedd hi'n amser cysgu. Am y bore aeth pethau'n dda. Mi allodd ddringo i fyny waliau a chafodd le da i orwedd ar ben to rhyw adeilad. Yna, yn y pnawn, chwyddodd yr haul yn yr awyr ac Ew! roedd hi'n ofnadwy ofnadwy o boeth! Dechreuodd Gildi Gwldw ddifaru iddo beidio â mynd i'w wely.

'O! O! mae hi'n boeth ofnadwy-ofnadwy!' ebe fo, gan symud yn araf ar hyd y to. 'Mam bach, mi rydw i'n toddi! Mae'r haul yn ofnadwy-ofnadwy o boeth!' A dyma fo'n aros ble'r oedd o, yn methu'n glir â symud a'i lygaid yn dechrau cau.

'Wedi blino blino blino!' ebe fo. 'Yn boeth boeth boeth! Isio diod diod diod!'

Ar hyn clywodd lais yn galw arno,

'Gildi Gwldw! Gildi Gwldw! Ble'r wyt ti?' Gwladi-wff, mam Gildi Gwldw oedd yno. Hi oedd yn galw arno.

Ar ben y to! Yn yr haul poeth poeth poeth! Yn methu symud! Wedi blino blino blino.

'Gildi Gwldw, ble'r wyt ti?'

A dyma fynta'n codi ei gynffon hyd nes ei bod yn hongian dros ochr y to ac yn dechrau ei hysgwyd yn ara bach, ac yna'n sydyn-sydyn.

A wyddoch chi be? Mi welodd Gwladi-wff, mam Gildi Gwldw, gynffon dew a stwmpiog ei mab yn chwifio arni o ben to'r adeilad. Aeth adref i nôl ei gŵr, ei chwiorydd, cefndryd a chynfitherod Gildi Gwldw, a dyma nhw i gyd, o'r talaf i'r lleiaf, yn sefyll ar bennau'i gilydd ac yn achub y gecko bach oddi ar ben y to.

Fe'i cymerwyd o ganol yr haul peth poeth i 'stafell oer oer oer mewn twll yn y ddaear, a'r cyfan a ddywedodd Gwladi-wff wrtho ydoedd,

'Diolch byth fod gen ti gynffon!'

'Ia wir!' ebe Gildi Gwldw'r Gecko Bach wrth Gwladi-wff ei fam. 'Wna i byth eto ofyn pam fod gen i gynffon stwmpiog dew, Mam!'

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

HUNANGOFIANT. Deallir y bydd cyfrol hunangofiant Rol Williams, Glanffrwd gynt, yn cael ei chyhoeddi yn gynnar ym mis Tachwedd, o dan y teitl *Nid Roc ...ond Rol, o'r Llys i'r Garreg Fawr*. Yn y gyfrol ceir hanes ei fagwraeth ym Mrynrefail, cyn symud i'r Waunfawr, pedair blynedd yn yr Awyrlu a'i waith dyddiol yn y Weinyddiaeth Amaeth, a blynyddoedd yn diddanu cynulleidfaoedd led-led Cymru fel aelod o Barti Eryri a rhaglenni radio a theledu. Ceir hefyd nifer dda o hen luniau, rhai o gyn gymeriadau Brynrefail. Cyhoeddir y gyfrol gan Wasg y Bwthyn, Caernarfon

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD.

Y GYMDEITHAS. Nos Iau, 11 Hydref, cynhaliwyd cyfarfod olaf o'r Gymdeithas am y tymor. Roedd y myfyrdod agoriadol ar thema'r Diolchgarwch, dan ofal Emyr Williams, Cadeirydd y noson.

Y siaradwr gwadd oedd Gari Wyn o Bentir, a chafwyd noson bleserus a hwyliog iawn yn ei gwmni. Roedd wedi dewis o'i silff lyfrau gyfrolau oedd o ddiddordeb arbennig iddo – fel un a fagwyd yn ardal Cerrig-y-drudion – yn eu plith weithiau Jac Glangors a chyfrol am Telford ac adeiladu'r A5, heb anghofio hanes Capel Brynrefail yn *Hanes Methodistiaeth Arfon*. Diolchwyd yn gynnes iddo gan y Cadeirydd a chyfrannodd llawer i'r drafodaeth ar y diwedd. Paratowyd y lluniaeth gan Elen George ac Eleanor Jones.

OEDFA DDIOLCHGARWCH. Dan arewiniad y Dr Eryl Wynn Davies, Llanfairpwll, cafwyd neges arbenning yn yr oedfa for Sul, 14 Hydref, wedi ei seilio ar Ddameg y Mab Afraadlon ar y thema Meddiannu a Rhannu. Anfonwyd cofion arbennig at Dilys Wyn Morris sydd wedi derbyn triniaethau yn Ysbyty Gwynedd a Glan Clwyd. Mae ei lle yn wag yn yr oedfaon a dymunwn wellhad llwyr a buan iddi.

BLYCHAU NADOLIG. Mae Jennie Roberts yn trefnu yr ymgyrch hon eto eleni. Gofynnir i bawb sydd am baratoi arnegion ddod â'r blychau i law erbyn 9 Tachwedd.

APÊL SIERRA LEONE. Fel rhan o Apêl y Cyfundeb Presbyteraidd i godi arian i dlodion Sierra Leone, mae'r aelodau a charedigion wedi ymuno i noddi Gwyn Hefin Jones ar daith a wnaed yn ddiweddar ganddo i ddringo'r Twyni Tywod uchel yn Namibia. Ar hyn o bryd mae'r gronfa bron â chyrraedd £400. Diolchwn i bawb am eu cefnogaeth.

OEDFAON TACHWEDD 2007. Cynhelir yr oedfaon am 5.30 yr hwyr.

4: Parchg Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon
10: Mr John H. Hughes, Llanberis
18: Parch Eifion Wyn Williams, Llanfairfechan
25: Mr Richard Lloyd Jones, Bethel

CYNGERDD MAWREDDOG yn Festri Capel Coch, Llanberis am 7.30 o'r gloch nos Sul, 11 Tachwedd. Yr artistiaid fydd: Dafydd Iwan, Côr y Waun, Susan Williams, Stephanie Welsby ac Edward Morus Jones.

Tocynnau £3 wrth y drws. Elw'r noson tuag at gynllun Efengyl i Fro'r Eco – 'EFE'.

Cyngerdd MAWREDDOG

YN FESTRI

Capel Coch Llanberis

7.30 NOS SUL
Tachwedd 11eg.

Gyda

★ Dafydd Iwan
★ Côr-y-Waun
★ Susan Williams
★ Stephanie Welsby
★ 'Edward' (Morus Jones)

Arweinydd y Noson
Dafydd Iwan
Cyfeilyddes-Ann Pritchard

Tocynnau-£3.(I BAWB) WRTH Y DRWS
SIOP COSTCUTTERS • SIOP FORMAG • Aelodau Capel Coch

MWY O HANES LLANBERIS 'DDOE'

Yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol yn yr Wyddgrug cefais gyfarfod y llythyrwr, Emrys Williams o Solihull, 'yn y cnawd'. Peth braf yw rhoi gwyneb i lais dros y ffôn.

Mae cof Emrys yn fyw o hyd, ac mae wrth ei fodd yn sôn am Lanbêr ei ieuenctid. Fel yr addawodd, daeth llythyr arall yn ddiweddar. Yn y llith yma mae'n sôn am Hel at Festri, ac yna am ddwy gêm bêl-droed mae'n eu cofio am resymau rhyfedd iawn.

Diolch i Emrys, ac hefyd am ei eiriau caredig i'r ffyddlon rai sy'n dal i gadw'r *Eco* ar ei draed. Dyma'r erthygl gan Emrys, yn ei eiriau ei hun.

* * *

HEL AT FESTRI

A yw'n wir fod bwriad i ddymchwel Festri Nant Padarn? Agorwyd y festri yn Hydref 1934, ac fe glirwyd y ddyled yn mis Hydref 1942. Mae hanes ymdrechion yr aelodau, o dan arweiniad y diweddar Barch. Ben Owen, wedi'i gofnodi gan y ddiweddar Mat Pritchard mewn llyfryn am hanes Nant Padarn.

Clywais yn ddiweddar fod Eirlys Peris, merch Ben Owen, wedi marw'n ddiweddar – heddwch i'w llwch.

Dyma'r festri hardda ac mwyaf hwylus yn y pentref. Yno y cynhelid pob math o weithgareddau – y Gobeithlu, seiat, cyfarfodydd llenyddol, sosials a pharti'r plant. Un cof o'r parti plant oedd gweld Jona Gwilym, oedd yn stiward ar y llongau mawr, yn cario tre yn llawn o ddanteithion, gyda un law uwch ei ben.

Un o'r prif ymdrechion i glirio'r ddyled oedd fod pob aelod yn addo cyfrannu 3c neu 6c yr wythnos. Y plant oedd i gasglu'r arian ar gyfer y Sul.

Roeddem ni yn deulu o dri o blant. Rhoddwyd llyfr bach coch i ni i nodi'r cyfraniadau, ac enwau'r saith aelod ar ein *patch* ni ynddo. Cychwyn ar ôl te bnawn Sul a dechrau yn stryd ni. Dennis a minnau lawr i Tŷ Crwn (Miss Dora Jones), fyny i Pant Du (Mr a Mrs H. Jones), yna Llainwen (Mr a Mrs R. J. Williams) a gorffan hefo Mrs Jona Owen a Mr a Mrs W. M. Williams.

Cael ein galw i mewn yn y tŷ olaf i gael ein gwobr am ein gwaith da dros y capel. Yno byddem yn cael jeli crim a theisan ffrwythau. Pwy oedden ni i gyfaddef ein bod wedi cael te unwaith!

Byddai Yncl Wil yn gorfadd ar y setî a'i lygaid ar gau yn mwmian yr emynau a ddeuai o raglen *Caniadaeth y Cysegr* ar y radio.

Wedi'r casglu, mynd â'r arian i oedfa'r nos a'i gyflwyno gyda'r llyfr cownt i Miss Pritchard, Garej.

* * *

Y DDWY GÊM

Cefais y fraint o weld sawl gêm gofiadwy. Cofio chwarae ar gae Yeovil un tro – cae da ond yn enwog am ei *slope* anhygoel. Yna semi-ffeinal yr F.A. rhwng Man U a thîm rhyfeddol y Wolves, yn Lerpwl. Trip hefo tîm Llanberis oedd hwnnw. Yna'r gêm gyntaf ar gae Bangor ar Ffordd Farrar. Ond nid dyna'r fath o gemau dwi isio sôn amdanyn nhw. Y ddwy gêm dan sylw yw un ar gae Coed Tŷ Du a'r llall ar Cae Pasus.

* * *

Gêm Cae Tŷ Du

Yr un criw wedi ymgynull – hogia Yankee, Bethesda St., Pen Graig a Llainwen. Dewis dau dîm ac, fel arfer, ni'n cymryd enwau arwyr tîm Llanberis ar y pryd – Wil Penny, Wil Padarn Rd., Dafydd Taff, John Glyn...

Dechrau da i'r gêm, yn llifo o un ochr i'r llall. Yna'r asgellwr dde yn gwibio am y gôl ac ar fin saethu – dyma sgrech fawr yn atseinio dros y cae. Pawb yn meddwl ei fod wedi torri'i goes neu ei fraich. Stopio'r gêm a rhedeg yno i ddarganfod beth oedd rheswm y sgrech.

Gollwng ei drowsus, a gwenyn meirch yn disgyn yn llipa i'r llawr, ond nid cyn iddo bigo'r asgellwr yn ei bidlen! (Rhai'n awgrymu fod gwên ar wyneb y gwenyn meirch yn ei 'weithred' olaf.)

Cyn codi ei drowsus dyma'r asgellwr yn gwibio adref at ei fam. Y gweddill ohonom yn ceisio dal i fyny ag o, heb lwyddiant. Cyrraedd y tŷ a dyna ble'r oedd ei fam yn laddar o chwys ynghanol ei golchi. Dweud y stori.

'Twt lol, rho dipyn o'r lliw glas 'ma ar y pigiad.' Dyna fu, a ninnau i gyd yn sbecian i weld y canlyniad – ond heb fawr o gydymdeimlad! Yna'n ôl yn hamddenol i orffen y gêm.

Yn rhyfeddol, pan mae'r tystion yn cyfarfod o hyd rydyn ni'n dal i gofio Gêm y Bigiad – a dal i chwerthin!

Gêm Cae Pasus

Hon rhwng Blaen Ddôl a Choed Ddôl – Limbo a Pentra i bobl Llanbêr. Roedd cryn edrych ymlaen at y *crunch* gêm yma. Dewis Cae Pasus am ei fod yn fwy cyfleus, yn fwy o ran maint, yn fwy gwastad a mwy o wair arno. Pawb yno ar amser, a sylwi fod dyn yn sefyll tu ôl i'r gôl. Pawb yn meddwl ei fod yno i wylio – yr unig un! Doedd neb yno fel arfer.

Gyda bod y gêm ar ddechrau dyma'r 'gwyliwr' yn dechrau ymlwybro at lyn Thomas Lewis, gan ddweud ei fod am daflu ei hun i'r dŵr. Chymerodd neb sylw ohono – y gêm oedd yn bwysig. Ond, o dro i dro, deuai mwy o weiddi o gyfeiriad y llyn. Yna, ni allem ei weld, a prysur sylweddoli ei fod o ddifrif yn ei fwriad. Rhai ohonom yn bryderus, eraill yn anaeddfed o gellweirus. Penderfynodd rhai o'r hogia redeg i nôl y plismon a daeth hwnnw ar ei feic.

Diwedd y stori oedd fod Woods, y plismon, wedi perswadio'r dyn i fynd yn ôl adref at ei deulu. Bu fyw am sawl blwyddyn wedyn a chafodd waith ysgafn yn un o ffatrïoedd yr ardal.

Diwedd da iddo fo, yn mynd adre'n fyw, ond ni'n ddigalon am na chafodd y 'gêm fawr' ei gorffen.

Hwyl am y tro.

FINE ART TRADE GUILD
ORIEL CWM
Cwm y Glo
Ffôn/Ffacs: (01286) 870882
Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys

Byddwch yn llawer gwell allan hefo Ni!
AUDI SEAT PORSCHE VOLKSWAGEN
SKODA BMW PEUGEOT FIAT VOLVO MERCEDES SAAB
IMPORTS GERMAN SWEDISH
Y Dewis arall Dibynadwy i Wasanaeth Y Prif Ddeliwr. Beth bynnag rydych yn ei yrru, o Audi i VW...
Shell HELIX
MOT
32 point
Ceir Benthyg AM DDIM
Cibyn Ind. Est., Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD
(01286) 673559 www.a-v-w.co.uk
AVW Car Service
BOSCH Service

Silver STAR
GWYLIAU SEREN ARIAN
- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I GYNGHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- GWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.

Am fwy o fanylion am ein teithiau, ffoniwch ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277

Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

Cyn-ddisgyblion Ysgol Brynrefail a ymunodd â'r ysgol yn 1957, hanner can mlynedd yn ôl, yn yr aduniad yng Ngwesty Fictoria Llanberis, ar 20 Hydref.

MAE
Eco'r Wyddfa
ANGEN EICH
CYMORTH

Os am
wirfoddoli cysylltwch
â **Geraint Elis**
Cadeirydd y Pwyllgor

Ffôn:
(01248) 670726

Blodau Racca

(Alwyn and Sarah Jones)

Ffôn **870605**

- Basgedi Planhigion, Blodau Ffres a Silc
- Danfon blodau 7 diwrnod yr wythnos drwy'r fro
- Gwasanaeth Tudalennau Siarad/*Talking Pages* 118 247
- Planhigion Gardd a Basgedi Crog

RHODD O'R GALON YW BLODAU

- **Priodasau** - **Dathliadau**
- **Achlysuron Arbennig** - **Cynadleddau**
- **Pwyllgorau** - **Bwydlen Bar**
- **Cinio Dydd Sul**

QUALITY HOTEL

Royal Victoria Quality Hotel Llanberis

wrth droed yr Wyddfa

Ffôn: Llanberis (01286) 870253

Gorsaf Betrol Beran Deiniolen.

Golchi a ll'nau Ceir

Ar agor 7yb - 9yh bob diwrnod
Petrol, Diesel, Nwy Calor a Glo
Loteri, Papurau Newydd
Off Licence, Bake'n Bite
Brechdanau a Diodydd Poeth

Costcutter

01286 871521

Dathlu Canmlwyddiant a Hanner Eglwys Crist, Llandinorwig

Yn y *Daily Telegraph* ar ddydd Sadwrn mae'r papur yn cyhoeddi Gwasanaethau'r Sul mewn Cadeirlannau drwy'r wlad. Ar yr 22ain o Fedi, yr oedd Gwasanaethau Cadeirlan Bangor yno, a gwelwyd y byddai Gwasanaeth Gosber y Gadeirlan am 6.00 o'r gloch yn cymryd lle yn Eglwys Crist Llandinorwig. Tybed faint o bobl, wrth daflu cipolwg dros y gwasanaethau yma, oedd yn dyfalu ble'r oedd Eglwys Crist, Llandinorwig?

Ar nos Fercher, y 19eg o Fedi, ar ôl bron i dair blynedd o waith ymchwil gan y Canon Idris Thomas, daeth *Gwynfyd Gwaun Gynfi* allan o'r wasg. Geraint Lloyd Owen o Wasg y Bwthyn a lywiodd y noson, gyda Seindorf Arian Deiniolen yn cyflwyno eitemau. Yr oedd yr Archdderwydd Selwyn Iolen hefyd yn bresennol a chafwyd darlleniadau o'r llyfr ganddo ef a gan Jeni Lyn, Brian Price, y Canon Evan Trefor Jones, Tom Williams, ŵyr y Canon Glyndwr Williams, a'r Canon Geraint Wyn Edwards. Cyflwynodd Y Canon Evan Trefor Jones y copi cyntaf ac yna cyflwynodd Mrs June Jones o Wasg y Bwthyn ddau rwymiad cain i'r âwdur.

Ar y nos Iau, cafwyd Gweinyddiad o'r Cymun Bendigaid gan Ficer y Plwyf, y Parchedig Robert Townsend. Yna fe agorwyd yr Ŵyl Flodau gan Mrs Mair Glyndwr Williams, Penrhosgarnedd. Siaradodd Mrs Williams am yr amser y bu'n byw yn Ficerdy, Llandinorwig, rhwng 1956 a 1962 a magu Elisabeth, Medi a Richard yno.

Yn ystod yr Ŵyl Flodau cafwyd datganiadau ar yr organ gan y Dr William Munro, a roddodd naws arbennig iawn i'r Ŵyl.

Forc Sul fc ymunodd ein cyfeillion o Nant Peris, Llanberis, Cwm-y-glo a Llanrug â ni yn Offeren y Teulu. Yn ystod y gwasanaeth, tro plant yr Ysgol Sul oedd rhoi eu cyfraniad hwy i'r gweithgareddau a chafwyd darlleniadau a chaneuon ganddynt. Diolch am eu gwaith o ddysgu a chyflwyno mor dda inni.

Nos Sul, cafwyd Gosber ar Gân gyda Chôr y Gadeirlan a'r Deon, y Tra Pharchedig Alun Hawkins. Pregethwyd gan Esgob Bangor, y Gwir Barchedig Anthony Crocket.

Am chwarter wedi un bnawn Llun daeth disgyblion Ysgol Gwaun Gynfi i'r eglwys gyda'u hathrawon. Rocdd yr eglwys yn orlawn gan i rieni a theuluoedd ddod yno hefyd i gefnogi. Cafwyd darlleniadau a chaneuon gan y disgyblion. Cyflwynodd y Parchedig Robert Townsend hanes yr eglwys a hefyd y Ddameg, y Tŷ ar y Tywod a'r Tŷ ar y Graig yn effeithiol iawn.

Cyd-ddigwyddiad ocdd fod un o ddisgyblion Ysgol Gwaun Gynfi, Catrin Llewelyn Gruffudd, yn dathlu ei degfed pen-blwydd ar yr un diwrnod! Yno yn ffilmio yr oedd y rhaglen *Wedi Saith*, ond siom i bawb oedd gweld mai ond ychydig eiliadau o'r cyfarfod arbennig yma a gafwyd ar y teledu y noson honno. Mawr oedd y canmol am gyfraniad disgyblion Ysgol Gwaun Gynfi i'r dathliadau.

Am saith o'r gloch, a hithau yn noson pur stormus, fe gafwyd Offeren yr Ŵyl. Esgob Bangor oedd y Llywydd a'r gerddoriaeth yng ngofal Seindorf Arian Deiniolen. Croesawyd nifer o gyn-Offeiriaid y Plwyf a hefyd llawer iawn oedd wedi symud o'r plwyf i fyw. Y pregethwr oedd y Canon Hywyn Jones, mab i gyn-Ficer y Plwyf, sef y Canon William Walter Jones (1927–1955). Rhoddodd fraslun inni o hanes bywyd yn y plwyf a'r ardaloedd cyfagos pan oedd yn fachgen yn byw yn y ficerdy.

Ar ddiwedd y gwasanaeth cyflwynodd yr Esgob dystysgrifau i Mrs Gwen Griffith a Mrs Eileen Hughes am eu gwasanaeth o ddeng mlynedd ar hugain fel athrawon yn yr Ysgol Sul. Cyflwynwyd anrheg i bob un o gyn-Offeiriaid y Plwyf, a chyflwynwyd cloc o lechen i'r Parchedig a Mrs Robert Townsed a'u merch, Gwen, er mwyn cydnabod eu holl waith gyda'r dathliadau. Diolch hefyd i bawb a ddaeth o'r tu allan i blwyf Llandinorwig i gefnogi ac i rannu â ni yr amser arbennig yma.

Yn un o wasanaethau'r dathlu yn 1957 fe gafwyd pregeth ar un o adnodau Salm 16 (Beibl William Morgan):

'Y llinynnau i mi a syrthiodd mewn lleoedd hyfryd: ie, y mae i mi etifeddiaeth deg.'

Pregethodd Esgob Bangor ar y nos Sul, 23 Medi, ar yr un adnod ond o'r Beibl Cymraeg Newydd: *'syrthiodd y llinynnau i mi mewn mannau dymunol, ac y mae gennyf etifeddiaaeth ragorol.'*

Ychydig o eiriau wedi newid wrth dreiglo'r canrifoedd. Os y bydd dathlu yn 2057 a fydd yr un geiriau yn addas: ac a welir eto grybwyll Eglwys Crist Llandinorwig yn y *Daily Telegraph*?

Diolch i bawb a weithiodd mor galed i baratoi yr eglwys, paentio, glanhau, paratoi bwyd a gweini. Diolch i bawb oddi allan i'r plwyf a ddaeth i gefnogi'r gwasanaethau.

Noson i'w Chofio



Yr oedd Eglwys fawr Llandinorwig yn Neiniolen yn orlawn hyd y drws ar nos Fercher, 19 Medi, pan lansiwyd *Gwynfyd Gwaun Gynfi*. Llyfr yw sy'n croniclo canrif a hanner yr Eglwys, a'r awdur yw brodor o'r plwyf, sef y Canon Idris Thomas, Trefor.

Ar ddydd Llun, 24 Medi, roedd yr eglwys yn dathlu'r garreg filltir hon yn ei hanes, gan mai ar 24 Medi 1857 y cysegrwydd yr eglwys. Mae'r llyfr (240 tudalen a 24 o luniau) yn gronicl hynod fanwl a chynhwysfawr o hanes yr eglwys ac roedd yno ddisgwyl eiddgar at y noson lansio, ac ni siomwyd neb.

Yn llywio'r noson yn fedrus a chartrefol yr oedd Geraint Lloyd Owen, Swyddog Cyhoeddi Gwasg y Bwthyn, Caernarfon, sef argraffwyr y llyfr. Ficer y plwyf, y Parch Robert Townsend, oedd â gofal dros y ddefosiwn ar ddechrau'r noson. Yn bresennol yr oedd Seindorf Arian Deiniolen, dan arweiniad Wyn Williams, a hwy oedd yn cyfeilio i'r tair emyn (a ganwyd yn ogystal yn y Canmlwyddiant yn 1957), a chafwyd dwy eitem ganddynt hefyd. Mae cysylltiad agos wedi bod erioed rhwng y Band ac Eglwys Llandinorwig.

Cafwyd darlleniadau o'r gyfrol gan yr Archdderwydd Selwyn Iolen, a oedd yn cynnwys ei gerdd o gyfarchion, penillion er cof am Elsa Wyn Pritchard, a hefyd dwynodd i gof ddiddordeb y Parch James Salt ym myd yr eisteddfod.

Yna cafwyd detholiadau gan Jeni Lyn oedd yn ymwneud â pherthynas Llandinorwig â'r Band, a hynny yng nghyfnodau y Parchedigion John Thomas Jones a James Salt, a Chylchwyl Llandinoriwg yn 1907. Priodol iawn oedd i Jeni eu darllen a hithau yn brif gornedydd y Band.

Gan Brian Price, un o Wardeniaid y Plwyf, cafwyd hanes gosod y garreg sylfaen (Ebrill 1856) a Dydd y Cysegru (Medi 1857), ac ychydig o hanes y Ficer cyntaf, sef y Parch Henry Grey Edwards (1857–1873).

Hanes ei gyfnod yn Llandinorwig yn chwedegau'r ganrif ddiwethaf a gafwyd gan y Canon Evan Trefor Jones, pan soniodd am ei ddyfodiad o faesdref Maesgeirchwn, lle roedd yn gurad, i'r 'Palas' yn Llandinorwig. Soniodd hefyd am rai digwyddiadau a beth a olygai bywyd 'ardal' iddo yn ei blwyf newydd.

Ŵyr i'r Canon R. Glyndwr Williams (1955–1962), sef Tom Williams, myfyriwr ym Mhrifysgol Bangor, soniodd am ddyfodiad ei daid i'r plwyf, am bwysigrwydd y Canmlwyddiant yn 1957 ac am obeithion y Canon Glyndwr am yr ail ganrif yn hanes yr eglwys.

Daeth detholiadau o'r gyfrol i ben ar nodyn ysgafn, llawn hiwmor gan y Canon Geraint Wyn Edwards, un o gyn-Ficeriaid y Plwyf. Yn ei ffordd ddihafal ei hun, gyda'r gynulleidfa fawr yn chwerthin, adroddodd ddwy stori ddigri. Un o gyfnod y Cysegru (1857) a'r llall o Ionawr 1920. Ond straeon am ffraethineb un o gyn-guradiaid y plwyf, sef y Parch Daniel Nicholson (1950–1959) a gafodd y chwerthiniad mwyaf.

Yn absenoldeb yr Esgob, cyflwynodd y Canon Evan Trevor Jones y copi cyntaf i'r Canon Idris Thoms, a chyflwynwyd wedyn ddau gopi arbennig wedi eu rhwymo yn gain, un i'r awdur a'r llall i Eglwys Llandinorwig, gan Mrs June Jones, Rheolwraig Gwasg y Bwthyn.

Wrth ddiolch mynegodd y Canon Idris Thomas mai braint iddo oedd dwyn i gof mewn llyfr hanes yr Eglwys a'r gymdeithas, gan fod ei ddyled am ei fagwraeth Eglwysig yn y plwyf yn fawr.

Prysur iawn fu gwerthiant y llyfr, yn wir gwerthwyd y cyflenwad a ddygwyd o'r wasg i gyd! Paratowyd, yn garedig iawn, luniaeth ysgafn gan ferched y plwyf. Yn ystod gweddill y dathliadau roedd mynd mawr ar y llyfr a diolcha'r awdur i'r trigolion lleol a phawb o'r tu allan i'r plwyf am eu diddordeb.

Dyma drydydd llyfr y Canon Idris Thomas yn ystod ei weinidogaeth. Mae'r *Gwynfyd Gwaun Gynfi* ar werth yn y siopau neu trwy gysylltu â'r awdur (01286) 660 547.

NJ

Gwasanaeth Cwnsela

Nerys John BSc. Dip. Couns.MBACP

Sesiynau yng Nghaernarfon gyda chwnselydd cymwysiedig. Cyfle i ddod o hyd i ffordd eich hun i ddelio gyda gwrthdynfa, gwrthdaro, newidiadau anodd neu phrofiadau anodd. Fe wneir hyn mewn sefyllfa nad yw yn feirniadol gan ddilyn canllawiau proffesiynol y BACP.

Ffoniwch 07796376158

E. W. Pritchard

CENTRAL GARAGE, Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU

CHWARAEON

PENCAMPWRIAETH PRYDAIN – RASUS CYFNEWID AR FYNYDD

Ar y trydydd Sadwrn ym mis Hydref teithiodd carfan fechan o redwyr lleol i ardal y Forest of Bowland yn Swydd Gaerhirfryn i gystadlu yn y bencampwriaeth flynyddol. Am y tro cyntaf yn hanes Rhedwyr Eryri methodd y clwb â chael digon o redwyr i gystadlu yn adran y dynion dros 40 oed. Yn wir, oherwydd anafiadau a galwadau eraill, bu'n rhaid cynnwys dau redwr dros 40 oed yn y tîm cyntaf, ac felly, roedd y dynion yn ymwybodol nad oedd fawr o siawns ennill medal y tro hwn.

Ond roedd pethau'n wahanol yn nhîm y merched. Wythnos ynghynt roedd merched Eryri wedi coroni tymor llwyddiannus ym Mhencampwriaeth Rhedeg Mynydd Prydain, gan ennill y fedal aur yn dilyn eu perfformiad yn y chweched ras pencampwriaeth yn Great Whernside, Swydd Efrog. Oedd hi'n bosibl ennill medal arall yn y cystadleuthau cyfnewid?

Mae'r bencampwriaeth hon wedi ei selio ar bedair ras a chwech o redwyr. Mae dwy ras fer o tua pedair milltir, un ras hir o tua wyth neu naw milltir, gyda phâr o redwyr yn gorfod ei rhedeg, ac un ras ganolig ble mae'n rhaid i'r pâr ddefnyddio map a chwmpawd i ddarganfod y llwybr cywir.

Roedd yr ardal yn ddieithr i'r rhai oedd yn cynrychioli Eryri, ac i wneud pethau'n waeth, roedd y tywydd yn echrydus, gyda niwl trwchus yn cuddio'r mynydd yn gyfangwbl. Roedd hi hefyd yn wlyb dan draed, a'r dirwedd yn fawn du soeglyd. Chafodd y dynion ddim hwyl o gwbl, gan ddiweddu yn chwarter olaf y gystadleuaeth. Ond cafwyd ymdrech arbennig gan y merched ac. o drwch blewyn. yn unig y methwyd ac ennill y fedal efydd. Er hynny, roedd y merched ar ben eu digon oherwydd iddynt guro tîm y dynion, a diweddu yn safle 62 allan o gant ac ugain o dimau.

Rhedwyr lleol yn cynrychioli'r merched oedd Sarah Kleeman, Nantperis; Jenny Hemming, Fachwen a Jayne Lloyd, Pontrug. Rhedwyr lleol yn cynrychioli'r dynion oedd Dylan Jones, Deiniolen; Arwel Lewis, Bethel a Dafydd Thomas, Llanrug.

Bydd pencampwriaeth 2008 yn cael ei chynnal yn nes atom, ar Fryniau Clwyd. Siawns na fydd hi'n haws rhedeg ar dirwedd sy'n weddol adnabyddus i'r mwyafrif o Redwyr Eryri!

A FYDD Y SOSBAN YN BERWI?

Wel, ardal yr *Eco* yw ardal y gemau mawr yn ddiweddar. Caed cefnogaeth dda ar Ffordd Padarn – a'r camerâu yno – i wylio'r Drenewydd yn trechu Llanberis. Er y siom, mae diddordeb o hyd. Wedi buddugoliaeth dda yn Nefyn mae Llanbêr yn yr het ar gyfer y bedwaredd rownd yng Nghystadleuaeth Tlws y Gymdeithas Bêl-droed.

Ar faes Eithin Duon bydd y sylw y Sadwrn yma. A sôn am sylw! Bydd Llanrug yn herio neb llai na Llanelli, y tîm sydd ar frig y gynghrair genedlaethol ar hyn o bryd.

Bangor y tymor diwethaf ac yn awr tîm llawn – amser Peter Nicholas yn nhrydedd rownd Cynghrair Cymru. Mae Llanrug yng nghanol rhediad anodd o gemau yn arwain at hon, gan herio Bethesda a Rhyl, y ddau geffyl blaen yn eu cynghrair.

Yr hyn sy'n taro rhywun am Lanelli yw eu bod â chyfartaledd o dair gôl y gêm yn y gynghrair hyd yn hyn. Un o'r rhesymau yw dawn Rhys Griffiths o flaen y gôl – tipyn o sgoriwr. Hefyd dylanwad y Sbaenwr, Migoranthe, yng nghanol y cae. Bydd yn bwysig ei gau o i lawr! Yn adlewyrchu eu rheolwr, mae Llanelli yn dîm corfforol digyfaddawd.

Yr un peth na all yr ymwelwyr gwyno amdano yw cyflwr ardderchog Eithin Duon, diolch i Gwyndaf. Yn sicr, dyma'r gêm fwyaf yn hanes Llanrug, a gobeithio y daw torf dda – a'r camerâu – yno erbyn dau o'r gloch dydd Sadwrn. Rwy'n siŵr, fel y dywed yr hen gân, y bydd Aled Owen wedi cael ei dîm i 'sgrapo' am bob pêl.

Braidd yn anffodus, ond bydd gêm ddeniadol arall i lawr y lôn ym Methel yr un amser. Bydd y tîm lleol – sydd ar rediad dda yn ddiweddar – yn herio Crwydriaid Caernarfon yn y Junior Cup. Gan fod rhyw bedwar o gyn-chwaraewyr Bethel yn nhîm y Cofis, disgwyliwch dipyn o dân gwyllt cynnar yma.

Dwy gêm dda y Sadwrn yma felly. Beth am roi tipyn o orffwys i'r wraig a mynd gyda'r plant i wylio'r gêm.

NEWID FY MEDDWL

Rwyf wedi cyfeirio sawl gwaith yn y golofn at y defnydd o'r dechnoleg fodern sydd ynglŷn â gwneud penderfyniadau ym myd chwaraeon. Hyd yn hyn rwyf wedi bod yn erbyn y defnydd. Fy mhrif ddadl oedd bod y penderfyniad personol yn ran annatod o unrhyw gamp. Y tueddiad yw iddi lefelu allan dros gyfnod o amser. Yn anffodus, erbyn hyn mae canlyniadau gemau ar y lefel uchaf yn cael sawl ymateb. Rheolwyr yn colli eu swyddi. Timau allan o gystadlaethau ac yn colli arian sylweddol.

Y mae dau ddigwyddiad yn ddiweddar wedi gwneud i mi newid fy meddwl. Y cyntaf oedd y penderfyniad yng Nghwpan Rygbi'r Byd. Yn sicr, roedd hwn yn benderfyniad tyngedfennol. Gyda llygaid naturiol buasai wedi bod yn amhosib i wneud dyfarniad 100%. Cafwyd cryn amser cyn i'r 'barnwr teledu' wneud ei benderfyniad. Y farn gyffredinol – hyd yn oed gan Saeson – oedd bod y penderfyniad yn un cywir. Mae'n hawdd stopio'r cloc – mater arall yw anwybyddu'r cyfle i gael y penderfyniad cywir.

Yr ail ddigwyddiad oedd yn y gêm rhwng Lerpwl ac Everton. Yn amlwg bu cryn drafod am berfformiad y dyfarnwr – un o'r goreuon. Yr hyn sy'n drist yw fod cyhuddiadau o ffafriaeth tuag at y Cochion yn cael eu hanelu at y dyfarnwr. Mae hyn yn drist.

Y prif wrthwynebiad yn erbyn defnyddio'r dechnoleg yw nad oes camerâu o safon ym mhob gêm broffesiynol. Hefyd, pa bryd y dylid stopio'r gêm i ailedrych ar y digwyddiad.

Rwyf bellach o'r farn y dylid defnyddio'r dechnoleg mewn unrhyw gêm sy'n mynd allan yn fyw ar y teledu. Yn ail, os oes amheuaeth yna dylai'r dyfarnwr stopio'r gêm yn syth y mae'r bel yn mynd yn farw wedi'r digwyddiad, ac yna trafod gyda'r 'barnwr teledu'.

Gyda llaw, fel 'barnwr teledu' yn y gêm uchod, roeddwn yn meddwl fod y dyfarnwr yn gywir gyda'r ddau gerdyn coch, ac yn anghywir gyda thacl Khuyt a'r gic gosb na roddwyd ar y diwedd!

Cofiwch am y
Cyfarfod Blynyddol
yn Sefydliad Coffa,
Llanrug
nos Fercher,
14 Tachwedd, am 7.30

WEDI'R CWPAN

Yn ôl y gwybodusion, Cwpan Rygbi'r Byd 2007 oedd yr orau hyd yn hyn. Yn sicr, hon oedd y gystadleuaeth gyda'r mwyaf o ganlyniadau annisgwyl.

Hefyd gwelwyd datblygiad rhyfeddol yn nhrefniadaeth a pherfformiad nifer o'r gwledydd llai. Yn bendant mae systemau amddiffyn wedi gwella, ac efallai bod hyn yn arwain at lawer mwy o gicio tactegol yn y gêm. A yw rygbi ar y lefel uchaf yn troi yn gêm i'r 'hogiau mawr' yn unig?

Bydd perfformiadau y 'gwledydd llai' yn ymateb i'r gŵyn o gampau eraill, nad yw rygbi yn gêm fyd-eang. Hyd yn hyn dim ond Seland Newydd, De'r Affrig, Awstralia a Lloegr sydd wedi codi'r Tlws, a hwy fel arfer sy'n ymgiprys yn y gêm derfynol.

Ond beth am y gwledydd llai – gan gynnwys Cymru – o ran poblogaeth, nifer y clybiau a'r nifer sy'n chwarae'r gêm? Daliodd un ystadegyn fy sylw ynglŷn â ble roedd aelodau carfannau y gwledydd llai yn ennill eu bara menyn o Sadwrn i Sadwrn. Cyfeiria'r erthygl at garfannau yr Ariannin, Tonga, Fiji a Georgia. Roedd canran uchel iawn o'u carfannau yn chwarae yng nghynghreiriau Ffrainc a Lloegr – y ddwy gryfaf yn Ewrop. Yn naturiol felly, maent yn derbyn hyfforddiant safonol ac yn chwarae gemau cystadleuol yn gyson.

Y ffigyrau perthnasol, gyda llaw, oedd:

Ariannin: 22 chwaraewr
Tonga: 10,
Fiji: 13,
Georgia: 22.

Nid carfannau amhrofiadol oedd yno felly.

Cymharwn hyn â'r sefyllfa yng Nghymru. Y rhan fwyaf o'r timau yn chwarae 'adref' yng Nghynghrair Magners. Pa mor gryf yw honno? A yw pob rhanbarth ynddi yn rhoi dyledus barch, ynteu'n canolbwyntio ar y gemau yn Ewrop?

Bydd cryn edrych ymlaen i weld perfformiadau rhanbarthau Cymru yng nghwpan Eingl-Gymreig yr EDF. Rhaid ennill parch os am ddenu noddwr i sefydlu cynghrair Eingl-Gymreig, fel mae rhai yn galw amdano. Beth bynnag a ddywedwn am y Premiership yn Lloegr, mae wedi cynhyrchu chwaraewyr sydd wedi cyrraedd rownd derfynol ddwy waith.

Rhaid edrych ar y strwythr yng Nghymru neu bydd ein doniau ifanc yn edrych am yr arian mawr tu hwnt i Glawdd Offa. Yn sicr, dyma amser gweledigaeth ac arweiniad cadarn. O na fuasai Carwyn James o gwmpas o hyd.